# Llanw Llŷn


- ................ Arwyddion Codi Calon
- ................ Teithio yn Ne America
- ....................Dyddiadur y Daflod
- ............................ Garddbenigwyr
- ................................Cian y Cogydd


Rhif 485 Mai 2020 Am ddim!

## Llanw Sgrin!

**Bu'n** rhaid i'r Llanw, fel pawb, addasu i'r byd newydd. Dyma'r rhifyn cyntaf o'r Llanw ar y we, a bydd y nesaf yn un digidol hefyd. Gyda chymorth Bro360 cawsom gyfle i rannu'r Llanw hefo chi unwaith eto ac er bod darllen ar sgrin yn wahanol i ddal papur yn eich dwylo, neu bwyso drosto fo wrth y bwrdd brecwast, buan iawn y daw rhywun i arfer.

Rhyw fymryn yn wahanol fydd y rhifyn hwn felly ond mae nifer o'r hen ffefrynnau rhwng y cloriau digidol o hyd ac ambell beth newydd hefyd. Ryda ni wedi bod wrthi'n ddygn yn brwydro'n erbyn cysylltiadau we diarhebol a meddalwedd strancllyd i ddod a'r rhifyn hwn at olau dydd. A mawr ydi'r ymddiheuro am unrhyw un a glywodd bytheirio wrth i ni fwrw iddi.

Diolch i bawb a gyfrannodd a chofiwch gysylltu os oes gennych chi unrhyw beth at rifynnau'r dyfodol.

## Gôl-ona



Dyma lun o Owain Tudur Jones yn cyflwyno tlws i Tyler Livingstone o Lanbedrog - fo oedd enillydd cystadleuaeth 'Gôl-ona' ar raglen Heno S4C. Yn ystod mis Ebrill fe wnaeth dros 300 o wylwyr Heno yrru eu goliau i'r rhaglen a gôl Tyler oedd yr un orau yn ôl y beirniaid profiadol Owain Tudur Jones, Nic Parry a Macolm Allen. Llongyfarchiadau Tyler. Tybed oes na ambell 'Bale' neu 'Ramsey' arall yn cuddio ym Mhen Llŷn? Gyrrwch eich ceisiadau i heno@tinopolis.com

**Dyddiad cau rhifyn Mehefin: Dydd Iau, Mehefin 4ydd**

# Llŷn dan glo




**Daeth** tro ar fyd a hwnnw'n fyd digon brawychus. Mae dalgylch y Llanw yn wahanol iawn erbyn hyn a phawb yn eu tai a'r lonydd yn ddistaw. Eto'i gyd fel y gwelwch chi yn y rhifyn hwn mae pobol wedi addasu, ac yn helpu'i gilydd. Mae arwyddion i godi calon wedi ymddangos ar gloddiau ac mewn ffenestri, mae 'na ganu a choginio (er ei bod hi'n job ffendio blawd...) ac mae nifer fawr o bobl wedi dod i werthfawrogi lonydd culion Llŷn a'r cloddiau uchel yn llawn blodau wrth grwydro eu hardal yn amlach.

Mae pobl yn helpu cymdogion a thrigolion eu cymunedau ac mae staff ein cartrefi gofal, meddygfeydd ac ysbytai yn gweithio'n aruthrol o galed o dan amgylchiadau heriol. Mae llond gwlad o weithwyr hanfodol yn gadael eu tai bob bore neu'n gweithio o adref fel bod yr olwynion sydd raid eu cael nhw'n troi yn gwneud hynny. 'Dechreuwch wrth eich traed' meddai'r hen air a waeth be ydi'ch barn chi am San Steffan a'r Cynulliad a sut mae nhw'n mynd drwy'u pethau fedr neb wadu nad ydi pawb sydd yn dechrau wrth eu traed yma: yn nyrsus, siopwyr, blismyn, bobol biniau, yn bostmyn neu'n unrhyw un sy'n helpu yn gwneud gwaith gwych a'u bod nhw'n haeddu llawn mwy na chlap a diolch. Er bod diolch pawb iddyn nhw'n anferthol wrth gwrs.

Er ei bod hi'n anodd iawn ar hyn o bryd, fe ddaw pen yma'r byd drwyddi ac fe fydd y diolch am hynny llawn cymaint i'r rhai a ddechreuodd wrth eu traed nac unrhyw un.

# Diolch i funsesau

**O** ffrwythau a llysiau, at presgripsiwn, llefrith, tomatos (byw), byns hefo eisin ar eu pennau nhw a chant a mil o bethau eraill mae dygnwch a mentergarwch busnesau bach Llŷn wedi morol fod trigolion ein cymunedau wedi gallu derbyn nwyddau ar y rhiniog yn ddiogel.

Y bwriad yn y rhifyn hwn oedd rhoi rhestr handi o'r busnesau hynny a oedd yn cynnig gwasanaeth arbennig yn ystod cyfnod COVID-19 ond mae yna gymaint ohonynt nes byddai'r rhestr hwnnw'n hirfaith a byddai peryg colli rhywun! Nid siopau bwyd yn unig sydd wedi torchi eu llewys, mae pob math o nwyddau i'w cael bellach ac mae caffis a bwytai wedi addasu i ddanfon prydau i'r rhai bregus yn ein plith hefyd.

Hawdd i ni efallai fyddai cymryd gwasanaeth o'r fath yn ganiataol wedi ni arfer ag o ond cofiwch fod gweithio fel hyn yn beth anodd iawn, llawn anos na dal ati hefo'r hen drefn. Rhwng y trefnu, y danfon a'r morol am gadw pob dim yn lân mae 'na waith caled iawn. Rhoddodd perchnogion a staff y busnesau hyn eu hunain mewn mymryn mwy o beryg fel ein bod ni mewn mymryn llai.

Diolch i bob un ohonyn nhw am fwrw iddi. Â phawb bellach yn ynysig mae gwerth gwasanaeth o'r fath ymhell y tu draw i werth y nwyddau'n unig. Da chi felly, peidiwch ac anghofio am y busnesau lleol yma wedi i hyn basio. Cadwch yn driw iddyn nhw, fel y mae nhw'n cadw'n driw i'w cymunedau ar hyn o bryd. Mae nhw'n eich helpu chi rŵan, helpwch chithau nhw wrth ddal ati i'w cefnogi nhw o hyn ymlaen.

## Llanw Llŷn

## Golygyddion a Swyddogion

**Y Dudalen Flaen**
Llyr Titus,
Cae Du, Dinas, LL53 8RR 770 638
Llyr@llanwllyn.cymru

**Newyddion, Llythyrau**
Twrog Jones, 740927*
Andleby, Llanbedrog, LL53 7UA,
twrog@llanwllyn.cymru

**Erthyglau, Cyfresi**
Eleri Llewelyn Morris, 740401
Cae'r Fedwen, Mynytho, LL53 7RH *
Eleri@llanwllyn.cymru

**Teyrngedau, Colofnau**
Alun Jones,
Argraig, Sarn, LL538EE 730219

**Dyddiadur**
Dilwyn Thomas,
Meifod, Mynytho, LL53 7RH 740704

**Llên y Llanw**
Gareth Neigwl, 730750
Rhydybengan Bach, Botwnnog, LL53 7SS

**Penillion Tro Trwstan**
Gwilym Williams, 730731
Tir Tlodion, Llaniestyn, LL53 8SF

**Diolchiadau, Cofio**
(Am gostau gweler tudalen 'Diolchiadau')
Meryl Davies, 770691
Nyffryn, Dinas, LL53 8ST
meryl_davies@hotmail.co.uk

**Chwaraeon**
Michael Strain, 730520
Llain, Bryncroes, LL53 8ED
Michael@llanwllyn.cymru

**Hysbysebion**
Meinir Jones
Giatgoch
Ceidio, LL53 8UA 720604
Meinir@llanwllyn.cymru

*** *Wnewch chi ddilyn y rheolau ar y dudalen yma os gwelwch yn dda.***

**Cadeirydd:** Michael Strain

**Ysgrifenyddion**
Janet Roberts 712302
Sgubor Feilir, Abererch, LL53 6YH
Janet@llanwllyn.cymru
Delyth Wyn Jones 760405
Môr Edrin, Aberdaron, LL53 8BE
Delyth@llanwllyn.cymru

**Trysorydd**
Marian Jones 07854 657419
1 Llain Delyn, Penrhos, LL53 7NF
glyddynmawr@hotmail.co.uk

**Trefnwyr Dosbarthu**
Richard Parry, Crugeran, Sarn 730375
Dei Thomas, Stabal Meillionydd, Rhoshirwaun

**Llanw Drwy'r Post**
Luned Jones, 712482 / 713621
Gwyndy, Llangïan, LL53 7LN


Cyhoeddir gan Gymdeithas Llanw Llŷn
**Argreffir gan Y Lolfa**

**Nid yw Pwyllgor Llanw Llŷn o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr**

# Cyril Jones
## Cymwynaswr Tawel

**Yn ddiweddar, cawsom wybod bod Llanw Llŷn ymysg y cymdeithasau i dderbyn rhodd gan Cyril Jones, Saethon, Mynytho, gynt yn ei ewyllys. Gwerthfawrogwn ei haelioni'n arw, ac yma mae Dilwyn Thomas, cymydog iddo ac un a fu'n ymwneud â Cyril ar wahanol bwyllgorau ac ati, yn rhoi teyrnged iddo ar ran y Llanw:**

**Cymydog** caredig, ac un nad oedd yn chwennych sylw o unrhyw fath, oedd J Cyril Jones, Trem Eryri, Mynytho, neu Cyril Saethon cyn hynny. Aelod ffyddlon a gweithgar o Bwyllgor Eisteddfod a Neuadd; aelod y rhes gefn, ond y cyntaf i wneud ei ran a mynd yr ail filltir.



**Cyril**

Ar ôl symud o fferm Saethon i Drem Eryri gyda'i frawd, Einion, ymroddodd i fywyd diwylliannol a chymdeithasol yr ardal, gan gefnogi gweithgareddau a chymdeithasau mewn nifer o ffyrdd. Os oedd angen gosod cadeiriau, glanhau a thacluso, byddai Cyril wedi bod wrth y gwaith heb yn wybod i nifer ohonom. Ar ddiwrnod Eisteddfod, fo fyddai'r cyntaf yno i agor y drysau a gwresogi'r adeilad, stiwardio wedyn yn ystod y cyfarfodydd, a chyfarch y bardd buddugol. Roedd yn ddyn ei filltir sgwâr gyda diddordeb mewn hanes lleol, yn ddarllenwr eang, a'i ymweliadau â'r Archifdy yng Nghaernarfon yn rhan bwysig o'i wythnos.

Roedd ei farwolaeth dair blynedd yn ôl yn 82 oed yn golled aruthrol i'w deulu, i'w ardal ac i'r mudiadau niferus yr oedd yn gysylltiedig â hwy. Roedd y Llanw, ynghyd ag eisteddfodau lleol a neuaddau pentref a llawer o elusennau, ymysg y cymdeithasau amrywiol hynny a dderbyniodd roddion anrhydeddus iawn yn ddiweddar wrth i'w deulu weithredu ar ei ddymuniadau a nodwyd yn ei ewyllys. Mae'n fraint i'r Llanw gael cydnabod yn ddiolchgar yr haelioni hwn gan un caredig a diymhongar. Yr un pryd, diolch i'w deulu am eu hymwneud dirodres, hynaws a thawel wrth wireddu ei ddymuniadau – yn union fel personoliaeth a chymeriad Cyril ei hun.

**Dilwyn Thomas**

## Llanw Llŷn

### Trysorydd i'r Llanw

Mae angen Trysorydd newydd ar Llanw Llŷn. Fasach chi'n hoffi ymuno â chriw brwdfrydig a gweithgar y Llanw? Dyma'ch cyfle. Cysylltwch gyda Delyth neu Janet yr ysgrifenyddion neu unrhyw un o'r swyddogion.


## Gair i gyfranwyr:

Rydym yn ddiolchgar iawn am bob cyfraniad i'r Llanw. Ond rydym yn cadw'r hawl i beidio â chyhoeddi unrhyw eitem os na ddilynir y camau canlynol:

- anfonwch eich cyfraniad at y **person cywir**
- amgaewch eich **enw**, eich **cyfeiriad** a'ch **rhif ffôn** neu **gyfeiriad e.bost**
- sicrhewch fod eich gwaith yn ein cyrraedd **erbyn y dyddiad cau**

Os ydych yn gyrru **lluniau** i'w cyhoeddi yn y Llanw a fyddech gystal â sgrifennu eich enw a'ch cyfeiriad ar y cefn? Gyrrwch luniau digidol mewn ffurf ddigidol; does dim angen eu hargraffu.

Glanhawr Carpedi
yn defnyddio system DRY FUSION
Ffoniwch Nick ar
07736 826676
hilocontracts@yahoo.com




DRY FUSION

## Hysbysebion

**M**ae hysbysebu yn y Llanw yn costio £1.80 y cm ar gyfer hysbysebion un golofn a £3.60 y cm ar gyfer hysbysebion dwy golofn. Os ydych yn dymuno hysbysebu bob mis, yna bydd un hysbyseb o bob un ar ddeg yn ddi-dâl. Mae'n bosib i ni gynnwys eich taflen yn y Llanw am gost o £75. Mae 2000 o gopïau yn cael eu gwerthu bob mis, o Aberdaron i Gaernarfon. Os gwelwch yn dda, cysylltwch gyda'r trefnydd hysbysebion i drafod eich hysbyseb cyn ei gyrru. Dyddiad cau: wythnos ar ôl y dyddiad cau uchod.

**Chris Griffiths**



**Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu**

☎ 01248 713369 neu 07813 455653
18 Mill Lodge, Llandegfan,Ynys Môn, LL59 5YB

# Arwyddion Codi Calon




**Gruffudd, Alys, Elin a Wiliam gydag arwyddion Bodnitho**

**Elin Parri, Bodnitho ac Anni Llŷn, Rhos**

> Er maint sydd yn y cwmwl tew
> O law a rhew a rhyndod,
> Fe ddaw eto haul ar fryn
> Nid yw hon ond cawod.
>
> Anhysbys

**Yn** wir, mae hon yn dipyn o gawod: mae hi'n un drom iawn iawn! Yn ystod y dyddiau cyntaf roeddwn i'n ei gweld hi'n anodd canolbwyntio ar ddim byd ond yr holl newyddion drwg a'r ansicrwydd o'n blaenau. Fel llawer, roeddwn yn bryderus iawn ac yn gwylio'r newyddion yn ddiddiwedd gan chwilio am y wybodaeth ddiweddaraf. Ond, hefo tri o blant ifanc adra, a thrwy lwc y tri yn rhy fach i ddeall mawredd y sefyllfa, roedd rhaid diffodd y newyddion, rhoi'r ffôn o'r neilltu a dal i wenu.




**Tudur a Martha gydag arwydd 'Bydd Ddewr' ar ben lôn Rhos**

Felly, dyma fynd ati un prynhawn Sul i beintio arwydd i'w roi ym mhen lôn Bodnitho gyda'r geiriau 'Daw eto haul ar fryn' arno, a theulu Anni yn Rhos Garnfadryn yn gwneud yr un fath gyda'r geiriau 'Bydd ddewr, bydd garedig'. Dwn i'm pwy gafodd y pleser mwyaf wrth beintio a dweud y gwir, y fi neu'r plant. Bwriad yr arwydd oedd codi calon, ac mi wnaeth hynny yma y pnawn Sul hwnnw. Gobeithio ei fod yn gwneud yr un fath i bawb sy'n mynd heibio, yn enwedig i'r gweithwyr allweddol – mae ein dyled iddynt yn enfawr!

Braf iawn yw gweld bod cymaint o arwyddion codi calon wedi eu creu erbyn hyn a phob un yn codi gwên, yn dangos gwerthfawrogiad neu yn ein hatgoffa y daw eto haul ar fryn – pwy a ŵyr pryd, a phwy a ŵyr sut gyflwr fydd ar yr hen fryn erbyn hynny, ond mi ddaw.

**Elin**

**Fel** Elin, ac fel pawb arall, roedd yr wythnosau cyntaf yn un smonach o bryder, ansicrwydd a thrio dal ati i ninnau. Roedd yna ryw is-deimlad o banig. Be i'w wneud? Sut i helpu? Felly, pan soniodd Elin am yr arwyddion, ro'n i'n meddwl ei fod yn syniad campus. Rhywbeth i ganolbwyntio arno am brynhawn. Roeddan ni'n dwy yn awyddus i eraill wneud yr un fath hefyd. Felly dyma benderfynu creu grŵp ar Facebook i rannu'r lluniau ac i annog eraill gan obeithio y byddai'n codi calonnau.

Tyfodd y grŵp Facebook yn sydyn a bu pobol yn rhannu lluniau o'u harwyddion. Rhai wedi gwneud eisoes ac eraill wedi eu hysbrydoli gan y grŵp. Lluniau amrywiol, a phobol o bob rhan o Gymru'n rhannu. Bellach, mae 'na dros ddwy fil a hanner o aelodau yn y grŵp ac mae 'na arwyddion gwirioneddol wych wedi ymddangos. Mae pob math o syniadau codi calon amrywiol wedi eu rhannu yno hefyd. Ambell un wedi addurno cerrig a chregyn a'u gosod ar ben lôn i bobol eu casglu wrth fynd heibio. Eraill wedi ysgrifennu negeseuon at y bobol sy'n casglu'r biniau a'r Person Post; rhai wedi addurno ffenestri ac eraill yn rhannu lluniau o fyd natur i godi calon. Mae 'na artistiaid fel Carys Bryn wedi cyfrannu eu gweithiau celf a thaflenni ar gyfer eu hargraffu a'u lliwio hefyd. Diolch o galon iddynt. Mae'r cyfan yn rhoi pleser pur gyda negeseuon amrywiol fel: "Ar wahân ond gyda'n gilydd!" "Diolch o galon!" "Bydd hapus!" "Helo o tŷ ni i tŷ chi!" a'r hen ffefryn "Daw eto haul ar fryn!"



**Anni, Martha ac Eigra yn y goets**

Mae edrych drwy'r lluniau ar y grŵp Facebook yn brofiad braf iawn. Ond y pleser mwyaf i mi, Tudur, Martha ac Eigra yw gweld arwyddion wrth i ni fynd am ein tro dyddiol. Mae 'na rai lliwgar, bendigedig yn ardal Garn a Llaniestyn – ac maen nhw wir yn codi calon.

Dim ond cyfraniad bychan yng nghanol y dwndwr mawr i ddangos ein bod ni'n gwerthfawrogi'r hyn y mae'r bobol sy'n dal ati i weithio, er ein mwyn ni i gyd, yn ei wneud. Ond hefyd, i ddangos ein bod ni'n meddwl amdanoch chi i gyd, pawb sydd adra, pawb yn mynd drwy'r storm ar wahân ond gyda'n gilydd. Gobeithio eich bod i gyd yn gwenu wrth weld yr Arwyddion Codi Calon.

**Anni**

**Mae'n amlwg bod syniad Elin ac Anni wedi cydio oherwydd mae arwyddion tebyg i'w gweld ym mhob man erbyn hyn. Mae lluniau gan Dafydd Iocws o rai ohonyn nhw i'w gweld yma ac acw drwy'r Llanw.**

# TUDALEN Y PLANT

Shw'mai a su'mai?!

Anni a Tudur sydd yma. Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n brysur, iach a diogel! Dw i'n siŵr eich bod i gyd yn cael tipyn o sbort adra efo'r teulu! Ond mae hi'n gallu bod yn anodd peidio â chael mynd i nunlla na gweld neb, yn tydi? Mae pawb yn ei gweld hi'n anodd weithia cofiwch, a phawb yn cael diwrnod pan maen nhw wedi cael llond bol a ddim yn teimlo yn eu hwylia. Felly, peidiwch â phoeni os ydach chi'n teimlo'n ddiflas ambell ddiwrnod. Ond gobeithio y gwneith Tudalen y Plant Llanw Llŷn eich helpu chi i gael hwyl! Heddiw, rydan ni wedi penderfynu creu pencampwriaeth i chi a'ch teulu. Gellwch greu timau neu gystadlu fel unigolion. 10 camp! Cadwch y sgôr drwy roi 3 phwynt i'r cyntaf, 2 i'r ail ac 1 i'r trydydd ym mhob camp! Pob lwc!

## PENCAMPAU TŶ CHI!

**1. CLAP A PHÊL!**
Taflu pêl (neu unrhyw beth tebyg!) a chlapio cymaint o weithiau ag sy'n bosib cyn ei dal eto! Pwy bynnag sy'n clapio'r nifer mwyaf o weithiau sy'n ennill!

**2. RAS YR YSTAFELLOEDD**
Amserwch bawb yn eu tro yn casglu un peth o bob ystafell yn y tŷ. Yr amser cyflymaf sy'n ennill.

**3. RAS TYNNU LLUN HEB EDRYCH**
Gwisgo mwgwd o ryw fath dros eich llygaid a thynnu llun o wyneb. Rhaid cael llygaid, trwyn a cheg o fewn yr wyneb, clustiau yn y lle cywir a gwallt. Yr un sy'n gorffen yr wyneb taclusaf, gyntaf, sy'n ennill.

**4. ADEILADU**
Defnyddiwch unrhyw beth addas i adeiladu tŵr. Pwy sy'n gallu adeiladu'r tŵr uchaf mewn 30 eiliad?

**5. O'R SOFFA**
Dewiswch bethau hawdd a diogel i'w casglu o'r gegin (ond peidiwch â'u casglu eto!) ac ysgrifennwch eu henwau ar ddarnau o bapur a'u rhoi mewn het. Dewiswch un yr un. Yna, ras i'w casglu! Ond rhaid cychwyn a gorffen y ras ar y soffa.

**6. PASTA YN Y SOSBAN**
Gosod sosban rhyw bellter penodol oddi wrthoch chi a cheisio taflu pasta i mewn iddi. Penderfynwch sawl tro y mae pawb yn ei gael a chadwch y sgôr!

**7. RAS GWISGO**
Paratowch bentwr cyfartal o ddillad i bob cystadleuydd. Pwy sy'n gallu gwisgo'r cyfan gyflymaf?

**8. DRINGO EFO DŴR**
Mae'n rhaid dringo dros ac o dan aelod arall o'r teulu gan gario cwpaned llawn dŵr – gan drio peidio â cholli'r dŵr wrth gwrs!! Does gennych chi ddim hawl i gyffwrdd y person arall ond mi all o neu hi symud i'ch helpu.

**9. GÊM O GUDDIO**
Un yn cuddio ac un arall yn chwilio. Amserwch yr amser chwilio. Yna, newid pwy sy'n chwilio a phwy sy'n cuddio. Yr amser cyflymaf sy'n ennill.

**10. BE SY'N Y BATH?**
Rhowch ddeg peth yn y bath. Mae'r cystadleuydd yn cael 15 eiliad i geisio cofio popeth, yna gadael yr ystafell molchi a cheisio enwi'r deg peth! Rhaid newid y 10 peth ar gyfer pob cystadleuydd.

**Llongyfarchiadau a Phen-blwydd Hapus i Ela Mai Roberts, Efailnewydd!**

Hi wnaeth ennill cystadleuaeth 'Pe bawn i yn awdur' yn y rhifyn dwytha. Mi wnaeth hi greu clawr nofel ddychmygol arbennig! Mae 'na docyn £15 i'w wario yn Llên Llŷn ar ei ffordd iddi. Mae hi hefyd yn dathlu ei phen-blwydd y mis yma yn 9 oed!!

# Dyddiadur Y Daflod dan Warchae

**Mae Anna'r Daflod, Abersoch wedi bod yn cadw dyddiadur ers blynyddoedd ac yma mae hi'n rhannu pigion o'i dyddiadur yn ystod mis Mawrth a mis Ebrill eleni, fel roedd ein bywydau ni'n newid oherwydd coronafeirws:**

**Chwefror 28:** Clywed am ryw afiechyd sydd yn lledaenu drwy'r byd, ond y glaw a'r llifogydd sydd yn fy mhoeni i. Gobeithio bod y criw yn iawn ym Mhontypridd.

**Mawrth 5:** Mynd am dro i Ben Cei. Llawer yn sôn am yr hen aflwydd 'ma a chlywed ella y bydd yn rhaid i ni aros yn y tŷ nes yr eith o heibio. Mi fyddaf wedi mynd o 'ngho!

**Mawrth 6**: Es i'r Bora Panad ac mi ddyfaris am fod gen i boenau yn fy nghefn a fy ysgyfaint. Dw i wedi hen arfer â hyn, ond gobeithio mai dim ond yr haint arferol ydi o!

**Mawrth 10:** Gwaetha fi'n fy nannedd bu raid imi fynd i'r feddygfa. Mi oeddwn yn iawn: haint arall ar y frest. Dw i wedi mendio drwyddaf ar ôl clywed hynny! Mae'n rhaid bod yr holl ruo am y Corona 'ma wedi mynd ar fy meddwl i!

**Mawrth 15:** Ar y newyddion y bora 'ma, sôn y bydd rhaid i bobol dros 70 oed aros yn eu tai am tua thair i bedair wythnos oherwydd yr haint ofnadwy 'ma. Mi ffoniais Dolwar ond chawn i ddim mynd yno i weld y trigolion: mae'n rhaid bod pethau'n ddifrifol.

**Mawrth 16:** Ar ras i'r dre i brynu llyfra o Lên Llŷn a benthyg rhai o'r llyfrgell. Mi fydd 'na hen ddarllen. Gweld sawl un yn hel haldiad o negas. Dydw i ddim wedi meddwl am hynny.

**Mawrth 17**: Ras i'r dre i dorri 'ngwallt a'r lle yn llawn o ferchaid. Mae o'n wir felly: i mewn y byddwn ni!

**Mawrth 18:** Dw i o 'ngho bod 'na gymaint o ymwelwyr yma. Maen nhw fel pryfaid hyd y Rabar ac mae arna i ofn mynd allan. Beth pe tae rhywun wedi tisian yn fama? Galwodd rhyw hogyn ifanc yma. Newydd gael ei ryddhau o'r carchar, medda fo, ac angen arian. Fûm i ddim yn drugarog iawn wrtho fo mae arna i ofn.

**Mawrth 19:** Mae hi fel y bedd yma heno; pawb wedi ei heglu hi am adra – heblaw am ryw dŷ ha' y tu ôl i mi. Mae 'na ddau yno ers tua wythnos … Hen ofn wedi codi arna i wrth edrych ar y sgwâr gwag heno.

**Mawrth 20:** Canslo'r papurau newydd heddiw am imi glywed fod papur yn cadw'r feirws yn hir. Mi ddengis i Langian i roi blodau ar y bedd: blodau coch a lili felan bob un i'r tri.

**Mawrth 21:** Dyma fi, ar y beic sy'n mynd i nunlla. Mi bedlis am hanner awr dda. Ew, mi fyddaf fel styllan bresio!

**Mawrth 22:** Emlyn, fy nghefnder yn Llundain wedi mynd i'w waith fel gyrrwr tacsi y bora 'ma ond heb gael yr un cwsmer. Mae hi'n waeth yn rwla o hyd.

**Mawrth 23:** Teimlo fel un o'r byddigions, neu fel hen ddynes hen a bregus iawn y bora 'ma, pan ddaeth Talafon â neges i mi a'i gadael ar garreg y drws. Mae gen i boster yn y ffenest yn deud nad oes neb i alw. Ella y dylwn wisgo cloch am fy ngwddw fel y gwahanglwyfion!

**Mawrth 24:** Wel wir, dw i wedi'i cholli hi rŵan! Mi rois y biniau allan ddiwrnod cyn eu hamser! Dwn i ddim pa fis, diwrnod nac awr ydi hi! Erbyn hyn dw i'n gadael fy neges am dair awr heb ei chyffwrdd ac yna yn ei diheintio. Mae o fel rhyw salwch ychwanegol, y diheintio 'ma, ac mae 'nwylo fi'n sychion ac yn gochion.

**Mawrth 26**: Wedi bod ar *face time* efo teulu Llundain, a dychryn am fy mywyd o weld y ffasiwn rychau sydd gen i.

**Mawrth 27**: Fel bechdan heddiw a gorfod cymryd pilsan at fy nghefn. Eric Cwmafon wedi'i gipio i Fangor ond doedd dim rhaid iddo fo aros, diolch byth.

**Mawrth 28:** John Eifion wedi'i gipio i Fangor. Pobol yn y tŷ ha' y tu ôl i mi o hyd ond ddim llawer o neb hyd y Rabar a'r un creadur ar y sgwâr ar ôl wyth.

**Mawrth 29:** Ces alwad ffôn o Norwich bora heddiw – hen ffrind ers y '60au. Sôn am siarad! John druan yn yr uned gofal dwys.

**Mawrth 30:** Pnawn difyr yn chwarae cwis efo criw Pontypridd – hen luniau pan oeddem yn ifanc. Clywed bod yr hen fadwch corona 'ma ar John. Lle ar y ddaear y cafodd o hwnnw?



**John Craigafon**

**Mawrth 31:** Mi aeth Mawrth allan yn o lew, nid fel oen ond nid fel llew chwaith. Y ffôn yn wynias drwy'r dydd. Clywed eu bod yn paratoi gwelyau ym Mryn Beryl ar gyfer cleifion y corona. Rhaid bod yn barod debyg a fydd pawb ddim yn marw siawns.

**Ebrill 1:** Dim triciau heddiw. Troi fy llaw at wneud bara brau a rhewi'r cwbwl rhag imi eu bwyta i gyd cyn nos.

**Ebrill 2:** Wedi gwneud cawl moron mi es ati i dacluso drôr y cwpwrdd gwydr. Sôn am lieiniau bwrdd a napcins a'r rheini wedi eu haddurno â llaw. Ella y gwna i de bach i fy ffrindau pan gawn ein gollwng yn rhydd: defnyddio'r llestri a'r llieiniau o'r cwpwrdd gwydr a'r holl fwyd o'r rhewgell.

**Ebrill 3:** Torrwr coed oeddwn i heddiw. Mi ges i goeden clychau sipsiwn gan Morwen ryw dro ac mae hi wedi pydru. Mi ges i foddhad mawr.

**Ebrill 4:** Ar ôl cinio mi fûm yn clirio drorau'r ddesg a chael hyd i hen ddramâu a hen benillion am droeon trwstan. Eistedd am oriau'n eu darllen. E-bostio un neu ddwy at Wyn Talafon am hwyl.

**Ebrill 5:** Sul y Blodau a fedra i ddim mynd i Langian. Cynnau tair cannwyll i gofio am y tri.

**Ebrill 6:** Tynnu gwaith i 'mhen: peintio traed a phen y gwely yn llwyd ffasiynol!! Lleuad mawr clir heno a finna ar fy ngwylia' yn y llofft ffrynt.

**Ebrill 7:** Ail gôt o baent heddiw a rhyw fudur arddio. Sawl sgwrs ar y ffôn efo hwn a'r llall. Ew, mae pobol yn dda ac yn driw. Boris yn yr ysbyty.

**Ebrill 8:** Peintio, darllen, gweu, coginio a gwnïo. Dw i fel taswn i'n byw mewn oes arall!

**Ebrill 9:** Diwrnod du iawn heddiw. John wedi marw ers dau y pnawn.

**Ebrill 10:** Dydd Gwener y Groglith ac mi ges wics i frecwast fel y byddai Mam yn wneud ar y diwrnod hwn. Darllen tan berfeddion.

**Ebrill 11:** Meddwl peintio'r giât ond doedd gen i ddim brws. *C'est la vie!*

**Ebrill 12:** Sul y Pasg. Gwrando ar y radio am oriau. Teimlo'n ddigon hiraethus am bawb a phopeth heno.

**Ebrill:13:** Nifer y marwolaethau'n disgyn yn Llundain ond yn codi mewn llefydd eraill. Codi braw arna i, wir. Bron na ddywedwn i fod arna i ofn i'r ynysu 'ma ddwad i ben rhag ofn i heidia' o bobol dyrru yma. Dwn i ddim sut af i allan i gymdeithasu eto, wir.

**Ebrill 14:** Mwy o farwolaethau eto. Dw i ddim yn gwrando ar y newyddion, ddim ond unwaith y dydd rŵan. Maen nhw'n fy mwydro i'n lân.

**Ebrill 15:** Braf ond oer. 'Haul gwanwyn, gwenwyn'. Meddwl am gael gwared ar ddillad heddiw ond bwndel bach iawn fydd yn mynd i'r siop elusen – rhag ofn y dôn nhw i mewn yn handi eto pan fydda i wedi colli pwysa'. Hwyr yn clwydo eto heno.

**Ebrill 16:** Llyfr newydd eto a'i ddarllen o yn fy ngwely. Mae'n siŵr fod pobol Rabar yn meddwl 'mod i'n ddiog tu hwnt. Dotio at negeseuon Dafydd Davies Hughes ar y gwep lyfr.

**Ebrill 17:** John Eifion yn gwneud ei daith olaf rownd y Rabar, druan. Es i i lawr at y giât erbyn un o'r gloch ac roedd pobol ymhobman: pawb ar wahân ond efo'i gilydd yn ffarwelio â ffrind. Diwrnod trist iawn i'r gymdogaeth.

**Ebrill 18:** Cacen lemon a chacen fanana oedd hi heddiw. Does 'na fawr o le ar ôl yn y rhewgell rŵan. Mi fydd rhaid i mi ddechrau eu bwyta.

**Ebrill 19:** Dydd Sul heddiw. Gwrando ar Cen Llwyd ar y radio. Pregeth am adeiladu ar y graig. Dw i'n meddwl o ddifri beth ydan ni wedi'i wneud i'r byd 'ma. Mae yna lawer o bethau yn y Beibl sydd yn canu cloch; mi rybuddiodd Obama y byddai haint yn dod ac mae Greta Thunberg wedi'n rhybuddio am yr holl ddifrod rydan ni'n ei wneud i'r byd – ac eto dw i'n gweld a chlywed mwy am yr economi nac am fywydau.

**Ebrill 20:** Dim trydan y bore 'ma – sôn am banic, a dyma fi'n meddwl: duwcs, doedd ganddon ni ddim trydan ers talwm; lampau oel, canhwyllau a thân glo oedd hi. Wedyn gola' gas. Ond beth tasa bob dim yn cau i lawr … trydan a phopeth? Cyn imi wallgofi mi ddaeth yn ôl.

**Ebrill 21:** Cinio yn yr haul fel fisitor. Ond rhad ras, dyma gysgod mawr uwch fy mhen a chlamp o wylan wen, wen yn gollwng ei charthion ar fy mrechdan! Mae'n siŵr ei bod yn llwgu heb na siop jips na chaffi yn agored.

**Ebrill 22:** Gweld pobol yn ciwio i fynd i mewn fesul un i Dalafon. Hynny'n f'atgoffa i o'r adeg yr aeth Kathleen a fi i Milan a gorfod ciwio o flaen siop Dior. Isio mynd i sbaena oeddan ni ond roedd y drws wedi'i gloi. 'Tyd o'ma,' medda hi, 'mae'n rhaid eu bod nhw'n gweld golwg dlodaidd arnon ni.'

**Ebrill 23**: Dw i'n dechra'i cholli hi dw i'n siŵr. Wrth eistedd wrth fwrdd y gegin ac edrych am Dalafon dw i'n cyfrif chwareli'r ffenestri bob tro: 44 chwarel sydd 'na. WAAA!!

**Ebrill 24:** Mae gen i wal wen yn y cefn a darn mawr coch arni hi'n barod. Mae o'n wynebu tŷ haf. Cael pleser mawr o ysgrifennu 'Cofiwch Dryweryn' ar y darn coch. Chwynnu'r tu blaen heddiw a chael sgwrs o bell efo Wendy drws nesa.

**Ebrill 25:** Fel brechdan heddiw. Methu gwneud dim ond eistedd yn yr haul. Mae'n siŵr bod bod ar fy mhen fy hun a bod wrthi o fore gwyn tan nos yn deud ar rywun.

**Ebrill 26:** Gwneud sgons y bora 'ma. Daeth y wylan heibio eto. Dw i wedi'i galw hi'n Gwendolin ar ôl rhyw ddynes gwallt gwyn a thrwyn hir o Bontypridd. Dechrau sgwennu hanes Mam heno: stori ddiddorol iawn.

**Ebrill 27:** Methu aros am gael sgwennu ond dydi'r we ddim yn gweithio yma. Hy! beth oeddwn i'n wneud ers talwm?!!

**Ebeill 28:** Cyn dechrau ar ddim heddiw mi es i draforio yn y llyfr achau. Doeddwn i ddim yn cofio 'mod i'n perthyn i deuluoedd o Aberdaron i Bontypridd. Fy mhen yn troi. Mi fydd 'na hen freuddwydio heno!

**Ebrill 29:** Sgwennu drwy'r dydd a mwynhau fy hun yn arw. Hwrê: dw i am gael fy ailgysylltu â'r we, ond nid am wythnos arall. Awê wedyn!

# Apêl Efailnewydd/Penrhos ar gyfer Eisteddfod 2022

**G**yda thristwch y daeth y cadarnhad fod yr Eisteddfod yn Nhregaron wedi ei gohirio am flwyddyn; ond golyga hyn fod ganddom fwy o amser i gasglu arian a threfnu Eisteddfod wych ym Moduan ymhen dwy flynedd.

Rydym eisioes wedi cynnal dwy noson i godi arian - y gyntaf ohonynt yn noson bingo dan ofal Elfed Morgan, yn y Clwb Rygbi yn Efailnewydd. Roedd y lle yn orlawn a bu’n noson lwyddiannus iawn gydag elw o £495.

Roedd yr ail noson, sef nos Wener, Mawrth 13, yn wlyb a diflas dros ben am fwy nac un rheswm ond cafwyd dwyawr ddifyr a hwyliog oedd ychydig yn wahanol i’r arfer. Trefnwyd dangosiad arbennig o’r ffilm eiconig ‘Grand Slam’ ar sgrîn fawr y Clwb Chwaraeon a chawsom y fraint o gwmni Dewi Pws, oedd yn serennu yn y ffilm a saethwyd yn 1977. Am hanner awr bu’n rhannu ei brofiadau ac atgofion yn ddifyr a doniol iawn. Talodd deyrnged i awdur y sgript, Gwenlyn Parry, ac i ddawn John Hefin, y cynhyrchydd. Soniodd am ei gyd-actorion, yr hwyl a’r miri gafwyd wrth ffilmio yng Nghaerdydd a Pharis a’r cyfeillgarwch ddatblygodd rhyngddo a‘r actor rhyngwladol enwog, Hugh Griffith, oedd yn chwarae rhan Lloyd-Evans, y tad. Ffilm ei chyfnod yn sicr ond yn gronicl hynod ddifyr o’r petha hilêr yna all ddigwydd ar dripiau rygbi! Casglwyd £480 ar y noson.

Yn ogystal â hyn, mae Mrs Ann Thomas wedi gwerthu dyddiadur cyfan gyda thri enillydd lwcus sef Steven Roberts, Morfa Nefyn, cyntaf, Wil Jones, Goetre yn ail ac Alun Thomas, Efailnewydd yn drydydd. Llwyddwyd i gasglu £300 drwy’r gweithgaredd.

## Penrhos

Fel ym mhob cymuned, mae pethau wedi dod i stop ym Mhenrhos ers yr argyfwng *Covid-19*. Gobeithiaf yn arw eich bod chi’n cadw’n iach ac yn saff.

**Eisteddfod Genedlaethol 2021, gohiriedig** – Yn anffodus ni fydd yr Eisteddfod ym Moduan am flwyddyn arall, ond fe fydd pawb yn falch o gael dod at ei gilydd i ddechrau ar y trefnu unwaith eto wedi’r argyfwng.

Gweler hanes gweithgareddau codi arian Pwyllgor Apêl Penrhos ag Efailnewydd hyd yma, fel adroddiad ar wahan.

**Capel Bethel** - Does dim gwasanaethau wedi bod yn y capel ers yr argyfwng *Covid-19* ac mae chwith garw hebddynt.

**Pen-blwydd arbennig** – Dymuniadau da i Elain Wyn, Argoed ar ei phen-blwydd yn 30 oed. Gobeithio y ceith hi fwynhau’r dathlu!

*(Cysylltydd - Ffion Bryn, 1 Llain Delyn, Penrhos. Ffôn: 07528993997)*

## Efailnewydd

Gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n saff ac yn cadw at reolau'r locdown, er mor anodd yw hynny ar adegau!

**Profedigaethau -** Cydymdeimlwn â theulu Gefail y Bont yn eu colled; bu farw Mrs Nellie Thomas yn ddiweddar.

Hefyd cydymdeimlwn â Mrs Iola Jones, Talgoed a'r teulu ar farwolaeth chwaer Iola, sef Mrs Catherine Naden.

**Brysiwch wella -** Da deall fod Sulwen Jones, Lliwedd wedi mendio a phob dymuniad da i bawb arall o'r pentref sydd yn cwyno.

**Dathlu -** Cafodd Irene Larkey, Eirianedd, ben-blwydd arbennig ddiwedd mis Mawrth a chyfle i ddathlu gyda'r teulu cyn y cyfyngiadau. Dwi'n siwr bydd yna fwy o ddathlu pan fydd hi'n saff i wneud hynny.

**Genedigaeth -** Llongyfarchiadau mawr i Llyr ac Emma, Bryn Llan, ar enedigaeth eu mab bach, Dyfan.

**Clwb Plant -** Mae Nia wedi bod yn rhoi gwaith i'r genethod drwy greu pecynnau ac maent yn mwynhau cwblhau'r tasgau. Deallaf eu bod hefyd wedi cael sesiwn arbennig dros y we ar ffurf galwad fideo. Diolch Nia.

**Capel -** Cafwyd gwasanaeth gwahanol gan Bryn ddydd Sul y Pasg pan fu iddo fo a Nia bostio'r bregeth allan i ofalaeth Pwllheli i gyd, - diolch yn fawr i chi eich dau am hyn. Cefais i hanner awr fach ddistaw yn darllen drwy'r bregeth a’r emynau a gweddïo yn y capel.


**Merched y Wawr -** Mae ein gweithgareddau am y tymor hwn wedi eu gohirio. Gobeithiwn gael cwmni'r gwesteion pan fydd hi'n saff ailgychwyn. Mae Mrs Jean Williams a'r swyddogion yn anfon eu cofion at yr aelodau.

**Eisteddfod Genedlaethol 2021, gohiriedig -** Gweler adroddiad o weithgareddau codi arian Pwyllgor Apêl Efailnewydd/Penrhos hyd yma, fel eitem ar wahan.

*(Cysylltydd: Glesni Jones, Tŷ Capel, Efailnewydd Ffôn: 612707)*


Siop Blodau Eleri
Blodau at bob achlysur
*Arbenigo mewn Blodau Priodas*
34 Stryd Fawr, Cricieth
www.blodaueleri.co.uk
01766 522626



Finn Louie

*Clustogwaith*
*Gwnïo*
*Dylunio tu mewn i’r cartref*
07498035541
*Gernant, Llanbedrog, Gwynedd*
*LL53 7NU*
finnandlouie@hotmail.com
www.finnandlouiehome.com


## Edern

**Deunawfed** - Llongyfarchiadau i Poppy, Bwthyn Côf ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

**Genedigaethau** - Llongyfarchiadau i Jack a Gemma, Madryn ar enedigaeth hogan fach, Keeva, ddiwedd Chwefror ac i Patsy a Julie ar ddod yn daid a nain unwaith eto.

Llongyfarchiadau hefyd i Stephen ac Elen, Hendre ar enedigaeth Now Glyn ddechrau mis Mawrth. Gobeithio bydd Elen, Nanw a Now yn cael dychwelyd i Edern yn fuan o Fachynlleth a llongyfarchiadau i Beryl, Tŷ Newydd ar ddod yn nain unwaith eto.

Daeth hogyn bach i Bwll Clai ym mis Mawrth hefyd sef Huw Siôn. Llongyfarchiadau i Aled a Ceira ac hefyd i Erick a Sarah ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf.

**Adref** - Gwellhad buan i Ted Morgan, Tŷ Pellaf. Rydym yn falch dy fod adref o’r ysbyty.

**Colledion** - Bu sawl colled yn yr ardal yn ddiweddar. Bu farw Roger Scott yn ei gartref, Henfaes, dim ond saith wythnos ar ôl ei briod, Helen. Cydymdeimlwn â Selwyn a’r teulu ym Morfa Nefyn a Sian ym Mhwllheli, ei fab a merch, John a’r teulu yng Nghaer Odyn a Peter a’r teulu yn Hafoty, ei ddau frawd.

Cydymdeimlwn hefyd â Rowena a’r teulu yn Trefan ar farwolaeth ei mam y mis diwethaf, Mrs Iris Griffith, Nefyn.

Ein cydymdeimlad hefyd â theulu Bwthyn Côf ar farwolaeth eu nain, Mrs Rhiannon Bentley, Nefyn.

Drwg gennyf fy mod heb gydymdeimlo â Gareth Hughes, Tŷ Bevar ar farwolaeth ei fam ar ddechrau’r flwyddyn.

Daeth newyddion trist hefyd am Hefin Williams, Ty’n Llwyn gynt, a’i wraig Valerie. Bu’r ddau farw o fewn ychdig i’w gilydd mewn ysbyty yn Warrington lle’r oeddynt yn byw. Byddent yn ymweld â’r ardal yn aml. Cydymdeimlwn â‘r teulu i gyd yn eu profedigaeth.

**Blodau ac enfysau** - Mae’r potiau blodau o gwmpas yn pentref yn edrych yn fendigedig, diolch i ddisgyblion yr ysgol am eu plannu yn yr hydref. Maent yn codi calon pawb yn y cyfnod dyrys yma sydd ohoni.

Mae’n dda hefyd gweld y lluniau lliwgar o enfysau sydd mewn amryw o ffenesrti, - pawb wedi bod yn brysur. Daliwch ati.

**Cymorth** - Os oes unrhyw un angen cymorth efo unrhyw beth yn ystod y cyfnod yma yna cysylltwch efo fi, mae gennyf nifer o enwau rhai sydd yn fodlon helpu.

**Cadwch yn saff** i gyd, drigolion Edern, ac ym mhob man arall.

*(Cysylltydd: Mai Scott, Hafoty, Edern, 720 846 e-bost: maiscott@live.co.uk)*



**Edern – ‘Daw Eto Haul ar fryn’**

Llun: Dafydd Iocws

# Tlws Einion

**Mae Tlws Einion yn cael ei roi am yr erthygl orau a gyhoeddwyd yn Llanw Llŷn yn ystod y flwyddyn ym marn beirniad, a hynny er cof am Einion Saethon a'i gyfraniad arbennig i'r Llanw. Y beirniad am y cyfnod Medi 2018 – Gorffennaf 2019 oedd Iestyn Tyne a dyma oedd ganddo i'w ddweud:**

**Ers** symud i fro arall, papur bro misol gwahanol fydd yn cyrraedd y tŷ, ac felly roedd hi'n braf iawn cael esgus da i ymgolli yn hynt a helynt pobl Llŷn unwaith eto wrth fwrw ati i feirniadu cystadleuaeth Tlws Einion ar gyfer 2018-19.

Mi ges i fodd i fyw yng nghwmni holl awduron difyr ac amrywiol Llanw Llŷn – o'r creadigol i'r newyddiadurol a'r newyddiadura creadigol, o'r marwnadau i'r dathliadau a'r marwnadu dathliadol, ac o'r dwys ddifrifol i'r cwbl abswrd.

Mi liciwn i bwysleisio bod yna elfen o chwaeth yr unigolyn yn rhan o bob beirniadaeth, a bod yna lawer iawn o gyfraniadau eithriadol o ddifyr nad ydyn nhw wedi cyrraedd fy rhestr fer bersonol i. Fe wnes i fynd yn ôl fy ngreddf a dewis y darnau hynny oedd fel tasen nhw'n neidio o'r dudalen ac yn fy nharo ar fy nhalcen.

Roedd chwe darn y bûm i'n eu hystyried ar gyfer y tlws:

Roedd teyrnged Alun Jones i Olwen, **Dynas yr iard lechi**, yn rhifyn Chwefror 2019 yn cyffwrdd rhywun i'r byw – yn deyrnged na allai neb ond Alun fod wedi ei sgwennu, ag yntau'n 'gymydog siop' iddi am flynyddoedd lawer. Dyma'r math o sgwennu y byddai unrhyw un yn falch o'i gael i'w goffáu.

Uchafbwynt arall oedd cyfres o gerddi ysgafn gan Jôs Giatgoch, a ymddangosodd dros gyfnod o rai misoedd yng ngholofn Llên y Llanw. Y ffefryn efallai oedd **Yr Eira Mawr**, hanes Nel a Bruce a'r mŵs!

Fe wnaeth Arthur Eifion Hughes gryn argraff arnaf wrth gyfleu cyffro ei ddiwrnod yn toboganio yng nghwmni ei daid yn rhifyn Medi 2018, mewn stori oedd yn fuddugol yn Eisteddfod Ysgol Edern, **Diwrnod i'w Gofio – Tobogans Taid**. Mae o'n storïwr naturiol, craff, a chyda gobaith, yn enw y clywn ni fwy amdano yn y dyfodol.

'Annwyl ddarllenydd – dw i isio'ch dychryn chi!' yw brawddeg agoriadol colofn **YnNiLlŷn** gan Wil Parry yn rhifyn Mehefin 2019. Ac am y rheswm ei fod yn llwyddo i wneud hynny, mae'r darn trawiadol yma yn cyrraedd fy rhestr fer. Mae angen mwy o ysgrifennu gonest am newid hinsawdd, a dyma ddarn sy'n llwyr argyhoeddi bod angen gweithredu cyn iddi fynd yn rhy hwyr. 'Dydi hi ddim yn ddiwedd y byd,' meddai'r awdur, 'ond mae'n ddiwedd y byd fel y gwyddom ni amdano.'

Olwen Williams wedyn, yng ngholofn Lloffion Llŷn rhifyn Gorffennaf 2019, yn rhoi telyneg mewn rhyddiaith i ni gyda **Pwy oedd hi?**. Does dim mwy yma na phrofiad sydyn, cip ar fywyd rhywun arall trwy ffenest car, a myfyrdod ar hynny. Cryfder y darn yw nad oes unrhyw or-athronyddu ynghylch y profiad, dim ond disgrifio cymen a hyderus, ambell gwestiwn ar hyd y ffordd, a llinellau clo sy'n cyfleu bywyd yn llithro yn ei flaen, ond bywyd sydd y mymryn lleia'n wahanol i'r hyn fuodd o o'r blaen:

'Daeth y bws, cododd ei bag olwynion a diflannu i mewn iddo, a diflannu oddi ar lwyfan fy mywyd innau, ond roedd hi wedi bod yno, am funudau nad anghofiaf i.'

Gwych iawn.




**Tlws Einion eleni, wedi ei greu gan Hafwen Dorkins**

Ymddangosodd **Cân yr Eos**, stori ffantasi fer gan Llŷr Titus, dros ddau rifyn yn Ebrill a Mai 2019. Un olygfa rhwng dau berson yw hyd a lled yr hanes, lle gwelwn ferch o'r enw Megan yn ymweld â mediwm a elwir yn Mr Eos, mewn ymgais i gyfathrebu â Simon, ei chariad a fu farw ar faes cad. Mae'r awdur yn gwneud ei fyd *steampunk* yn gredadwy o'r cychwyn cyntaf, trwy gyfeirio'n gynnil at ei gyd-destun ehangach – y protestwyr, y sloganau, y Rhyfel nas enwir. Mae'n ddisgrifiwr tan gamp hefyd, yn sylwi ar y pethau bychain arwyddocaol, fel y ddau damaid o garped yn dod yn ôl atynt eu hunain wedi i Mr Eos sefyll yn ei unfan. Mae hon hefyd, o ddiystyru'r byd y mae'r awdur wedi ei greu, yn stori oesol am alar a chariad, a phoen y frwydr i ddygymod â cholled. Ceir diweddglo arswydus, cofiadwy.

**Pwy oedd hi?**' a **Cân yr Eos** sy'n gwthio i'r blaen yn y ras hon; dau ddarn cwbl wahanol ar un ystyr, ond dau ddarn gan awduron hyderus sydd â dawn i gonsurio golygfa mewn geiriau. Am ei gwreiddioldeb, dyfarnaf Dlws Einion i Llŷr Titus am **Cân yr Eos**, gyda chanmoliaeth fawr i **Pwy oedd hi?** gan Olwen Williams ac yn wir, i bawb sy'n cyfrannu at y cyfoeth o sgwennu da sydd rhwng cloriau'r Llanw bob mis. Llongyfarchiadau.

**Iestyn Tyne**

Gwasanaeth Boiler
Cynnal a Chadw Boileri Olew

OFTEC

Technegydd Cofrestredig OFTEC
S. W. FITZPATRICK
Swfitzpatrick68@gmail.com
07881930230

Beics Berno



Beics braf o'r Iseldiroedd
cyfforddus iawn - ansawdd ardderchog
yn ddelfrydol i grwydro lonydd Llŷn ac Eifionydd

ffoniwch cyn galw ogdd
cyfleusterau golchi dwylo
digon o le i gadw pellter

Berno Brosschot, Trefaes Bach, Sarn
01758 730542 / 07929 769033
www.facebook.com/beicsberno

# Llithfaen

**Yn amlwg**, nid oes newyddion cymdeithaol y mis hwn gan nad oes neb wedi gallu cyfarfod yn ystod y cyfnod anodd yma ddaeth ar ein pennau yn ddisymwth oherwydd *Covid 19*. Diolch i'r aelodau o'n cymuned am ymddwyn mor gall yn ystod y cyfyngiadau yma gan ymuno yn yr ymdrech i amddiffyn y rhai mwy bregus a chadw'r haint rhag ymledu yma. Yr ydym hefyd fel pentrefwyr yn gwerthfawrogi ymdrechion anhunanol y gweithwyr allweddol o'r ardal sydd yn cadw gwasanaethau hanfodol i fynd yn enwedig yn y maes iechyd.
Rydan ni hefyd yn falch mai'r unig ddieithriaid sydd wedi ymgartrefu yn y pentref yw'r geifr gwyllt! Fyddan nhw ddim yn dreth ar ein Gwasanaeth Iechyd.



**Oes 'na bobl?**

Ar nodyn ysgafnach, diolch i'r plant am addurno ffensys, y Fic, y siop a'r Ganolfan efo'u lluniau codi calon.
Os ydach chi'n hoffi canu ac amser ar eich dwylo, beth am ganu efo côr rhithwir 'Cerddwn Trwy'r Tywyllwch' sydd yn canu geiriau Ifan Erwyn Pleming o'r pentref i godi ysbryd yn ystod y cyfnod yma.

Mae'r dref i gyd yn ddistaw
Dim smic – does dim i'w wneud
Mae bwrlwm ddoe yn angof
Heb wybod beth i'w ddweud.
Daeth ofn i grwydro'n bröydd
Fel hebog yno fry
Heb rybudd ond ei gysgod tywyll du.


***'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'***

Ewyllysiau Cymraeg gan

Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar **ruthcjones25@aol.com**

(Aelod o Gymdeithas Ysgrifennwyr Ewyllysiau)


Mae blodau cynta'n hafau
Yn egin yn y tir.
A daw deunod y gwcw
I ganu – daw cyn hir.
Daw'r banadl i glecian
Ymysg yr eithin tlws,
A'r wennol eto'i nythu ger y drws.

Rhown law i helpu eraill,
I gynnal braich y gwan,
Anghofio hunanoldeb
A phawb yn gwneud ei ran.
Try'r carchar yma'n gyfle
I ymladd ofn a braw,
A'n dysgu ni i ddawnsio yn y glaw.

Cytgan:
Er bod heno'n noson dywyll,
Gafael yn dynn yn fy llaw.
Fe gerddwn trwy'r tywyllwch,
Mae sicrwydd y wawr gerllaw.
https://cerddwntrwyrtywyllwch.cymru/
(Dyddiad Cau: 17 Mai)

**Siop Pen y Groes** - Mae Siop Gymunedol Pen y Groes yn agored fel arfer i arbed teithio di-anghenraid ond mae'r oriau agor wedi newid rhyw ychydig.
Bydd yn agored ar ddyddiau Llun a Gwener o 8 ybore hyd 6 yr hwyr; ar ddydd Iau o 8 i 12 ac o 3 i 6; dyddiau Mawrth, Mercher, Sadwrn a Sul o 8 i 12 yn unig.
Gellir archebu bara, peis, croissants a.y.y.b. yn ogystal â bara Glanrhyd, papur, cylchgronau a llefrith yn ddyddiol. Bydd angen archebion Oinc Oink (sosej, bacwn, byrgyrs, *chops*) ar ddydd Mawrth ar gyfer eu cael o'r siop ar ddydd Iau, archebu ffrwythau a llysiau erbyn 6 o'r gloch nos Iau ar gyfer eu cael o'r siop ddydd Gwener ac archebion pysgod o Pysgod Llŷn erbyn nos Fercher ar gyfer eu cael o'r siop ar ddydd Gwener. Cofiwch hefyd y gallwn ddanfon nwyddau i'ch cartref os ydach chi yn hunan-ynysu.
*(Cysylltydd:Sianelen Pleming, Bwlch y Mynydd, Llithfaen Ffôn: 750462)*

# Bwlchtocyn

**Arferiad buan** i Beryl Roberts, Awel y Môr, sydd yn dal yn yr ysbyty.
*(Cysylltydd: )*

# Tudweiliog

**Penblwyddi arbennig** – Pen-bwydd hapus i ddau frawd yn Rhoslan, Ilan yn cael ei unfed ar hugain, a Deio yn ddeunaw. Gobeithio ichi fwynhau y dathliadau ar waethaf yr hunan-ynysu.
**Genedigaeth** - Llongyferchir Gwyneth Jones, Fflat 1 Derlwyn, ar ddod yn hen-nain i Enlli Glyn.
**Carreg filltir** - Mae Edwin a Siwsan, Cwr Coed, wedi dathlu eu priodas ruddem. Llongyfarchiadau mawr a dymunir llawer blwyddyn ddedwydd arall i chi hefo'ch gilydd.
**Profedigaethau** - Cydymdeimlwn ag Anne Williams, Cae Capel, yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer Megan o Ffordd y Maer, Pwllheli.
Cydymdeimlwn hefyd ag Anne Williams, Perthi, hithau wedi colli ei chwaer-yng-nghyfraith, Iorwen yn Llanengan.
**Y Post** - Gan fod Jane yn ymddeol o'r Post ar ôl 30 mlynedd penderfynodd yr ardalwyr dalu teyrnged iddi hi ac Angharad oedd yn gweithio yno, drwy gasglu arian. Penderfynwyd gwneud noson o gyflwyniad fel sypreis iddynt yn y Lion. Ond oherwydd yr amgylchiadau presennol bu'n rhaid newid y trefniadau. Aeth Siwsan, Cwr Coed, i gartrefi y ddwy ohonynt i'w cyflwyno. Derbyniodd Jane dusw o flodau a rhodd ariannol sylweddol iawn. Cafodd hefyd lun o'r Post wedi ei beintio ar garreg gan Angharad sydd yn gynorthwywraig yn yr ysgol. Wrth gyflwyno yr anrhegion, cyflwynodd Siwsan hefyd gerdyn wedi ei wneud gan Gwenan Dolwen ac enwau pawb oedd wedi cyfrannu arno. Derbyniodd Angharad gadwyn a chlustdlysau arbennig, tusw o flodau a charreg a llun y pentref arni. Diolch yn fawr i'r ddwy am eu cyfraniad i'r pentref a'r ardal.



**Wyrion y ddeuawd gwlad John ac Alun yn dangos Disg Aur gafodd eu dau daid am werthiant Y Chwarelwr i'w cyd-ddisgyblion yn Ysgol Tudweiliog. O'r chwith: Sionyn a Seren Jackson (wyrion John), Gethin, Jack a Lois (wyrion Alun).**
Llun: Dewi Wyn

**Siopwraig newydd** - Braf iawn yw cael dweud bod Alison Brady wedi cymeryd y Post drosodd (y siop) ac wedi achub ein hardal. Dymunir yn dda iawn iddi yn y gwaith. Mae hi wedi gwneud ei marc yn barod drwy gymeryd diddordeb yn y cwsmeriaid a gwneud ei gorau i gael beth bynnag y mae pawb ei angen. Mae hi'n ddyddiau anodd arni gyda'r cyfyngiadau, ond gobeithio y bydd pawb yn cofio wedi i bopeth fynd drosodd mor hwylus oedd y Post ac y byddant yn dal i'w chefnogi. Pob hwyl, Alison.
**Gwerthfawrogiad -** Dros y ffordd i'r Post y mae calon wedi ei gwneud o bren a lliwiau'r enfys arni yn dangos gwerthfawrogiad o'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus gan Gwenan Dolwen. Mae hi hefyd wedi peintio enfys ar wahanol gerrig ac wedi eu gadael yma ac acw hyd y pentref.
**Cadwch yn saff** i gyd yn yr amser anodd yma a mi fydd yn braf cael gweld ein gilydd eto wedi i hyn fynd drosodd.
*(Cysylltydd: Y Parch. Olwen Williams, Tŷ'n Rhos. Ffôn: 770 248)*




**Bryn Cynan – Un o ganfasau yr artist Carys Bryn: 'Byddwch Hwyliog'**
Llun: Dafydd Iocws

# Dihangfa Mewn Darllen


**Wel, fedrwn ni ddim crwydro'n bell iawn o'n cartrefi y dyddiau hyn, ond yng nghwmni llyfr da mae'n bosib teithio i unrhyw le ac i unrhyw amser. Dyma Mared Llywelyn i roi rhai syniadau i chi:**

**Tybed** ydi pawb bellach wedi mynd drwy bob un llyfr ar y silff lyfrau, ac yn chwilio am awgrymiadau am lyfrau newydd? Tra bo'r dyddiadur yn sylweddol wacach na'r arfer, dyma'r amser i ymgolli'n llwyr mewn llyfr da. Er bod y llyfrgell wedi cau, cofiwch fod modd benthyg llyfrau a chylchgronau oddi ar wefan Llyfrgell Gwynedd drwy'r app Borrowbox. Mae siopau llyfrau yn cynnig gwasanaeth drwy'r post hefyd a Llên Llŷn yn eu mysg nhw.

**FFUGLEN GYMRAEG**
**1.Iaith y Nefoedd, Llwyd Owen**
Nofelig sydd yn rhan o broject cysyniadol am gwltiau gyda band poblogaidd Yr Ods. Mae'n werth gwrando ar yr albwm yn ei chyfanrwydd a darllen y llyfr. Dychmyga'r prosiect ddyfodol ble mae'r iaith Gymraeg wedi mynd yn gwlt tanddaearol. Os ydych yn ffans o Handmaid's Tale ac yn hoffi gwylio rhaglenni dogfen gwallgof ar Netflix — mi wnaiff hon blesio!





**2. Cicio'r Bwced, Marlyn Samuel**
Peidiwch â gadael i'r teitl eich dychryn chi! Dyma nofel andros o boblogaidd gan yr awdures o Fôn. Un berffaith i godi calon a gwên — er bod themâu digon tywyll yn codi ynghyd â mannau tyner iawn. Hanes Menna Williams yn dysgu sut i fyw bywyd i'r eithaf eto gyda help ei ffrind Jan, ar ôl i'w chi drain o ŵr gicio'r bwced.




**3. Blasu, Manon Steffan Ros**
Dw i'n mynd yn erbyn y graen o bosib drwy beidio â dewis Llyfr Glas Nebo. Ond, mae Blasu yn gampwaith. Hanes bywyd Pegi, cymeriad unigryw sy'n cyfareddu pawb mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Ar ddechrau bob pennod mae rysáit sy'n ymddangos yn y bennod – perffaith i chi roi cynnig arno eich hun gan fod pawb wedi cael ail-flas ar goginio yn ddiweddar.

**4. Pobl i'w Hosgoi, Ruth Richards**
Efallai bod rhai ohonoch chi'n cael trafferth gweithio'ch ffordd drwy nofel y dyddia 'ma, felly beth am roi tro ar gyfrol o straeon byrion? Stori ar ôl brecwast, cinio, ac un arall cyn mynd i'r gwely? Blas o deitl un o'r straeon miniog a ffraeth yma: 'Blydi Bethan'.




**5. Lladd Duw, Dewi Prysor**
Mae darllen Lladd Duw yn gallu bod yn ymdrech. Mae'n glamp o lyfr, ond mi fydd werth y gwaith. Mae Dewi Prysor yn un o nofelwyr mwyaf amrwd a chyffrous Cymru. Stori dau Gymro, Jojo a Didi, sydd ar ffo o grafangau gangsters yn Llundain sydd yn y nofel, gyda'r ddau yn dychwelyd i'r ardal wledig lle cawsont eu magu. Os am *thriller* a sylwebaeth gymdeithasol, hon ydi'r un.

***LLYFR BONWS***
**Amdani, Bethan Gwanas**
Nofel wedi'i hysgrifennu 'ar gyfer ffrindiau nad oedd yn darllan', ys dywed Bethan Gwanas! Hanes criw o ferched yn dechrau tîm rygbi. . . a hynt a helyntion eu bywydau personol. Gellwch ei brynu oddi ar wefan Y Lolfa neu drwy Gwales os nad ydi'r llyfr yma ar gael yn y siopau!

Ac. . . mae'r gyfres deledu gyfa' ar Bocs Set Clic. Fuos i 'rioed mor hapus!


**LLYFRAU I BLANT**




**1. Y Goeden Ioga, Leisa Mererid 🙏**
Llyfr llun a stori sy'n cyflwyno symudiadau ioga syml i blant ac oedolion. Mae'r llyfr yn ein harwain i gylch byd natur – rhywbeth y mae pob un ohonom yn ei werthfawrogi gymaint mwy yn ystod y cyfnod rhyfedd yma. Mae'r darluniau yn hyfryd ac yn hawdd eu dilyn. Beth am drio gwneud y symudiadau yn yr ardd?

**2. Dirgelwch yr Ogof, T Llew Jones 🌊**
Meistr ym myd llenyddiaeth i blant, ond does dim yn rhwystro pawb rhag mwynhau dawn yr awdur chwedlonol hwn. Cafodd Dirgelwch yr Ogof ei chyhoeddi yn 1977 ac mae hi'n dal i hudo darllenwyr hyd heddiw. Mae pentref Cwmtydu yn llawn cyfrinachau. Beth yw'r sŵn sydd i'w glywed yn Ogof y Lleisiau? Pwy yw'r ffigwr dirgel mewn clytwaith o glogyn? Ai Siôn Cwilt, y smyglwr anenwog ei hun? Nofel antur llawn cyffro a pherygl ar arfordir gwyllt Ceredigion. Mae'r ffilm hefyd ar gael i'w gwylio ar Bocs Set s4cClic.

**3. Cyfres Dyddiadur Dripsyn, Jeff Kinney 📕**
Mae cyfres Dripsyn yn hynod o boblogaidd gyda phlant cynradd, ac mae'n amhosib peidio â gwenu wrth ei darllen. Mae troeon trwstan personol Greg Heffley yn siŵr o godi gwên! Dyma lyfr hawdd ei ddarllen gan fod yr iaith yn anffurfiol, a'r fformat dyddiadur yn effeithiol iawn.




**4. The Big Book of Magical Mix-Ups, Nick Sharratt 🔮**
Ydach chi wedi darllen llyfr drosodd a throsodd nes dechrau teimlo ychydig bach yn bôrd? Mae'r llyfr yma yn wahanol bob tro, gan eich bod chi'n gorfod troi gwahanol dudalennau i greu swyn. Wyt ti am droi dy frawd yn ddonyt anferth? Neu dy athrawes yn wningen? Digonedd o hwyl i'w gael gyda'r llyfr yma!

**5. Llyfr Adar Mawr y Plant, Onwy Gower 🦉**
Dyma lyfr arbennig gan Onwy Gower, awdures ieuengaf Cymru (sy'n ddisgybl ym mlwyddyn 6!). Mae hi wedi bod yn casglu gwybodaeth am adar a lluniau ohonyn nhw mewn gwarchodfeydd RSPB. Yn y llyfr lliwgar a difyr yma mae hi'n rhannu ei gwybodaeth drwy luniau, ffeithiau sydyn a cherddi. Digon o amser i fentro allan i'r ardd eich hun i astudio'r adar sydd o'n cwmpas.

***LLYFR BONWS!***
**Pawennau Mursen, Angharad Tomos 🐾**
Stori newydd sbon danlli gan Angharad Tomos wedi ei chyhoeddi y bore 'ma, ar gael i bawb yn y ddolen isod. Y llyfr cyntaf yng nghyfres Gwlad y Rwla ers 8 mlynedd.

https://issuu.com/rwdlan/docs/pawennau_mursen_terfynnol.

# Garddbenigwyr

**Mae** yna fynd garw ar Facebook ar gyfres 'Top Tips, Tip Top' gan Gareth Jones ac Esyllt Maelor. Holi 'garddbenigwyr' maen nhw a chael cyngor ar arddio gan bob un. Mae mwy a mwy o bobl wedi troi at yr ardd yn ystod y cyfnod diweddar yma felly dyma fwrw ati, gyda chaniatâd a diolch i'r ddau, i fenthyg hadau'r syniad a'u trawsblannu yma yn y Llanw. Wnân nhw gydio a ffynnu dudwch? Amser a ddengys. Meinir Giât Goch sydd wrthi'r mis yma. Cofiwch sôn os oes yna arddbenigwyr yn eich plith; mi fyddai'n dda sgwrsio hefo chi.
**Llŷr Titus**

## Garddio Giât Goch

Ydw, dw i'n garddio – ers 30 a mwy o flynyddoedd ond alla i ddim deud 'mod i'n Arddbenigwr o bell ffordd! Dyma i chi 5 peth dw i wedi'i ddysgu i BEIDIO â'u gwneud:
1. Hau maro neu *courgettes* yn rhy fuan. Dechrau Mai yn ddigon buan.
2. Hau pys a ffa (ffa dringo) mewn potia yn y tŷ gwydr. Dw i'n dal i wneud hyn ond dw i wedi colli'r cwbwl i lygod cyn heddiw. Pan mae hi'n dod yn amser cynaeafu does fawr o wahaniaeth rhwng y rhai sydd wedi eu cychwyn yn y tŷ gwydr a'r rhai sy'n cael eu hau yn syth allan.
3. Plannu mint yn y tŷ gwydr! Maen nhw'n codi ym mhob man!



**Tomatos, courgette, pys, cêl, rocet, ffa dringo a phot o letys i'w torri yn y tŷ gwydr.**

4. Maen nhw'n deud wrthach chi am godi tatws gwyllt sy'n yr ardd ers llynedd; dw i'n dal arni ac mi ga'i datws newydd cynnar iawn ohonyn nhw.
5. Plannu horsradish os nad oes gynnoch chi ddigonedd o le! Mae o'n ymledu a dw i wedi colli riwbob oedd wrth eu hymyl. Ydy horsradish yn perthyn i deulu dail tafol dwch? Maen nhw'n debyg iawn. Dw i wrth fy modd efo fo – codi'r gwreiddyn, ei blicio ac yna ei falu'n fân efo prosesydd bwyd. Peidiwch â mynd â'ch wyneb yn rhy agos ato, a'i ogleuo, mae'n ofnadwy o gry! Mae'n colli ei nerth wrth gael ei gadw neu ei goginio.

**Dyma 5 peth dw i wedi drio eleni:**
1. Grafftio brigyn coeden afal coch ar goeden arall. Faswn i wrth fy modd cael tips ar sut i wneud hyn yn iawn.
2. Plannu rhyw dair taten yn y tŷ gwydr er mwyn cael tatws cynnar cynnar. Dydw i ddim yn cael hwyl ar eu plannu mewn sach na theiars; mae malwod yn eu cael o 'mlaen i bob tro.
3. Pigo hadau blodau haul allan o'r bwyd ieir neu fwyd adar a'u hau – maen nhw'n dod yn dda fel arfer. Dipyn rhatach na phrynu paced.
4. Hau nionod. Fel arfer dim ond plannu sets slots a nionod fydda i yn ei wneud ond mi ges i drafferth cael sets nionod 'leni, felly dw i wedi trio hau hadau. Digon tila yr olwg ydyn nhw. Mi fentrais i Wilko i brynu sets nionod er i Jos fy rhybuddio: 'watsia di i'r nionod sets 'ma gosdio dy fywyd iti!'
5. Hau bîtrwt mewn potia a'u plannu allan a hau rhesiad yn syth i'r pridd 'run adeg, i weld pa rai ddaw gyntaf, a pha rai fydd gryfa'.



**Tatws, slots, planhigion cennin, mefusan a chabaij coch yn y tŷ gwydr**

Welis i ddraenog yn yr ardd echnos. Mae malwod a gwlithod yn broblem fawr i mi, ac er ein bod ni'n garddio'n organig i raddau helaeth, dw i'n defnyddio y mymryn lleia o belets malwod. Mymryn llai eto rŵan rhag ofn gwneud drwg i'r draenog a'r adar sy'n eu cadw i lawr yn naturiol. Dyna sut gwelis i'r draenog – mynd allan ganol nos efo lamp ar fy mhen a bwced i hel malwod oddi ar y llysia' a'r bloda'!

Dim ond un 'Top Tip' sgen i a hynny ydy peidiwch â thorri'ch calon os ydy pethau yn methu! Mi fydda i'n methu efo llawer iawn, ond mi fydda i'n llawn gobaith amser yma'r flwyddyn pan mae popeth yn tyfu'n gyflym ac yn llawn addewid am flwyddyn dda!

Diolch Meinir, pwy fydd ein garddbenigwr mis nesaf dybed?

***Diarhebion Llŷn***

***Mai oer a gwlych,***
***Wna'r sguboriau'n wych.***

## Sarn

**Dyma** adeg ddigon rhyfedd yn ein hanes a phob cymdeithas ar gau!
**Colledion** – Cydymdeimlwn â theulu Hugh John Griffith, Sarn Fawr, fu farw ar Fawrth 21 yn Ysbyty Gwynedd yn 88 oed. Un o blant y pentre.
Ar Ebrill 22, yng nghwmni ei theulu yn Llanllawen Bach, bu farw Mrs Wenna Williams, Mellteyrn yn 88 oed. Roedd byth a beunydd yn garddio a ffenestri llofftydd y tŷ ar agor bob amser. Cydymdeimlwn â chwi fel teulu.
**Damwain** – Ddechrau Ebrill syrthiodd Tomos G. Davies yn ei gartre a thorri ei fraich. Gobeithio eich bod yn gwella erbyn hyn.
**Gwerthfawrogol** – Mae'n diolch fel ardalwyr i Siop Waterloo yn fawr iawn ar yr adeg dywyll yma. Maent yn cario negesau allan i'r henoed a'r rhai sy'n methu mynd i'r siop. Does dim yn ormod. Diolch i'r siop a'r garej hefyd am aros ar agor am fanion a phetrol a diesel. Diolch yn fawr iawn.

*(Cysylltydd: Gwladys Thomas 770694)*

## Pwllheli

**Clwb y Bont** – Yn y cyfarfod olaf cyn y cyfyngiadau, y Prifardd Gruffydd Owen o Bwllheli, sydd bellach yn byw yng Nghaerdydd, oedd y gŵr gwadd. Cyflwynodd ddetholiad difyr a dadlennol o'i gerddi, gan egluro sut y daeth yr awen â'r ysbrydoliaeth iddo. Dyfynnodd o'i awdl fuddugol 'Porth' a ysgogwyd gan y teliffon symudol sy'n agor 'pyrth' gwahanol i wahanol bobl.
Yn naturiol ddigon, roedd ganddo gerddi am Bwllheli, yn atgofus, yn ddychanol gyda neges dreiddgar, gyfoes bob tro, a cherdd groeso yn Saesneg, llawn hwyl yn chwarae ar eiriau, i Steddfod Llanrwst. Yn addas iawn i gloi y noson hyfryd yma ar Ŵyl Dewi, darllenodd gerdd 'Y Pethau Bychain.'

*(Cysylltydd: Lydia Jones, Gernant, Penrallt Ffôn: 613659)*

## Pistyll

**Merched y Wawr** - I ddathlu Gŵyl Dewi croesawodd Lis Côr Ceiri, dan arweiniad Sianelen Plemming a Nerys Griffiths yn cyfeilio, atom i'n diddanu. Cafwyd noson ddifyr a chartrefol iawn gydag eitemau cerddorol amrywiol. Cyn canu cafwyd ychydig o gefndir pob cân gan Sianelen ac hefyd cawsom ninnau gyfle i ymuno efo'r côr i ganu ambell un. Yna cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan rhai o'r aelodau. Meri a Janet Wyn enillodd y raffl a diolchwyd i bawb ar y diwedd gan Gwyneth.
**Genedigaeth** - Llongyfarchiadau i Osian, Sŵn y Môr ac Emma ar enedigaeth mab bach, Kain Huw Parry-Williams, ar yr ail o Ebrill.

*(Cysylltydd:Eurwen Jones, Hen-dŷ, ffôn 720 610 neu eurwen.hendy@gmail.com)*

# Hunllef yn Troi'n Freuddwyd

**Aeth gwobr Gohebydd Ifanc y Flwyddyn y BBC i Elen Williams o Forfa Nefyn eleni am adroddiad a ysgrifennodd am brofiad erchyll a gafodd ddwy flynedd yn ôl. Yn Saesneg oedd yr adroddiad gwreiddiol ond yma mae Elen wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg yn arbennig ar gyfer darllenwyr Llanw Llŷn, ac yn gyntaf mae hi'n rhoi dipyn o hanes ennill y wobr:**




**Elen yn y seremoni wobrwyo**

**Cefais** alwad ffôn annisgwyl un diwrnod ar ôl dod adref o'r ysgol, yn cyhoeddi fy mod i'n un o'r rhai oedd wedi cyrraedd rownd derfynol Gohebydd Ifanc y Flwyddyn y BBC eleni – ac roeddwn i wrth fy modd! Tua mis ar ôl yr alwad yna, ar y 10fed o Fawrth, roeddwn yn ffodus iawn o gael mynychu'r seremoni wobrwyo yn Nhŷ Darlledu'r BBC yn Llundain. Roedd yn anhygoel cwrdd â phobol ifanc eraill yno a chlywed eu hadroddiadau a'u straeon – ac roeddwn yn dal mewn sioc fy mod hyd yn oed yn y rownd derfynol yno! Roeddwn yn sicr nad oedd gen i unrhyw siawns o ennill wrth glywed straeon pobol eraill. Daeth yn dro categori'r cystadleuwyr o Gymru – a dyna'u clywed yn cyhoeddi mai fi oedd wedi ennill drwy'r wlad i gyd! Roedd o'n hollol annisgwyl! Roedd y profiad o fod yno yn anhygoel a gobeithio bod fy stori a fy adroddiad yn gallu helpu pobol eraill gyda'u hunanbarch a'u hunanhyder.

*

## Ymdopi efo bywyd ar ôl colli gwallt

**Elen** ydw i, rydw i'n 16 oed ac yn astudio ar gyfer fy TGAU yn Ysgol Botwnnog ac rydw i'n dod o bentref bach o'r enw Morfa Nefyn sydd ar arfordir Gogledd Cymru.

Ddwy flynedd yn ôl roedd rhaid i mi ddelio â rhywbeth na fyddai prin neb yn eu harddegau yn gorfod mynd trwyddo. Dros flwyddyn a hanner yn ôl, cyn i mi droi'n 14 oed, collais fy ngwallt, heb unrhyw rybudd o gwbwl, a hynny o fewn rhai dyddiau! Cefais ddiagnosis creulon o Alopecia Areata, sef cyflwr ac anhwylder a wnaeth arwain at fy ngwallt yn disgyn o fy mhen mewn darnau enfawr. Nid oedd unrhyw ffordd o'i atal! Roedd fy system imiwnedd, a ffurfiwyd gan fy ngeneteg, wedi ymosod ar fy nghorff, ar hap.

Pan ddatblygodd fy Alopecia, fe ymosododd yn bennaf ar ffoliglau fy ngwallt gan achosi i fy ngwallt i ddisgyn allan. Yn y gawod oeddwn i pan ddigwyddodd gyntaf a meddyliais i ddechrau mai lympiau o *conditioner* gwallt yn llithro ar fy nghefn gwlyb oedd o, ond roedd o'n cosi'n gyson, a dyna feddwl mai adwaith i alergedd i'r cynnyrch gwallt oedd o. Ond wrth i mi edrych i lawr, roedd llawr y gawod i gyd yn ddu! Ni allwn weld fy nhraed! Gwaeddais ar Mam am help. Pan aethom at yr arbenigwr agosaf yn y maes, dywedodd nad oedd bron unrhyw siawns y byddai fy ngwallt yn tyfu'n ôl. Rhwygodd fy nghalon yn filiynau o ddarnau: yr hyn roeddwn i wedi'i gael ers i mi gael fy ngeni, yr hyn roeddwn i bob amser yn ei gymryd yn ganiataol! Ni allwn gyrlio na sythu fy ngwallt fy hun byth eto, fel y mae pob merch ifanc yn ei wneud.

Effeithiodd arnaf yn aruthrol iawn mewn ffyrdd emosiynol hefyd. Plymiodd fy hunanhyder yn syth. Roeddwn i'n casáu'r ffordd roeddwn i'n edrych ac roeddwn i'n cael fy adnabod yn yr ysgol fel 'y ferch yna heb wallt' a '*Baldy*'. Roedd o mor annheg a chynyddodd fy mhryder yn araf oherwydd hynny. Roedd arna i ofn cyson o'r hyn yr oedd pobol yn ei feddwl, wrth syllu heibio i mi yng nghoridorau'r ysgol ac ar y strydoedd bob munud o'r dydd. Oherwydd yr emosiynau oedd wastad yno yng nghefn fy mhen, ni allwn fynegi fy nheimladau fel yr oeddwn yn arfer.

Mae bywyd yn wahanol iawn o ddydd i ddydd heddiw. Rwy'n gwybod rŵan fy mod i wedi profi geiriau'r meddyg ddwy flynedd yn ôl yn anghywir. Mae fy ngwallt wedi tyfu'n ôl ac (o leiaf!) yn 12 modfedd o hyd! Er mai'r cyfnod yna oedd yr amser anoddaf o fy mywyd, mi wnaeth y gefnogaeth a gefais gan fy nheulu a ffrindiau ynglŷn â'm iechyd meddwl fy helpu fi yn fawr iawn gyda fy hunanhyder. Yr hyn wnaeth y gwahaniaeth mwyaf oedd fy wig. Mi wnaeth wirioneddol roi hwb anferthol i mi! Roeddwn i'n teimlo ar unwaith fel merch yn ei harddegau unwaith eto, gyda'r teimlad o gael gwallt ar fy mhen ac yn gallu rhedeg fy mysedd drwyddo. Fe'i roddwyd gan elusen The Little Princess Trust, elusen sy'n darparu gwallt gosod o wallt go iawn am ddim i blant mewn angen sydd wedi colli eu gwallt oherwydd salwch. Alla i ddim pwysleisio pa mor ddiolchgar ydw i i'r Little Princess Trust. Am fod fy ngwallt go iawn bellach yn ddigon hir, rwy'n ddigon hyderus i fynd allan heb y wig erbyn hyn. Rwy'n dal i fethu â chredu'r peth!

Os dewch chi ar draws hyn neu rywbeth tebyg eich hun, cofiwch nad ydy unrhyw gyflwr fel hyn yn gallu eich diffinio; rydych chi'n gryfach nag yr ydych chi'n ei feddwl a pheidiwch byth â chymryd unrhyw beth yn ganiataol yn eich bywydau. Diolch.

**Llongyfarchiadau i ti, Elen, a diolch am gael darllen yr erthygl – Gol**

# Cian y Cogydd

**Pob** blwyddyn, mae yna dros chwe mil o bobol ifanc talentog dros Wledydd Prydain yn cymryd rhan yng Nghystadleuaeth Cogydd Ifanc y Rotari – cystadleuaeth sydd wedi ei llunio ar gyfer pobol ifanc sydd yn mwynhau coginio ac efallai eisiau dilyn gyrfa yn y maes – neu efallai ddim. Mae'r gystadleuaeth hon yn un o nifer sy'n cael eu trefnu gan y Rotari i roi cyfle i bobol ifanc ddatblygu eu sgiliau a'u doniau.

Dros ddeuddeng mlynedd, mae Clwb Rotari Pwllheli wedi llwyddo i drefnu cystadleuaeth Cogydd Ifanc gyda chydweithrediad y ddwy ysgol uwchradd leol, Ysgol Botwnnog ac Ysgol Glan y Môr, Pwllheli. Yn ystod tymor yr hydref, cynhelir dwy gystadleuaeth i benderfynu pwy fydd yn mynd drwodd i rownd derfynol yr ardal. Eleni, cafodd y gystadleuaeth hon ei chynnal yn Ysgol Botwnnog efo Chris Chown (Prif Gogydd bwyty 5 seren Plas Bodegroes) yn beirniadu. A'r enillydd oedd Cian Pritchard o Ysgol Glan y Môr, gydag Esme Griffith yn ail agos iawn.



**Cian a'i gwpan**

Mae Cian (14 oed) yn byw yn Abererch a chafodd ei ysbrydoli i goginio tra bu'n gweithio'n rhan-amser fel gweinydd yn Tremfan Hall, Llanbedrog. Aeth Cian ymlaen i rownd derfynol yr ardal yng Ngholeg Cambria, Cei Connah ar yr 8fed o Chwefror, a daeth i'r brig yno eto! Roedd yn cystadlu yn erbyn chwech o gogyddion ifanc eraill o'r ardal. Gofynion y gystadleuaeth oedd darparu a choginio pryd tri chwrs iach mewn dwy awr.

Ar y 7fed o Fawrth, bu i Cian gystadlu yn y rownd nesaf yn Stratford upon Avon yn erbyn cogyddion ifanc eraill o Ogledd Cymru a Gogledd Lloegr a Chanolbarth Lloegr. Fe weithiodd Cian yn galed yn darparu a choginio pryd tri chwrs iach, ond collodd y cyfle i gyrraedd rownd derfynol y gystadleuaeth. Mae pawb o Glwb Rotari Pwllheli yn hynod falch fod Cian wedi mynd mor bell a gobeithiwn fod y profiad hwn wedi bod yn werth chweil iddo.

Dyma'r fwydlen wnaeth Cian ei chreu ar gyfer y gystadleuaeth:

**Cwrs 1:** *Parfait* iau cyw iâr a mêl wedi ei weini â thomatos ceirios a chrwtons

**Cwrs 2:** Ffiledau draenog y môr creisionllyd wedi'u gweini ar wely o asbaragws, tatws newydd menys sifys, cêl, olewydd, saws lemwn, menyn a thomatos

**Cwrs 3**: Cacen *mousse* siocled ac almon wedi ei gweini'n gynnes gyda *crême fraîche* a dail mintys.

**Tomos Lloyd Williams**

## Mynytho

**Wel** dyma be ydi cyfnod gwahanol a phryderus iawn i lawer. Pawb wedi cael newid yn eu ffordd o fyw ohrewydd y *Covid 19*. Llawer yn gaeth i'w tai ac yn colli gwaith ac ysgol, gweld teulu a ffrindiau, siopa a'r cymdeithasu arferol.

Ym myd y cyfryngau cymdeithasol yn ddiweddar ffrwydrodd safle Mynytho ar y gweplyfr, - amryw ohonom ddim yn ymwybodol ohono cynt ond lluniau difyr, di-rif wedi eu dangos yn ddiweddar.

**Merched y Wawr** - Un o'r digwyddiadau olaf un, os nad yr olaf, oedd gwledda i ddathlu Gŵyl Ddewi yn y Whitehall ym Mhwllheli. Cawsom bryd blasus a noson ddifyr er fod y locdown wedi ei gyhoeddi ychydig oriau ynghynt. Roedd pawb yn eitha ymwybodol bod cyfnod ansicr o'n blaenau ac yn rhagweld na fuasem yn cwrdd eto tan fis Medi.

**Gohirio** - Yn dilyn hyn ni fu cyfarfod o Glwb y Foel Gron a gohirwyd yr Eisteddfod Gadeiriol flynyddol.

**Clwb y Neuadd** - Enillwyr Mawrth oedd: £20 Helen Hughes, Saethon Bach; £10 Laura Thomas, Penbryn, Ffordd Rhiw; £5 Agnes Hill, Bryn Du Newydd; Sarah Ll. Jones, Llanbedrog; Mair Thomas, Abererch; Berwyn Williams, Gwelfryn.

**Carreg filltir** - Ar ddiwedd mis Ebrill dathlodd Dilwyn ei ben-blwydd yn 60. Ef, wrth gwrs, sydd yn gyrru rhestr yr enillwyr bob mis ac yn gyfrifol am Ddyddiadur y Llanw. Gobeithio y cafodd rhyw fath o ddathliad.

**Cyfnod anodd** - Ar ddechrau cyfnod y *Covid 19* yma aeth Robat, Awel y Foel yn ddifrifol wael a hynny ddiwrnod ar ôl dathlu ei ben-blwydd yn 30. Mae'n dda dweud ei fod erbyn hyn yn gwella yn ara deg. Amser pryderus, gan nad oedd neb o'i deulu ym Mynytho yn gallu ymweld ag o yn Lerpwl. Ychydig wedyn bu farw tad Maggie o Bentrefelin a chydymdeimlir â hi a'r teulu ar gyfnod anodd.

Cydymdeimlir hefyd â theulu Llwyndy; bu farw mam Netta ar ôl cyfnod o waeledd. Roedd yn frenhines ar deulu mawr.

Hefyd, yr un adeg, bu farw mam Sian sydd ar fin symud o Fryn Llewelyn i Gwynfa. Bu yn arbennig o anodd, os nad yn amhosib, i'r tri theulu drefnu angladdau teilwng.

*(Cysylltydd: Mair Owen Ffôn: 713563 mair.nant@nantmynytho.com)*

## Y Rhiw

**Gobeithio** eich bod fel ardalwyr yn cadw yn saff yn ystod y cyfnod difrifol 'ma.

**Yng nghanol** yr argyfwng ganwyd Glain Awel, merch i Llifon ac Anya, Llys Hyfryd, a chwaer fach i Eos. Llongyfarchiadau i chi a hwyl ar y magu.

**Hoffem** ddiolch i bobl ifanc yr ardal sydd wedi bod yn gofalu am y rhai hŷn ohonom gan wneud yn siwr fod ganddom nwyddau a bwyd, ac hefyd yn morol am ein moddion o'r feddygfa. Diolch yn fawr iawn i chi.

*(Cysylltydd: Helen, Ty'n Lôn Fawr, Y Rhiw. Ffôn: 780303 )*

## Bryncroes

**Profedigaeth** – Cydymdeimlwn â Ieuan, Jean a'r teulu, Awel y Mynydd, o golli brawd, Alwyn, Caerau, Aberdaron ar Fawrth 3, yn Ysbyty Allt Wen.

**Merched y Wawr** – Buom yn dathlu Gŵyl Dewi ar Fawrth 10 yn Neuadd Sarn yng nghwmni aelodau o gangen Chwilog. Ar ôl lluniaeth blasus cafwyd adloniant gan ieuenctid Ysgol Botwnnog. Diolch i'w hathrawon am eu dysgu a'u cefnogi, – Awen Griffith, Mr Davies a Debbie.

Enillwyr y raffl oedd: Ann Griffith, Enid Jones a Carys Jones, Chwilog ag Ann Jones, Ann Williams, Megan Benbow a Ruth Williams. Diolchodd Phyllis o gangen Chwilog am noson gymdeithasol hwyliog, lluniaeth ardderchog ac i'r ieuenctid. A Rhian Williams, ein llywydd, ddiolchodd i bawb fu'n darparu ar gyfer y noson, ymhob ffordd.

Yna ar nos Wener, Mawtth 13, gwahoddwyd ni i Ganolfan Nefyn i ddathlu'r Ŵyl ynghyd â changennau Morfa Nefyn a Phistyll. Cafwyd noson ddifyr iawn. Y gŵr gwadd oedd John Glyn Jones, cyn-arweinydd Band yr Oakley.

**Capel Tŷ Mawr** – Ar Fawrth 11, aeth y blaenoriaid R.G. Williams a G. Thomas i gyfarfod o'r Henaduriaeth ym Mhorthmadog i gael canlyniad yr arolwg a gafwyd o'r capel, Tŷ Capel a'r llyfrau. Cafwyd adroddiad da iawn gan Mr Gareth Roberts ag Edward Owen.

**Llongyfarchiadau** i Einion a Christine ar ddathlu eu Priodas Aur ar Fawrth 28, – ymlaen am y Diamwnt rwan.

*(Cysylltydd: Gwladys Thomas, 770694)*


Glanhau Traeniau Tir
gyda hyd o 300 llath!



Gwaith digar.
Cynnal a chadw fferm a unrhyw gwaith amaethyddol.
Cysylltwch â John M Jones
Tyn-y-Coed
Trefaes
Sarn
01758 730434
07890051533



Robert Williams
Plymio a Gwresogi
Nwy, Olew ac Ystafell Molchi
Cynnal a chadw.
07775715774
*bobtalafon@hotmail.com*


## Gwaith Cartref – Storiel yn cynnig help

**G**an fod rhaid addysgu plant o adref yn ystod yr argyfwng *Covid-19*, mae Storiel yn defnyddio'r adnoddau hanesyddol sydd ganddyn nhw yn yr amgueddfa i greu taflenni gwybodaeth ar gyfer y teulu cyfan.

Gyda holl adnoddau Storiel tu ôl i ddrysau caeëdig am y tro, dyma gyfle gwych sy'n cael ei gynnig i'w mwynhau nhw o adref. Mae cyfres o daflenni gwybodaeth ar gael sy'n addas i blant Cyfnod Allweddol 2 a hŷn, ac maent i gyd ar gael yn ddwyieithog.

Rhai o'r pynciau sy'n cael eu trafod ydi Y Celtiaid, Llechi Cerfiedig a Dogni - ac maent i gyd gyda rhyw fath o gysylltiad â hanes Gogledd Cymru. Ceir lluniau addas i gyd-fynd gyda phob pwnc. Fe fydd Storiel yn rhoi'r tudalennau diweddaraf ar eu gwefan ar ôl eu cwblhau. https://www.storiel.cymru/cymru/dysgu/

Bydd yr holl arteffactau yma i'w gweld yn Storiel yn dilyn yr argyfwng *Covid-19* ac maent yn croesawu teithiau ac ymweliadau.

**Datganiad i'r wasg**




**Pengroeslon – Neges i'n cymdogion gadw draw**

Llun: Dafydd Iocws


Ymddiriedolaeth Genedlaethol

AR OSOD

UNEDAU ARLWYO

Cyfle unigryw i rentu unedau arlwyo yn ardal Uwchmynydd, ger Aberdaron.

Unedau ar gyfer prosesu bwyd gyda 3 oergell fawr (lle gallwch gerdded i mewn iddynt).

Ar gael i'w osod ar lês o'r 1af o Chwefror 2019.

Cysylltwch â
01690 713328 / 07786335116
wa.tenantenquiries@nationaltrust.org.uk

# Arlunwyr Sarn

**A**r adeg mor bryderus i ni fel cymdeithas, rydym yn falch o ddatgan bod gennym golofn ichi ar gyfer mis Mai. Er nad ydym wedi cyfarfod yn Neuadd Sarn ers i'r rheolau ynysu ddod i rym, mae ein haelodau wedi parhau i weithio ar brosiectau celf yn ein cartrefi ac yn cysylltu oddeutu unwaith yr wythnos ar ebost am sgyrsiau ac i ddangos ein gwaith. Wrth bod rhai o'n haelodau yn yr oedran bregus o ran Cofid 19, da o beth yw eu bod yn parhau i beintio a sgetsio ac i gyfathrebu ar lein gyda chyfeillion dros banad ddychmygol ar fora Mercher!




**Alfie (pensiliau) Sue Woodfine**

Rhoddwyd her i'n haelodau ar ddechrau'r ynysu i weithio ar hunan bortread neu bortread os dymunent. Ni chawsom ein siomi, gyda nifer o'n haelodau yn ymateb i'r her. Mae hunan bortreadu yn ddisgyblaeth anodd iawn i'w chyflawni. Os ydych yn edrych mewn drych ac yn lluniadu'n fyw, mae'r llun yn groes ac mae golau yn gallu newid yn sydyn fel bod cysgodion ar y wyneb yn newid yn gyson. Bydd y mwyafrif yn gweithio o ffotograff ohonynt eu hunain er mwyn cysondeb golau a thôn. Yr elfen anoddaf a phwysicaf o'r portread yw'r llygaid ac os nad yw'r rhain yn hollol gywir o ran maint, lleoliad a lliw, mae'r portread i gyd yn dioddef, oherwydd y llygaid yw'r elfen gyntaf i ddenu sylw'r gwyliwr.



**Hunan bortread (olew) Hafwen Dorkins**



**Hunan bortread (pensiliau)**
**Keith Wilson**

Mae Sue Woodfine wedi lluniadu mewn pensil ei hŵyr Alfie i greu darlun llawn teimlad cariadus o ddiniweidrwydd plentyn. Mae hunan bortread Keith Wilson yn gignoeth a phwerus. Mae hunan bortread Hafwen Dorkins yr olaf o bedwar mewn cyfryngau gwahanol. Defnyddiodd baent olew mewn palet cyfyngedig o bum lliw. Mae cyfansoddiad darlun Esther Stubbs o'i merch yn llawn gweadau gwahanol, o'r tapestri ar y wal, gwead ei siwmper a blodau'r lili ar y bwrdd ac mae'r llygad yn cael ei ddenu at bob cyfeiriad.



**Portread o fy merch – Esther Stubbs**

Am ragor o fanylion am Arlunwyr Sarn cysylltwch â Hafwen Dorkins ar ebost rgdorkins@btinternet.com neu Cadi Thomas ar 770327 neu ymwelwch â'n gwefan www.arlunwyrsarnartists.cymru


Gwasanaeth Glanhau Emma



Pob agwedd o lanhau yn cynnwys glanhau cartrefi gwyliau, carafanau, gwestai, golchi dillad a smwddio.
Dibynadwy a chyfeillgar.
Gwasanaeth ar gyfradd resymol.
07969128810


# Lloffion Llŷn

## Jane Post

**Yn** ystod y misoedd diwethaf yma daeth newid i bentref Tudweiliog. Mae'r siop, neu y Post fel mae pawb yn ei alw, yn ganolbwynt y pentref a phobl yn cael sgwrs a chymdeithasu wrth fynd i gasglu eu neges. Daeth y newydd fod Jane yn ymddeol ar ol 30 mlynedd a daeth rhyw ddigalondid dros y pentref, ac ofnwyd mai dyma ddiwedd ar y Post a'r siop.

Cymerodd Jane Williams drosodd ar ôl i Judith Roberts ymddeol, a dechreuodd ar ei gwaith ar ddydd cynatf Ebrill 1990. Daeth Angharad Jones yno i'w helpu, a bu hithau yno hyd ymddeoliad Jane. Yn 1992 penderfynwyd ehangu'r siop a rhoi y Post ei hun yn y pen draw er hwylustod i bawb ac er mwyn cael mwy o le wrth y cowntar. Yno byddai'r bobl leol yn cyfarfod, a llawer iawn o ymwelwyr yn prynu pethau yno hefyd ac yn dotio at gymaint o amrywiaeth oedd i'w gael yno. Ar wahân i fwydydd, roedd yno offer glanhau, cardiau at bob achlysur, cardiau post, fferins a siocled, teganau glan môr, hufen iâ, a llawer peth arall. Os byddai rhywun angen rhywbeth a hwnnw ddim yno, byddai Jane wedi ei gael cyn pen dim.

Daeth llawer o newidiadau dros y blynyddoedd. Collwyd trigolion oedd wedi bod yn mynd yno am lawer blwyddyn, ond daeth teuluoedd newydd yn eu lle. Gwelwyd newid hefyd wrth i bobl fynd i godi eu pensiynau, bu diwedd ar y llyfrau a'r cerdyn bach taclus oedd gan bawb bellach, a llawer o'r henoed yn methu dygymod ar y dechrau.

Roedd Jane yn agor y siop saith diwrnod yr wythnos, lle cynt y byddai wedi cau ar y Sul, a chodai bob bore am 5:30 – 6:30 i ddidoli'r papurau. John Edwards fyddai'n dod â nwyddau yno ar y dechrau, yna cafwyd popeth gan Blakemore o Fangor, a thua tair blynedd yn ôl daeth hynny i ben hefyd. Wedi hynny byddai'n rhaid i Jane ei hun fynd i Gyffordd Llandudno i gael beth bynnag oedd ei angen.

Byddai'n prynu llysiau yn lleol gan ffermwyr, a llefrith Dragon, a bu hefyd yn gwerthu llaeth o Madryn Isaf am gyfnod. Yn y dechrau byddai'r bara'n dod o dri gwahanol fecws, ond bellach dim ond un sydd yn galw yno.

Gofalodd Jane fod ei chwsmeriaid i gyd yn derbyn Llanw Llŷn bob mis drwy fynd ei hun i'w nôl i bob pentref lle'r oedd y plygu. Âi i Spar Nefyn hefyd i gael digon o gopïau o'r Ffynnon i'r rhai oedd wedi'i archebu. Aeth yr ail filltir er mwyn ei chwsmeriaid. Gwyddai yn iawn beth oedd pawb yn ei gael, a pha ddiwrnod, a gofalai am les pob un ohonom. Bu'n ffrind da, yn wrandawr distaw a doeth, a chadwai bob cyfrinach iddi'i hun.

Dymunwn bob bendith iddi yn ei ymddeoliad; mae'n haeddu seibiant wedi gweithio mor galed, a diolch iddi am bopeth. Diolch hefyd i Angharad am ei gwaith hithau yn y siop, a'i hanwyldeb bob amser. A diolch nad yw'r Post wedi cau. Daeth Alison Brady i gymryd lle Jane, ac mae ein dyled yn fawr iddi hithau hefyd am achub ein siop, a gwyddom y bydd yn saff yn ei dwylo hi.

**Olwen Williams**

# Modfeddi Meddygol

## Endometriosis

**Fel** tad i dair o genod yn eu harddegau, dw i wedi cael cryn brofiad o gyfnodau digon annifyr yn y tŷ yma bob mis, yn enwedig pan mae misglwyf y tair yn digwydd cyd-daro. A gyda'r wraig ar ochor arall y sbectrwm yn flin fel tincar, mi fydda i'n teimlo 'mod i'n cerdded ar blisgyn ŵy yn aml iawn! Dyma fy mhrofiad i gyda merched iach nad ydyn nhw'n dioddef mwy na llai na'r cyffredin. Felly alla i ond dychmygu'r hyn y mae merched sy'n dioddef o endometriosis (a'r sawl sy'n cyd-fyw â nhw) yn gorfod ei ddioddef fis ar ôl mis, a'r effaith ddinistriol y gall hyn ei gael ar ansawdd eu bywydau.

Cyflwr yw hwn ble mae celloedd tebyg i'r rhai sydd yn leinin y groth yn tyfu yn rhannau eraill y corff, fel yr ofarïau a'r tiwbiau ffalopaidd. Bob mis, mae hormonau'n cael eu rhyddhau yn y corff sy'n achosi i'r celloedd yma gynyddu, er mwyn paratoi leinin y groth i dderbyn ŵy wedi'i ffrwythloni. Os na fydd ŵy wedi'i ffrwythloni'n cyrraedd, mae'r leinin yma'n torri i lawr ac yn gwaedu, ac yn cael ei fwrw allan o'r corff ar ffurf misglwyf, ac yna mae'r broses yn cychwyn eto. Ond mewn merched sy'n dioddef o endometriosis, mae'r celloedd sy'n tyfu y tu allan i'r groth hefyd yn ymateb i'r hormonau yma, ac yn cynyddu ac yn gwaedu ar yr un amser, ond does dim ffordd i'r gwaed yma fynd allan o'r corff. Mae hyn yn arwain at boen a llid, ac mae meinwe greithiol yn ffurfio all achosi i'r organau dan sylw ymlynu wrth ei gilydd.

Felly dychmygwch beth mae'r merched druan yma'n mynd drwyddo, yn gwybod eu bod yn wynebu'r symptomau yma bob mis:

- Poen annioddefol
- Blinder a diffyg egni
- Iselder ysbryd
- Methu gweithio neu gymdeithasu
- Problemau gyda pherthnasoedd / bywyd rhywiol
- Methu beichiogi – mae tua hanner y merched sy'n methu beichiogi yn dioddef o'r cyflwr yma
- Problemau sy'n gysylltiedig â'r coluddyn a'r bledren

Gall y symptomau gychwyn cyn misglwyf cyntaf geneth ifanc, ac i'r rhan fwyaf o ddioddefwyr, maen nhw'n para drwy gydol eu bywyd ffrwythlon. Mewn ambell achos mae'r symptomau'n parhau ar ôl y menopôs hyd yn oed! Am greulon ydi'r bywyd yma weithiau!

Dyma'r pwynt yn yr erthygl fel arfer lle dw i'n gallu symud ymlaen i gynnig goleuni ar ddiwedd y twnnel drwy nodi'r holl gyffuriau a thriniaethau posib sydd ar gael i wella'r clefyd. Ond yn anffodus, alla i ddim gwneud hynny gyda'r pwnc yma. I ddechrau, does yna ddim triniaeth na chyffur hud, fel mae'r holl ferched sy'n dioddef yn gwybod yn iawn, ac felly bwriad pa driniaeth bynnag a ddewisir yw gwella ansawdd bywyd yr unigolyn. Mae'n ddigon anodd cael diagnosis, gan fod y cyflwr yn rhannu'r un symptomau â sawl salwch arall. Yr unig ffordd bendant o gadarnhau mai dyma yw'r broblem yw mynd am Laparosgopi, lle mae camera yn cael ei roi i mewn yn yr abdomen drwy dwll bychan o dan y botwm bol er mwyn archwilio'r meinwe.Y nod wedyn yw ceisio lleihau pa mor llym yw'r endometriosis, a pha mor llym yw'r symptomau, gan ddewis y driniaeth fwyaf addas i'r unigolyn o'r canlynol:

- Cymryd yr hormon oestrogen, sy'n bresennol mewn sawl cyffur, ac sydd weithiau'n llwyddo i wella'r cyflwr
- Defnyddio'r Laparosgopi i dynnu neu losgi'r darnau gwaethaf o'r endometriosis gyda laser, ond gall y cyflwr ddychwelyd ar unrhyw adeg
- Meddyginiaeth lladd poen a photel dŵr poeth

Mae'n bwysig i gyflogwyr a phartneriaid ddeall cymaint y mae'r cyflwr yma'n gwanychu'r claf, a dangos cydymdeimlad a chefnogaeth iddi yn ystod y cyfnodau drwg. Dw i'n diolch i Dduw mod i'n ddyn bob diwrnod!

Ysgrifennwyd yr erthygl hon gan **Emyr Wynne Evans** ar ran Fferyllwyr Llŷn.
Gallwch gysylltu â Fferyllwyr Llŷn yn:
Fferyllfa Nefyn, Stryd Fawr, Nefyn. Ffôn: 01758 720214
Fferyllfa Llanbedrog, Ffordd Abersoch, Llanbedrog. Ffôn: 01758 740229

**Er** nad ydym ni'n ein cynghori chi i alw draw am sgwrs yn ystod y cyfnod heriol yma, mae croeso i chi godi'r ffôn. Fe hoffem ni achub ar y cyfle yma i ddiolch i bobl Llŷn am eu cefnogaeth, eu dealltwriaeth a'u hamynedd. Fe ddaw eto haul ar fryn

FFOTOGRAFFYDD
Dewi Wyn
www.dewiwynphotographer.com
(01758) 613542
PRIODASAU
PORTREADAU
YR WASG
MASNACHOL
NEU UNRHYW ACHLYSUR ARALL




# Y Gorlan

## Edrych tuag ato

**Wrth** i ni deithio drwy'r byd yma bydd amseroedd da a hyfryd. Ond gŵyr pawb ohonom y daw amseroedd anodd a chaled i'n rhan ryw bryd neu'i gilydd. Mae stormydd tywyll yn gallu cau amdanom yn sydyn. A dyna ddigwyddodd i ni gyda dyfodiad y firws Covid 19. Newidiodd ein hamgylchiadau dros nos. Ar y fath adeg, 'dan ni'n cael ein hunain yn gofyn o lle y daw help? Daeth help o lawer cyfeiriad, yn deulu, ffrindiau, cymdogion, meddygon a nyrsus, gofalwyr a llawer un arall. Pobl ydy llawer o'r rhain sydd yn rhy aml wedi cael eu cymryd yn ganiatol a mawr ydi'n dyled a'n diolch iddynt. Ond mae amgylchiadau fel hyn yn dod â her ysbrydol i'n bywydau gan eu bod yn bygwth ein tawelwch meddwl, a'n diogelwch a'n llawenydd.

Sut 'dach chi'n ymateb o ran eich ffydd yn wyneb problemau a helyntion sy'n dod i'ch rhan? Cawn rai'n rhoi'r ffidil yn to a cherdded i ffwrdd oddi wrth Dduw, tra bo eraill yn dal i edrych at Dduw yn Iesu Grist. Un mewn argyfwng ac yn llawn ofn a gawn yn Salm 121. Meddai, 'Dw i'n edrych i fyny i'r mynyddoedd. O ble daw help i mi?' ac yna cawn ei ateb. 'Daw help oddi wrth yr ARGLWYDD, yr Un wnaeth greu y nefoedd a'r ddaear.'

Wrth droi ei olwg tuag at y Duw a'i creodd daw cysur i'w fywyd; cysur fod ei Arglwydd a greodd bob dim yn ddigon grymus i'w warchod. Gwyddai fod gan yr un a'i creodd ofal amdano a'i fod wrth ei ochr. Meddai, 'Fydd o ddim yn gadael i dy droed lithro; dydy'r Un sy'n gofalu amdanat ddim yn cysgu. Wrth gwrs! Dydy'r un sy'n gofalu am Israel ddim yn gorffwys na chysgu! Yr ARGLWYDD sy'n gofalu amdanat ti; mae'r ARGLWYDD wrth dy ochr di yn dy amddiffyn di.'

Mae'r Duw a ddaeth atom yn Iesu Grist yn fwy nag unrhyw elyn neu broblem. Mae'n fwy na'r byd hwn yr ydym yn byw ynddo. Os trown ato, cawn brofi ei help. Cofiwch eiriau'r Salmydd wrth ddiweddu'r Salm: 'Bydd yr ARGLWYDD yn dy gadw di'n saff ble bynnag ei di, o hyn allan ac am byth.' Gallaf dystio mai da yw'r Arglwydd a'ch cymell yn awr i'w geisio a'i gael yn gymorth parod mewn cyfyngder.

**R O Roberts**




**Morfa Nefyn – Casgliad o luniau yn ffenestr siop Gwen**

Llun: Dafydd Iocws

# Melinau Llŷn

**Y** mis yma rwyf am sôn am Felin Nant a oedd wedi'i lleoli ar lan yr Afon Daron, tua hanner milltir i'r dwyrain o Felin Aberdaron.



**Darlun dyfrlliw o Felin Nant a baentiwyd gan Ruth Prichard Jones, wyres i Richard Jones, yn 1958; copi o hen ffotograff o'r felin a dynnwyd yn nechrau'r ugeinfed ganrif.**

Un o brif darddiadau'r Afon Daron yw Ffynnon Cwm Dylif ar dir Meillionydd, ar ochr mynydd Y Rhiw. Mae'r daith, fel y mae'r frân yn hedfan, o Gwm Dylif i Aberdaron tua thair milltir a hanner ond roedd y rhan fechan yma o'r afon yn cynnal o leiaf bum melin, ffatri wlân a phandy ar un adeg, a hefyd amryw o olwynion dŵr oedd yn gweithio ar ffermydd yn ogystal â thyrbin dŵr oedd yn cynhyrchu trydan. Erbyn heddiw nid oes ond ychydig iawn o olion o'r hen felin. Mae llwybr cyhoeddus yn arwain o'r ffordd sydd yn mynd am Y Rhiw ger fferm Morfa Mawr ac yn croesi'r Afon Daron cyn mynd ymlaen i gyfeiriad ffordd Rhoshirwaun. Mae yna bont droed i groesi'r afon ac yn ymyl y bont, ar ochr ddeheuol yr afon, roedd Felin Nant. Mae'r felin wedi ei dangos ar fapiau'r Llywodraeth yn 1888 ac 1915 a hefyd mae'r safle wedi ei ddangos ar fap y Degwm 1844 er nad oes yna fanylion am y felin yn y Rhestr Pennu, sy'n mynd gyda mapiau'r Degwm.



**Y bont droed sydd yn croesi afon Daron yn agos iawn i'r safle ble roedd Felin Nant. Buasai'r felin wedi bod i'r ochr dde o'r darlun yma.**

Mae'n debyg bod Felin Nant wedi ei hadeiladu ar dir fferm Geufron, oedd yn rhan o Stad Nanhoron, ond er chwilio drwy hen ddogfennau Stad Nanhoron yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth nid wyf wedi gweld unrhyw gyfeiriad at Felin Nant. Mae amryw o gyfeiriadau at felinau eraill ar Stad Nanhoron, megis Felin Uchaf, Melin Bodwrdda a Melin Llangwnnadl, ond dim at Felin Nant. Y cyfeiriad cyntaf i mi ei ganfod at Felin Nant oedd yng nghyfrifiad 1871 pan oedd Hugh Williams, 70 oed, Melinydd yn gweithio yno. Yr oedd Hugh Williams yn fab i William (ac Ellin) Williams, Cefnona Aberdaron, a oedd yn felinydd ym Melin Aberdaron. Yn 1841 roedd Hugh Williams yn gweithio ym Melin Aberdaron gyda'i frawd, Griffith. Erbyn 1851 yr oedd Hugh wedi priodi ac yn felinydd ym Melin Pentrefoelas ond fe fu Elizabeth ei wraig farw yn weddol ieuanc yno ac fe ddaeth yntau yn ei ôl gartref i Gefnona a wedyn fe symudodd i fyw i Felin Nant. Bu farw yn 1874 yn 73 oed, a chafodd ei gladdu ym mynwent Eglwys Sant Hywyn, Aberdaron.

Mae'n debyg y bu Felin Nant yn wag am gyfnod wedyn ac ar y 4ydd o Chwefror 1888 ymddangosodd hysbysiad yn y papurau lleol yn datgan bod yr arwerthwr Tom Evans yn gwerthu Felin Nant mewn arwerthiant yng ngwesty'r Ship, Aberdaron ddydd Iau Chwefror 9fed am 2 o'r gloch y pnawn. Yr oedd y felin ar les a 32 blynedd o'r les yn dal ar ôl. Yn ôl yr arwerthwr: 'gydag ychydig o gost gellir gwneud y felin uchod yn un o'r rhai gorau yn y wlad'.

Prynwyd les Felin Nant yn yr arwerthiant gan Richard Jones, yn enedigol o Frynbeddau, Rhoslan ger Llanystumdwy, a'i fam, Ann Dafydd, yn ferch i deulu Felin Bencoed, Llanarmon. Felly roedd gwaith y felin yn gyfarwydd iddo ac yn y gwaed. Pan yn ifanc roedd Richard Jones yn gweini ar ffermydd yn yr ardal, ond yn 1863 fe briododd â Catherine Jones, Tŷ'n Rhedyn Llanfaelrhys, ac aeth y ddau i gadw siop yn Gorffwysfa, Y Rhiw. Ganwyd tri o blant iddynt, Ann, Thomas ac Elizabeth; ymhen amser ymfudodd y tri i fyw i'r Unol Daleithiau. Bu Catherine farw yn 1875 ac yn 1883 priododd Richard am yr ail waith gydag Ellen Catherine Jones, Bryn Cannaid, Uwchmynydd. Ganwyd iddynt bump o blant: Catherine Jones, a fu farw yn 13 oed; Richard Parry Jones, a briododd gyda Catherine Roberts, Tirdyrys, Rhoshirwaun ac a fu wedyn yn ffermio yn Nhŷ Fair, Bryncroes ac yn gweithio Melin Trygarn; Ellen Jones, Bryn yr Eryr, Llanystumdwy; John Prichard Jones a gollodd ei fywyd yn y Rhyfel Mawr yng Nghwlad Belg yn 1918; a Mary Parry Jones a fu'n cadw Swyddfa'r Post yn Llandwrog.



**Richard Jones, Felin Nant**
**1833 – 1920**

Roedd Richard Jones yn ddyn cryf o gorff yn ôl pob hanes. Byddai ei fab, Richard Parry Jones, yn adrodd fod ei dad wedi codi engan yng ngefail Aberdaron ond ei fod ef a llawer arall wedi methu. Bu Richard Jones yn gweithio'r felin am tua ugain mlynedd ac fe fu farw yn 1920 yn 87 mlwydd oed. Mae wedi ei gladdu ym mynwent Eglwys Sant Hywyn, Aberdaron. Ar ôl i'r felin fynd yn wag chwalwyd yr adeiladau a chludwyd y deunyddiau i ffwrdd i atgyweirio adeiladau ar ffermydd cyfagos.

**Glyn Roberts**

# O Ben Cilan



**Lliw y môr yn dangos lle mae dau gerrynt yn cyfarfod ei gilydd wrth Drwyn y Fulfran.**

Llun: Anet Tomos

## Botwnnog

**Colledion** - Cydymdemlir â Michael John a'r teulu, Pentir, ac Ian John a'r hogia, Rhydgoch, ar farwolaeth eu tad a thaid, Hughie John Griffith, Sarn Fawr, Sarn ar Fawrth 21 ar ôl gwaeledd byr. Roedd yn 88 oed.

Cydymdemlir hefyd ag Yvonne, Carrog a Sian, Bryn Llewelyn, a'r teulu ar farwolaeth eu mam, Catherine Naden, Llanbedrog.

**Genedigaethau** - Llongyfarchiadau i Tony, Bryngwdyn ar ddod yn daid am y tro cyntaf a John Cil-Llidiart yn hen-daid. Mae Osian a Nia yn Y Ffôr wedi cael merch fach, Mali Wyn, ar ddydd Gŵyl Dewi.

Hefyd llongyfarchiadau i Richard a Nerys, Berth Lwyd ar ddod yn daid a nain, a Harriet, Bryn Meirion yn hen-nain i Bob, mab i Robat a Kim yn Bangor-is-y-Coed, - brawd bach i Ani Dafydd.

**Talent** -Llongyfarchiadau i Dei Talsarn ar dderbyn gwobr Chwaraewr y Flwyddyn yr Hyfforddwyr dan 16 oed, Rygbi Gogledd Cymru.

**Eisteddfodol** - Da iawn pawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, Cylch Llŷn. Bechod na chewch fynd ymhellach eleni, ond cewch gystadlu eto flwyddyn nesa. Daliwch ati i ymarfer at 2021 a gobeithio y gwelir rhai ohonoch yn cystadlu yn Eisteddfod T, ac fel mae'r holl faneri sydd o gwmpas yr ardal yn ddweud "Daw eto haul ar fryn."

A diolch i Elin, Bodnithoedd am y syniad gwych Arwyddion Codi Calon ar y Gwep-lyfr.

**Ysgol Pont y Gof** - Fel pob ysgol arall, oherwydd *Covid 19*, mae'r plantos yn brysur yn gweithio o adref. Diolch i'r rhieni a ffrindiau am bob cefnogaeth yn ystod yr amser ansicr yma.

Dyma gerdd gyfansoddwyd gan Caren Jones, Uwch Gymhorthydd Dosbarth yn yr ysgol, i godi calonnau'r plant, yn enwedig y rhai hŷn oedd yn poeni na fuasent yn cael mynd yn ôl yno cyn mynd i'r ysgol uwchradd.

Cofiwch hyn
Chwarae allan yn yr ardd,
Gweld y cennin Pedr hardd,
Gwenwch ffrindiau, cofiwch hyn -
Fe ddaw eto haul ar fryn.

Plannu llu o hadau bach,
Hwythau'n tyfu'n lysiau iach,
Gwenwch ffrindiau, cofiwch hyn -
Fe ddaw eto haul ar fryn.

Pobi cacen efo Mam,
Yna'i llenwi efo jam,
Gwenwch ..........

Peintio llun o enfys dlos,
Darllen 'chydig bach bob nos,
Gwenwch ..........

Cofiwch fynd â'r ci am dro,
Cadw'n heini, gwneud jig-so,
Gwenwch ..........

Ffonio'ch ffrindiau yn y pnawn,
Gwneud yn siwr fod pawb yn iawn,
Gwenwch ..........

Byddwch gryf a byddwch lon,
Cawn fynd 'nôl i'r ysgol hon,
Gwenwch ..........

**Cadwch** yn saff bawb.

*(Cysylltydd: Gwyneth Evans, Pont y Gof 730603)*

## Dinas

Wel, helo bawb. Gobeithio eich bod yn iach, ac yn dal i wenu drwy'r amser rhyfedd yma. Diolch ein bod yn byw mewn lle mor hardd, ac wedi cael tywydd i allu mwynhau bod allan, boed hynny yn yr ardd neu i fynd am dro. Rydwi'n credu'n siwr fod natur wedi ceisio codi ein calonnau gan fod lliwiau blodau'r cloddiau wedi bod yn arbennig o lachar eleni.

**Diolch -** Gaf i, ar eich rhan chi oll, ddiolch i bawb o'r ardal sydd wedi dal i weithio er lles eraill. Mae'r ffermwyr wedi bod yn brysur fel arfer, athrawon a sawl un arall yn gweithio o adref, a nifer yn dal i fynd allan i weithio, gweithwyr siopau yn ein cynnal mewn bwyd. Dyna Colin yn gwneud yn siŵr fod ein sbwriel yn cael ei gasglu, Robin wedi gweithio'n arbennig o galed drwy'r cyfnod fel parafeddyg, Sheila yn brysur yn danfon defnyddiau glanhau i feddygfeydd ayyb (ac yn gofalu fod pobl Dinas yn cael y pethau angenrheidiol!), Gareth, Y Ddôl, yn dal i addasu cartrefi er mwyn i gleifion fynd adref o'r ysbyty, gweithwyr gofal yn dal i ofalu, a phawb yn bod yn gymydog da ac yn gofalu am eraill. Diolch i bawb.

**Cydymdeimlo -** Mae sawl teulu wedi cael profedigaeth ers i'r Llanw diwethaf ymddangos. Collodd Einir, Penrallt Nant ei mam; Bet, Lôn Fudr wedi colli nith, a Rina, Ann a Dic Wyn Morgan wedi colli cefnder a'i wraig ym Manceinion. Rydym yn cydymdeimlo'n ddiffuant iawn â phob un ohonoch. Mae ein meddyliau hefyd gyda theulu John Griffith, Abersoch, oedd yn wreiddiol o Dinas, ac yn cadw cysylltiad agos â'r ardal. Bu farw John yn Ysbyty Gwynedd.

**Llongyfarchiadau -** Bu dathlu hefyd. Roedd Bethan, Tir Glas yn cael pen-blwydd arbennig ddechrau Mawrth a bu'n mwynhau'r dathlu gyda ffrindiau a theulu. Ac wrth i Ebrill ddirwyn i ben, ganwyd merch fach i Sion a Becky yn Nefyn, a hynny ar ddiwrnod pen-blwydd Sion. Anrheg arbennig ar ben-blwydd arbennig! Mae hyn yn golygu fod Catherine Yvonne yn nain unwaith eto, a Rina a Clifton yn hen-nain a hen-daid eto. Dyna beth ydi haul ar fryn. Llongyfarchiadau bawb.

**Swyddi -** Llongyfarchiadau hefyd i Nia, 'Rhiwel, sydd wedi dechrau ar swydd newydd yn ddiweddar. Mae hi yn gweithio o adref ar y funud fel Swyddog Rheoli Ansawdd drwy'r grŵp Colegau Llandrillo Menai, ond bydd, rhyw ddiwrnod, yn gweithio o Goleg Meirion Dwyfor Pwllheli. Mae Rowena, Gwelfryn, hefyd wedi cael cytundeb parhaol rhan amser fel athrawes yn Ysgol Chwilog. Llongyfarchiadau i'r ddwy ohonoch.

**Dathlu a chodi arian -** Cafwyd dathliad Gŵyl Dewi arbennig eleni wrth i ni gynnal Te Prynhawn yn y festri er mwyn codi arian at Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd, 2022 erbyn hyn! Bu dau eisteddiad, a bu'n llwyddiant ysgubol. Pawb wedi mwynhau, wedi siarad, ac wedi cael llond bol. Diolch o galon i bawb fu'n gweithio mor galed i wneud y diwrnod yn un llwyddiannus, yn enwedig Elaine Nyffryn,- hi oedd y bos, ac yn cadw'r cwbwl i redeg yn rhwydd. Fe godwyd £1,020 i goffrau'r Eisteddfod.

**Aduniad -** Y dydd Sadwrn canlynol, bu aduniad o gyn-ddisgyblion Ysgol Dinas yng ngwesty'r Woodlands, Edern. Roedd wedi ei drefnu gan Anwen, Isfryn gynt, ac Ann, Gwelfryn gynt. Unwaith eto bu hen siarad, hel atgofion ac ailafael mewn hen gysylltiadau.

**Ac yna ... -** Wrth gwrs, ers hynny, mae pob dim wedi dod i stop. Mae'n chwith garw heb allu mynd i'r capel, i gyfarfodydd Merched y Wawr, Y Dinasyddion, Bingo a phob dim arall. Ac yn fwy na hynny, mae'n chwith heb allu ymweld â theulu a ffrindiau. Cadwch yn saff bawb, fe gawn ni gymdeithasu unwaith eto, a gwerthfawrogi'r cyfan yn fwy nag erioed.

*(Cysylltydd: Meryl Nyffryn 01758770691 neu meryl_davies@hotmail.co.uk)*



**Groeslon Dinas – Neges syml: 'Byddwch Hapus'**

Llun: Dafydd Iocws

## Côr Cymru 2021

**Y**mhen blwyddyn bydd un o gorau Cymru yn ennill teitl Côr Cymru 2021 a gwobr ariannol o £4,000 a chael y cyfle arbennig i gynrychioli Cymru yng nghystadleuaeth Côr Eurovision.

Dyma'r degfed tro i brif gystadleuaeth gorawl Cymru gael ei chynnal ac ers y cychwyn yn 2003 y nod yw cynnal a chodi safonau corawl Gwlad y Gân.

Mae 'na bump categori – corau plant, corau ieuenctid, corau cymysg, corau lleisau unfath a chorau sioe.

Bydd panel o feirniaid rhyngwladol yn dewis hyd at bedwar côr ymhob categori i berfformio yn y rowndiau cyn-derfynol ym mis Chwefror 2021.

Mae pob côr sy'n cyrraedd y rowndiau cyn-derfynol yn derbyn £500 gydag enillydd y categori yn ennill £1,500.

Bydd y pump côr gorau o'r rowndiau cyn-derfynol, ym marn y beirniaid yn cael eu dewis i berfformio yn y ffeinal fawr ar Fai 2 yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth ac yn fyw ar S4C. Bydd gwobr i'r arweinydd gorau a gwobr am y perfformiad gorau gan gôr na fydd yn cyrraedd y ffeinal.

Y cam cyntaf yw recordio sain y corau yn eu cynefin ddechrau Rhagfyr 2020 pan y bydd angen i'r corau berfformio rhaglen o 6 i 8 munud o gerddoriaeth.

Bydd cyfle i gorau ysgolion cynradd hefyd gystadlu yng nghystadleuaeth Côr Cymru Cynradd gyda'r ffeinal ar nos Sadwrn, Mai 1af a ffeinal Côr Cymru ar Fai 2, 2021

Bydd y rowndiau cyn-derfynol a'r ddwy ffeinal yn cael eu darlledu ar S4C.

Am fwy o wybodaeth ewch i www.s4c.cymru/corcymru neu www.rondomedia.co.uk

**Datganiad i'r wasg**

Clinig
**Ciropodi / Podiatri**
Iona W. Griffith
BSc(Hons), M.Ch.S. HCPC cofrestredig
Viewlands, South Beach,
Pwllheli LL53 5AW
Ffôn: 077 333 20490 (sym)
Ebost: iona.griffith@yahoo.com

*Gwneuthurwraig Dillad*
*Cywiro Dillad*
*Dodrefnu Ysgafn*
**Anwen Davies**
Plasyngheidio, Boduan, Pwllheli
Gwynedd LL53 8YL
Ffôn: 01758 720327

**Labordy Deintyddol Dwyfor**
Unrhyw broblem efo'ch dannedd gosod?
1A Yr Ala
Pwllheli LL535BU
Ffoniwch ni ar:
01758 701078
07880 895391

**Ashley Hughes** cyf.
ARGRAFFU • PRINTING
CYNNYRCH SWYDDFA • OFFICE SUPPLIES
Yr Hen Bost, Nefyn, Gwynedd. LL53 6HH
☎: 01758 721700
sales@ashleyhughes.co.uk


**HB DIGITAL**
AUDIO VIDEO DATA COMMS
Gwasanaeth sefydlu a gosod llawn, yn cynnwys gosod ar waliau
Yn y cartref neu yn fasnachol
Systemau erial neu loeren
Yn amrywio o osod system ddigidol sengl i system sy'n dosbarthu i'r cartref cyfan Freeview, BBC Freesat a systemau Sky
Yn arbenigo mewn systemau gwestai, lletau a pharciau carafanau
Technegwyr profiadol yn defnyddio'r offer profi Promax diweddaraf gyda gwarantiaeth llawn
Am fwy o fanylion neu er mwyn cael amcanbris am ddim ffoniwch:
01758 721426
info@hbdigital.co.uk
www.hbdigital.co.uk

**Tommy Taylor**
**TRYDANWR A SAER COED**
07922155934 / 01758713515
ttelectrical@hotmail.co.uk
Part P/17th Ed. - Aelod o Elecsa
Ail-weirio, Socedi ychwanegol, Larymau tân
Lloriau, Decing, Ffrramiau drysau, ayyb
**Dim gwaith yn rhy fychan**

+ Dosbarthu presgripsiynau
+ Cyngor ynglyn â meddyginiaethau
+ Casglu a danfon ail-bresgripsiynau
+ Ystafell ymgynghori breifat
+ Sgrinio a monitro clefyd siwgr
+ Gwybodaeth ar sut i fyw yn iach

Fferyllwyr Llŷn Cyf
LLŶN PHARMACISTS Ltd
Fferyllfa R J Jones
Stryd Fawr Nefyn
720214
Fferyllfa H L Taylor
Glasfryn Llanbedrog
740229
Llun - Gwener 9 - 6 Sadwrn 9 - 4
Sul 10 - 2 Nefyn yn unig

**Y BLWCH TLWS**
CLINIG HARDDWCH
Sef 1999
01766 514644
Agored dydd Mawrth - dydd Sadwrn
158 Stryd Fawr, Porthmadog LL49 9NU
www.beautybox-porthmadog.co.uk
**Mrs Rhonwen Mai Ellis**
NVQ, IIHHT, IHBC, IFHB, MGPBT



*Os am wneud eich Gwallt Gartref*
ffoniwch
**Marian**
**Symudol: 07747 064008**
**Tŷ: 01758 750237**

GETHIN SCOTT CYF
TRYDANWYR
AELOD O'R NICEIC
HAFOTY, EDERN
FFÔN 07786317519
E-BOST
GETHINSCOTTCYF@HOTMAIL.CO.UK
HOLL WAITH TRYDANOL,TELEDU, CARAFANNAU.

**CONTRACTWYR TRYDANOL**
HUGHES A WILLIAMS Cyf
Dafydd Hughes 07813008479
Arwel Williams 07789300525
Iocws, Pwllheli LL53 5TY
01758 612621 dafydd@iocws.com

**Gwasanaeth Teipio a Chysodi**
**Einir Wyn**
*Cyfieithydd*
(Tystysgrif mewn cyfieithu Coleg Prifysgol Cymru)
Llythyrau
Traethodau
Adroddiadau Capel
ac ati
01758 712434

**WASH FIX**
Peiriannydd Offer Tŷ
Golchwr Llestri • Glanhawr Trydan
Peiriannau Golchi a Sychu Dillad
**John Ellis**
740076 — 07798723294


siop HAF
Torri gwallt dynion a merched
Dim angen apwyntiad
Yn Siop A Garej Morfa Nefyn
01758 720408

Gwasanaeth trin traed yn y cartref
Richard Thomas
SRCh HPC cofrestredig
Sym/dydd 07976 316487
Tŷ, gyda'r nos 01758 612384

GWIN LLŶN WINES
*Gwinoedd - Siampên - Gwirodydd*
*Cwrw Lleol*
Eich arbenigwyr annibynnol lleol mewn gwin a chwrw
**Y Maes • Pwllheli**
**01758 701004**
**www.gwinllynwines.co.uk**

**Siop Pike**
**Porthmadog**
Am ddewis da o anghenion ysmygu cetynnau
'Peterson' a 'Falcon'.
Papurau newydd, cardiau a theganau.
Amrywiaeth o siocled a melysion.
☎ 01766 512578

TELEDU LLŶN
•Erials Freeview
•Lloeren Freesat
Gwasanaeth Trydanol
07816 205939



Cwmni Teithio Pwllheli
16 Stryd Penlan, Pwllheli, LL53 5DE
(01758) 612695 / 613737 / 613070
pwllhelitravel@travmail.net

**Lloriau Alan Maylor**
**Cyflenwr a Gosodwr Carpedi a Lloriau**
07767274769
alanmaylorflooring@gmail.com
www.facebook.com/lloriaualanmaylorflooring

YNNI'R EIFL CYF
Dafydd Williams
**Trydanwr**
Cynnal a chadw cyffredinol
07583494370
ynnireifl@gmail.com

**SAMARIAID**
Mae
**Llinell Gymraeg**
**0808 164 0123**
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm


**Goleuo Llŷn**
Goleuadau / Switses / Gwresogyddion
Stryd Penlan, Pwllheli
01758 701173
07816 205939
info@goleullynlighting.com
www.goleuollynlighting.com

# E.F. & E.O. WILLIAMS a'u meibion

YMGYMERWR AMAETHYDDOL A CHARIO. CHWALU CALCH A LLWCH. PROFI PRIDD DI-DÂL, TORRI SILWAIR A PHORFA. CYFLENWYR TYWOD A GRAFAEL A CHERRIG TRAENIO.


**Y TŶ GWYN, MORFA NEFYN, PWLLHELI, GWYNEDD LL53 6AY**
**01758 720246 neu 720333**

# Contractwyr Amaethyddol



» Gwaith Ffensio
» Torri Gwrychoedd
» Codi Waliau Cerrig
» Plannu Coed

**Ffoniwch Euros Jones 07760 355825**



**4 milltir tu allan i Bwllheli ar yr A499 - LL53 6PG**

Parcio am ddim

## Parc Glasfryn

Agored pob dydd o 10 y.b.

| | | |
|---|---|---|
| BOWLIO | SIOP FFERM | PARTH Y PLANT |
| SAETHYDDIAETH | TONFYRDDIO | CARTIO |
| PARTION PLANT | PEDAIR OLWYN | |

**Ffôn: 01766 810202 www.glasfryn.co.uk**

## Dylan V. Evans
## Ymgymerwr Cario

Cario gwellt a gwair,
tractors a phob peiriant arall, ayyb.
Nôl a danfon peiriannau i ocsiynau

Tŷ Newydd, Lôn Rhiw, Mynytho, LL53 7SN
**730710 / 07899710108**

Cyllid Pennant

Trefnwyr hur bwrcas, lesio a benthyciadau masnachol.



I gael pris neu i drafod eich anghenion, cysylltwch â Haydn Jones
01492 580202 neu 07768025440

## Contractwyr Amaethyddol



Belio a Lapio Byrnau Mawr
Torri Gwrychoedd
Chwistrellu Biswail gyda 'Umbilical Cord'

**Cysyllter â:**

**Hugh Eifion Hughes, Bron Eifion, Cricieth**
**01766 522189 07974 700804**

## EVAN JONES
**A'I FAB**

*Ymgymerwr Cario*

Gwerthwyr Tywod a Graean,
Tarmac, Cerrig Ithfaen a.y.y.b.

**Castell Grug**

Llanbedrog, Pwllheli, Gwynedd LL53 7NN
01758 740243

# H &M JONES
YSTORFA CEFN GWLAD

YR YNYS / MYNYTHO / PWLLHELI / LL53 7SN
**01758 730 282 hmdivision@gmail.com**


**Asiant a Masnachwyr Porthiant**
Blawd Cyfansawdd neu Cartref a Mwynau.
**Peiriannau Bwydo Lloeau a Ŵyn**
Peiriannau Cyfrifiadurol, Awtomatig'Ad-lib' neu rhentu Peiriant Awtomatig 'Ad-lib'.
**Hadau Amaeth a Gwrtaith**
Hadau Oliver Seeds a Gwrtaith Growhow /Origin /Humber Palmers.
**Cemegau Amaethyddol**
Cerdded Cnydau a Chyngor Cemegol a Gwrtaith gan Agronomegydd.



## OSIAN JONES

Clirio, cynnal a chadw gardd
Codi a Symud
Gwaith Amaethyddol
Pâr o ddwylo ychwanegol

07850388207
osianjones@live.co.uk



## DIGAR BACH I'W LOGI

Gyda dreifar neu ar ei ben ei hun



Ychwanegiadau i'r digar bach i'w llogi hefyd:
**Pecar**
**Cribyn cerrig i'r ardd**
**Teclyn gafael**


Cysylltwch â David am bris rhad
07968 193259



# J.E.JONES
# GLO
# LLITHFAEN

DOSBARTHU'N GYSON DRWY BEN LLŶN
**750 243**

Glanhau Traeniau Tir
gyda hyd o 300 llath!



Gwaith digar.
Cynnal a chadw fferm a unrhyw gwaith amaethyddol.

Cysylltwch â John M Jones
Tyn-y-Coed
Trefaes
Sarn
01758 730434
07890051533

## Glanhau Proffesiynol
### ar Garpedi a Dodrefn

Hefyd pob math ar lanhau mewn cartrefi, swyddfeydd a diwydiannol


## NEFYN CLEANING SERVICES
45 STRYD FAWR, CRICIETH

Ffôn 01766 523633 Ffacs 01766 522640

Amcangyfrif am ddim

## Llogi Teirw a Cyflenwi Lloeau

**Teirw ar gael**
Limousin
Charallais
Belgian Blue
Aberdeen Augus
Hereford
Simmental



Lloi bach o bob brîd ar gael o 3 wythnos oed i fyny.

Lloeau wedi ei dyfnu o 2 fis oed i 12 mis oed ar gael.


Cysylltwch â Dafydd Myrddin, Pwlldefaid 07968 354539

**GERDDI LLŶN**
**Cwmni Garddio a Thirlunio**

Tim Rosa
01758 760537
07970 716875
landscaping@gerddi-llyn.co.uk
www.gerddi-llyn.co.uk
**AMCANBRISIO AM DDIM**

---

Gwydion Morley




*gwaith cerrig, cynnal a chadw garddio a ffensio*
01758 760257 - 07854 009265


---

**Ty'n Llwyn**

• *Gwasanaeth coed* • *Ffensio* •
• *Gwasanaeth symudol hollti logiau* •
**Richard Hubbard, Ty'n Llwyn, Llannor. LL53 5UG**
(01758) 612608 neu 07807 213527

---

CODI WALIAU CERRIG A FFENSIO



DILWYN WILLIAMS
07967 027 622
*Gwarentir gwaith o safon*

---



---

**Ian Williams**

**Gwasanaeth torri coed a ffensio Llŷn**
**Gwasanaeth hollti coed symudol**
**01758 721407 / 07929 713396**
**Tyn Lôn, Edern**

---

**Gwagio Tai a**
**Phrynu Dodrefn a Chreiriau**

*Trebor Evans*
Pwlldefaid, Aberdaron, Pwllheli
01758 760215
07968 354539

---

**FFENSIO LLŶN**
G. Hughes, Llecyn, Aberdaron
*ARBENIGWYR MEWN FFENSIO "CHAIN LINK", FFENS HAEARN, a.y.y.b.*
**Hefyd Gwaith Ffensio Amaethyddol**
**Gwaith o safon uchel**
*Amcanbrisio am ddim*
**ABERDARON**
**760399**

---

**S.J. & S. Williams Cyf**
**Ymgymerwyr Peirianneg Sifil**

Ymgymerwyr pob math o waith sifil.
Wynebu a thario gyda pheiriant 'pefar' neu â llaw.
Lonydd preifat – mannau parcio – pafinau
gwaith concrid – draenio ac yn y blaen.
Aelod â thystysgrif "Construction Line"

*Cysylltwch am amcan bris*
Ffôn / Ffacs 01758 720973
Symudol 07976 896097 / 07792 328877
**Hendre – Edern – Pwllheli – LL53 8YS**

---

**ROGERS JONES CO.**
Ocsiynwyr — Priswyr

**OCSIYNWYR DODREFN A HEN BETHAU**
**OCSIYNWYR ERS DROS 40 MLYNEDD**

Arwerthiannau Hen Bethau ar ddydd Mawrth olaf y mis

Arwerthiannau Dodrefn Tŷ ar y dydd Mawrth cyntaf a'r ail o bob mis

Clirio Tai yn llwyr os oes angen

Prisiadau Hen Bethau yn y cartref (am ddim os ar gyfer gwerthu)

Prisiadau Hen Bethau bob bore Gwener yn ein swyddfa (am ddim os ar gyfer gwerthu)

Prisiadau ar gyfer yswiriant, prawf ewyllys a rhoddion trethadwy, ac yn y blaen

**Os am wasanaeth personol a phroffesiynol**
cysylltwch â
**David Rogers Jones**

33, Lon Abergele, Bae Colwyn
**01492 532176**
Ffacs: 01492 533308
**www.rogersjones.co.uk**

---


**Cynnal Tir**
Torri gwrychoedd • Ffensio
Chwistrellu chwyn • Problem tyrchod
Clirio brwgaits • Strimio
Gyrrwr tractor • Hurio peiriannau
a llawer mwy
**07531 474896**
**D and L Land Maintenance**

---

Modurdy
**Efail Rhos**
**Rhoshirwaun**
01758 760227

- Gorsaf M.O.T.
- Nwy Calor

---



---

*Cwmni Tân*
**Llŷn**
*Fire Protection Cyf*
Cyflenwi a Gwasanaethu Diffoddwyr Tân
6, Innes Estate, Pwllheli, LL53 5RP
**01758 612955 / 07748 705545**
terry.williams@homecall.co.uk

---

*Hardy's*
*Eich modurdy lleol*

**Ffôn 01758 612121**
Ffacs 01758 614171
Stâd Ddiwydiannol Glandon
Pwllheli LL53 5YT

Olew - Batris - Teiars - Disbyddwyr - Trwsio - Profion MOT
Gwasanaeth anhap ac adfer 24 awr - llogi ceir a faniau
*Prisiau rhesymol iawn*

---

**P.R.Roberts** **Peiriannydd Amaethyddol**

- *Offer garddio, torri coed a choedwigaeth*
- *Cadwynau llif gadwyn a darnau sbâr*
- *Olew cadwyn ac olew injan 2 strôc*
- *Ceffylau llif a gwahanol ddeiliaid coed tân*
- *CDP ar gyfer defnydd ddiogel o lif gadwyn*

Drws Y Nant - Boduan - Pwllheli LL53 8UY **01758 720212**

---


**MODURDY TEGFAN**
**H F ROBERTS**
GORSAF BROFI MOT
**GWASANAETH ADFER 24 AWR**
**PRISIAU CYSTADLEUOL TEG**
> Cyfleusterau Peirianyddol ac Atgyweirio Corffforol Llawn
> Danfon a Chadw Carafannau Teithio
> Ymgymeryd â Gwaith Yswiriant
> Cyfleusterau Jig Llawn
> Gorsaf Brofi MOT




**AM YMATEB YN DDIYMDROI GALWCH:**
**Llangwnnadl, Pwllheli, Gwynedd. LL53 8NP**
**Ffôn: 01758 770651**
**Ffacs: 01758 770614**

---

**MODURDY BONT, PWLLHELI**
**Gwasanaeth**
**Trwsio**
**M.O.T.**



**Sylw personol** **01758 612022**

---

**BywBywyd**
***Eich gofal yn flaenllaw***
Cymhorthion ac addasiadau ar gyfer pobl hyn ac anabl
**Dinas - Caernarfon - LL54 7YN**
**www.byw-bywyd.co.uk**
**ffôn 01286 830101**
**ffacs 01286 830301**

**egni solar**
Arbenigwyr Egni Solar PV
Ffôn - 01758 721016
Symudol - 07979 284153
E-bost - egnisolar@hotmail.co.uk
GOSODWR CYDNABYDDEDIG
REAL

> Ceginau a stafelloedd molchi
tumewn
Tu Mewn Cyf
Ffordd Dewi Sant
Nefyn
LL53 6EG
Ffôn: 01758 721081
www.tumewn.co.uk

**C.L. JONES**
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu
Yr Ynys, Mynytho
01758 730768
Amrywiaeth eang o stoc - Cyfrif masnachol
Cludiant lleol di-dâl - Staff cyfeillgar a phroffesiynol

| | | | |
|---|---|---|---|
| Bethesda | 01248 600045 | Llanrwst | 01492 640794 |
| Caernarfon | 01286 676070 | Llangefni | 01248 751677 |

www.cljonesltd.co.uk

Cerrig Ithfaen a Llechen Cyf.
cerrig
- Gwaith o safon uchel
- Gan grefftwyr lleol
- Yn defnyddio'r dechneg ddiweddaraf

Gweithfyrddau - Enwau Tai - Llefydd Tân - Cerrig Coffa - Llechi
Stad Ddiwydiannol Glandon Pwllheli, Gwynedd LL53 5YT
Ffôn 01758 612645 / Ffacs 612410 info@cerrig-granite.co.uk

**HUWS GRAY**
CANOLFAN DEFNYDDIAU ADEILADU
Glan Don, Pwllheli
pwllheli@huwsgray.co.uk 01758 701230
www.huwsgray.co.uk

dobson:owen
penseiri
www.dobsonowen.com
3 Thomas Buildings Pwllheli LL53 5HH
01758 614181 post@dobsonowen.com

**Eirwyn Williams**
*Adeiladwr*
Peredur, Ffordd Cae Rhug, Nefyn
720436 / 07979 834900
eirwynwilliams@yahoo.co.uk

**Terry Williams**
**ADEILADWR**
Pob math o waith adeiladu, bach neu fawr
Adeiladu – Toi – Plastro
Atgyweirio – Cynnal a Chadw
01758 760606 / 07890 906598
Murmur y Môr, Aberdaron

**Cwmni Concrid Porthmadog**
- Concrid
- Tywod a Grafal
- Gwasanaeth Conveyor
- Gwasanaeth Pwmpio Concrid

Cysylltwch â ni ym Mhorthmadog neu Rhosfawr trwy ddeialu un rhif:
01766 530644
*am bris cystadleuol*

**JONES & WILLIAMS**
*Ymgymerwyr Adeiladu*
☎01758 770 475
Tyn Ddôl
Llangwnnadl
Pwllheli
Gwynedd LL53 8NS

**M. Pritchard**
*Paentiwr ac Addurnwr*
13 Stad Cornwall, Mynytho
01758 740 940
*Amcanbrisio am ddim*



**SIÔN DORKINS**
SAER COED
07890 788997
llwyd19@yahoo.co.uk
CIL Y SWNT ABERDARON LL53 8BE

**Richard Thomas**
*Paentiwr ac Addurnwr*
Tŷ Halan, Stryd y Plas, Nefyn
721089

Ifan M. Hughes
Trefnwr Angladdau
Uned Gorffwysfa, Ceiri Garage
Llanaelhaearn
01758 750238
Gwasanaeth personol 24 awr y dydd

Partneriaeth
**V.JONES CYF**
Pob math o waith adeiladu
Bach neu fawr,
plastro, toi, gwaith coed
Tryfan
Rhiw
Pwllheli
LL53 8AL
01758 780269
07790 605085
07980 785781

*Gwynedd Roberts*
*Saer Coed*
Llain Wen, Nefyn
721818
07990661735

**Robert H Jenkins**
Paentiwr ac Addurnwr
01758 613980 / 07899 716088
Cartref, 18 Ffordd y Maer, Pwllheli
Amcanbrisio am ddim

**G. D. Roberts a'i Fab**
Cerrig Coffa
Glanhau ac Ail-dorri Enwau
Dewis eang o Wenithfaen a Llechen
Prisiau cystadleuol
Gweithdy, Ala Uchaf, Pwllheli
Ffôn: (01758) 701107
Ffacs: (01758) 701107

Cyfarwyddwyr Angladdau
**Dewi P. Thomas**
Clydfan
Morfa Nefyn
Pwllheli
LL53 6BD
Ffôn
01758 720930
07887 716850
07810 725024

**ARBENIGWYR TOEAU GWASTAD**
OWENS ROOFING (NEFYN) LTD.
Sym 07867 753388
Ffôn 01758 750503
Amcanbrisio am ddim
Y rhan fwyaf o'r gwaith wedi ei warantu

Cyfreithwyr
**Martin a'i Gwmni**

Cyfreithwyr
33 Stryd Fawr,
Pwllheli, Gwynedd
LL53 5RT
Ffôn: 01758 612042
Ffacs: 01758 613815
E-bôst: legal@lawmn.com
Gwefan: www.lawmn.co.uk

* Trawsgludo
* Materion Landlord a Thenant
* Ewyllysiau a Gwaith Profiant
* Pŵerau Atwrnai a Llys y Gwarcheidwad
* Ymgyfreithiad
* Gwaith Teuluol Preifat

Safon Trawsgludo · SRA

# STRAIN A'I GWMNI
CYFREITHWYR

**Gwaith teulu ▪ Achosion sifil neu iawndal ▪ Trosedd**

14a Stryd Penlan, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5DH
01758 455500 · www.strainaigwmni.cymru

# Bennett Smith – cyfreithwyr

## *Ydych chi'n wynebu ysgariad neu wahaniad?*

*Os felly, ffoniwch Karen Bennett neu Daniel Jones*
*i gael cyngor cyfreithiol yn ymwneud â phob math o broblemau cyfreithiol teuluol*
*yn cynnwys taliadau terfynol, gorchmynion ad-drefnu eiddo, ysgariad a phlant.*

*Mae Bennett Smith yn ymfalchïo yn mynd i'r afael*
*â'ch anhawsterau cyfreithiol*

*Ffôn: 01248 679000 ▪ E-bost: mail@bennettsmith.co.uk ▪ www.bennettsmith.co.uk*
*▪ Garth Bach, Nant y Garth, Y Felinheli LL56 4QF ▪*
Awdurdodir a rheoleiddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Cyfreithwyr

# Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP
Cyfreithwyr

Y Gilfach
22 Stryd Penlan, **Pwllheli**
(01758) 703000

Siambrau'r Castell
2A Y Bont Bridd, **Caernarfon**
(01286) 673381

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol · Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

Safon Trawsgludo · Cyfraith Teulu · Lexcel Practice Management Standard Law Society Accredited · Cyfraith Plant · Iechyd Meddwl

**Amlwch** (01407) 831777 · **Benllech** (01248) 852782 · **Llangefni** (01248) 723106
Yn masnachu fel **Elwyn Jones & Co., Bangor** (01248) 370224
Awdurdodir a Rheoleiddir gan Awdurdod Rheoliad Cyfreithwyr (591667)



# ROBYNS OWEN
## Cyfreithwyr

*Ymgymerwn â phob math o waith cyfreithiol*

36 Stryd Fawr, **Pwllheli** LL53 5RY
Ffôn: 01758 613177 Ffacs: 01758 613713
e-bost: robynsowen@f2s.com
14 Stryd Newydd, **Porthmadog** LL49 9ED
Ffôn: 01766 514747 Ffacs: 01766 514848
e-bost: port@robynsowen.f2s.com

# Sterling
**YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL**

**BUDDSODDIADAU**
**PENSIYNAU**
**YSWIRIANT BYWYD**

Cyswllt
**Cedri Wyn Lewis**
**Emyr Owen**

**01766 513273 - 513765**
106 Stryd Fawr, **Porthmadog**,
LL49 9NW

Mae Sterling Porthmadog Cyf yn cael ei awdurdodi a'i reoleiddio gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

**Cyfrifydd Siartredig Ardystiedig**
# JOHN TUDOR
Cyfrifon - Treth ar Werth - PAYE
Treth Incwm Personol a Busnes
Cyngor i Ddatblygu Busnesau
**01758 701755 / 07977 910925**
**help@jtudor.co.uk**
John Vaughan Tudor, FCCA
3 Kingshead Pwllheli LL53 5DR
**ACCA**
Archwilydd wedi ei gofrestru gan Gorff Cyfrifwyr Siartredig Ardystiedig

Castell Cyf
**YMGYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL**
**Barclays Bank Chambers, 64 Stryd Fawr, Pwllheli, Gwynedd, LL53 5RR**

***• Buddsoddiadau • Yswiriant Bywyd***
***• ISAs • Cynilo • Pensiynnau***

Cyswllt
***Mark W Jones DipPFS***
***Carwyn Evans DipPFS***
***John G Parry DipPFS***
**Ffôn: 01758 701902**
**E-bost: castellcyf@btconnect.com**

*Awdurdodwyd a rheolir gan y Financial Conduct Authority*

Cwmni **TARIAN** Cyf.

Cyngor ar - **Bensiynau a Buddsoddiadau**
- **Ysgrifennu Ewyllysiau**

**Gwasanaeth Ariannol i Fusnes ac Unigolion**

Cysylltwch ag Aled Evans
Ffôn: (01758)613030 ● 07786015186
ebost: post@tarian.co.uk
**www.tarian.co.uk**

Cwmni TARIAN Cyf. ● 7 Sgwar y Farchnad ● Pwllheli LL53 5RU

Mae cwmni Tarian Cyf. yn gynrychiolydd apwyntiedig o LJ FINANCIAL PLANNING LIMITED,
wedi ei awdurdodi a'i reoli gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol

# Griffith Williams
**a'u Cwmni**
## CYFRIFWYR SIARTREDIG

**Gwaith Proffesiynol Cyflawn**
**Paratoi Cyfrifon**
**Treth Ar Werth**
**Cyngor ar :**
Treth Incwm Personol
Treth Enillion Cyfalaf
Treth Etifeddiaeth a Rhoddion

**36 Stryd Fawr**
**Pwllheli**
**☎ 701 701**

Cofrestrwyd i ymgymryd â gwaith archwilio gan Gorff Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr.

# Gwyn Thomas & Co
## Cyfrifwyr Siartredig
*Gwasanaeth cyflawn ac effeithiol*

1 Thomas Buildings, Pwllheli
Ffôn: 01758 701770
Ffacs: 01758 701123
gwynthomas-co@tiscali.co.uk

# Owain Bebb a'i Gwmni Cyf.

20 Penlan, Pwllheli LL53 5DE
01758 612646

32 Y Maes, Caernarfon LL55 2NN
01286 675916

**CYFRIFWYR SIARTREDIG**



# R.D.Williams Cyf.
## Brocer Yswiriant

**Ffôn: 01758 612469 e-bost: rd.williams@btconnect.com**
**4 Thomas Buildings, Lôn Dywod, Pwllheli LL53 5HH**

***Am anghenion yswiriant o bob math, yn cynnwys moduron, tai neu fusnes, cysylltwch â ni i gael prisiau neu gyngor personol a lleol***

Awdurdodir a rheoleiddir gan Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

TARIAN

# Tarian (Yswiriant) Cyf

• Yswiriant Tŷ • Yswiriant Busnes
• Yswiriant Car • Yswiriant Teithio

**14 Stryd Y Porth Mawr, Caernarfon LL55 1AG**
ffôn: 01286 677787 • ffacs: 01286 677629
tarian@tariancyf.co.uk • www.tarianarlein.com

# Drws tŷ fy nhad

> Y peth gwaethaf y gallai merch ddibriod ei wneud yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac mewn cyfnodau diweddarach, oedd syrthio'n feichiog. Câi merched beichiog dibriod eu diarddel gan eu teulu, gan eu cymdogaeth a chan eu capel. Oes greulon, ddidostur felly oedd hi.

**Dyna** damaid o ran agoriadol Rhagair 'Dwylo Coch a Menig Gwynion', llyfr newydd gan Alan Llwyd sy'n olrhain pedair llofruddiaeth ar ddeg yng Nghymru rhwng 1822 a 1919. Mae'r gredo wallus hon am hynt y beichiog dibriod yn amlwg yn un ddigon poblogaidd o hyd, ac rwy'n cofio R Tudur Jones yn dweud mewn darlith ym Mryncroes ryw dro credo mor anghywir a chamarweiniol ydi hi ac nad oedd hi'n hanner mor ddrwg ar ferched beichiog dibriod a mamau dibriod ag yr oedd y darlun diog poblogaidd yn ei gyfleu.

Nid datgan barn oedd Dr Tudur ond dilyn y dystiolaeth. Mae digonedd o honno ar gael yn hwylus iawn yn y cofrestri plwy ac mae'r cyfrifiadau deng mlynedd yn ei chadarnhau. Mae cofrestri bedyddiadau'r ganrif yn gyforiog o'r llythrennau 'b' (bastard) neu 'i' (illegitimate – mwya tebyg y term mwya diawledig o ynfyd a ddyfeisiwyd am ddim erioed) gyferbyn ag enwau'r plantos. Mae hynny ynddo'i hun yn dangos bod gormod o'r genedigaethau hyn i gael rhyw wfft fawr gyfansawdd a hunangyfiawn yn eu cylch fesul un.

Debyg iawn bod eithriadau, a bod achosion o ddrws tŷ fy nhad sydd wedi'i gloi o bryd i'w gilydd, ond mae'n amlwg mai eithriadau oeddan nhw (a gorau po brinnaf). Mae'r syniad o ddiarddel y ferch feichiog ddibriod yn un byd-eang prun bynnag ac yn syniad sy'n ffitio rhamantiaeth ddi-ffrwyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg i'r blewyn. Mae'r defnydd creadigol gorau o ddigon a welais i ohono ar ddiwedd y Kalevala, cerdd epig Elias Lönnrot o'r Ffindir.





Nid y dychymyg dynwaredol a geir yn y cofrestri. O ran y Cyfrifiad, dydi'r pedwar a gynhaliwyd rhwng 1801 ac 1831 o ddim budd, gan na cheir ynddyn nhw ddim ond cyfanswm y boblogaeth a nifer y tai ym mhob plwy. Mae pethau'n fwy diddorol o 1841 ymlaen, gydag enwau a chyfeiriadau pawb, a dydi ddim yn anarferol o gwbl gweld enw plentyn yng nghofrestr bedyddiadau eglwys, hefo'r 'b' neu'r 'i' yn gydymaith gwallgo iddo, a'i gael wedyn yn y Cyfrifiad nesaf yn byw hefo'i fam yng nghartra ei rhieni hi. Ambell dro dydi enw'r fam ddim yna, dim ond y taid a'r nain a'r plentyn, ac eraill o'r teulu fel rheol. Ar yr adegau hyn, mae'n debyg mai dim ond y dychymyg rhamantlyd a fyddai'n dyfarnu bod y fam wedi'i diarddel gan ei theulu ond bod y plentyn yn cael ei arddel. Mae'n fwy na thebyg bod y fam yn forwyn yn rhywle cyfagos ac mai yng nghartref ei chyflogwyr yr oedd hi noson y Cyfrifiad. Mae'n amlwg hefyd nad ydi'r plant yn cael unrhyw drafferth i gael gwaith unwaith y maen nhw wedi tyfu.

Mae gen i gysylltiad personol â'r egwyddor hon. Ddaru fy hen nain yn Nhŷ Hen yn Uwchmynydd ddim mynd i'r drafferth o briodi cyn geni Nain, mwy na ddaru hi ryw bymtheng mlynedd yn ddiweddarach pan gafodd Nain frawd neu hanner brawd bach. Lawn cyn ddifyrred oedd darganfod na ddaru rhieni Taid o'r Dafarn Dywyrch yn Rhoshirwaun fynd i'r drafferth o briodi cyn iddo ynta ddod i bartha'r awyr iach chwaith. Ond pan briododd y ddau, roedd tad Nain wedi dod i'r fei mwya sydyn yn y ffurf 'William Williams (Deceased), Mariner'.

Dim ond enw oedd ar y dystysgrif briodas ei angen – doedd dim angen prawf o fath yn y byd. A doedd o'n ddim mymryn o syndod darganfod nad oedd yr un William Williams a fyddai'n ffitio wedi'i gladdu yn Aberdaron na'r un o'r plwyfi cyfagos yn y cyfnod rhwng geni Nain a'i phriodas. Ond wrth gwrs doedd pawb oedd yn marw ar y môr ddim yn dychwelyd adra i gael ei gladdu. Peth fel'na ydi dychymyg. Marciau llawn i Ellen Jones, cymar William Williams (Deceased).

Yn lled ddiweddar y dois i o hyd i hyn ac mae o wedi bod yn brofiad braf. Yn bennaf oll, mae gwybod mai o bobol fel hyn yr ydw i'n tarddu yn hytrach nag o ryw bwysigion diawl yn ddymunol dros ben.

# Croesair y Llanw



**Ar Draws**

1 Yn fflat drwyddo draw (2,2,3)
4 Ŵy? Be amdano fo? (7)
8 Diffyg gwrando na pharchu neb? Mi gafodd chwaer Nin sioc (13)
9 Roedd ganddo farch a rhywbeth i'w yrru ymaith o'n bro ni i dir arall tawel (5,2-3)
10 Nid yw'n hawdd bod yn rhan o ddirprwyaeth (4)
12 50 yw (a dynes yw) (5)
13 Mae'n hognian yn y gwanwyn fel un bychan, er ella wedi cyrraedd y cant (5,4)
15 O'r hyn a welir, nid yw am suddo (2,2,5)
17 Mae'n fyfïol am ei fod yn cadw'r offeryn (5)
19 Cyn rhwygo? (4)
20 Chwedlau am blentyn, un yn rhoi'r gorau iddi ar ddechreunos (10)
23 Aed â defaid ac ŵyn i'w didoli ger y Bedol, a chael rhywbeth yn eu lle (13)
24 Fel arall, y cyntaf o'r bobol ger y Bedol ac adeiladau eraill (7)
25 Didramgwydd? Perffaith (7)

**I Lawr**

1 Ym mis yr ornest ceir mae'n mynd i'r wlad (9)
2 Hoffter o'r hyn a adlewyrchir yn y drych? (10)
3 Gwneud dim ond ymlacio (5)
4 Cais gan yr hogyn? Be arall? Pawb yn grwgnach? (6,3)
5 Mae Pyrsi a Goronwy wedi cael dyn (4)
6 Dyn, Dan ella, yn cael dim er ei fod yn cymryd sylw (7)
7 Gofidiodd a dihoenodd (5)
8 Sbario cadw (5)
11 Dim yn ffwrdd-â-hi ynglyn â siâp un bedol gam (10)
13 Maent yn dangos sut i gyfansoddi cerdd y dydd am yr aelod (9)
14 Gaenor druan yn dyfod i chwilio am anifeiliaid (9)
16 Yr ysgrifennydd a fu'n mynd i drio colli pwysau (7)
18 Yr amseroedd hynny oedd yn trysori aur a phopeth hardd (5)
19 Mae Marc wedi cyrraedd Bwlch (5)
21 Mae'r amser yn fyr, a heb ddechrau ar waith Homer (5)
22 Dos ar ddeutroed gyda'th gân (4)

*Os ydach chi'n sownd, anfonwch ebost at alunargraig@btinternet.com i gael yr ateb neu'r atebion*

# Teithio yn Ne America

**Ywain Peredur o Benrhos ydy un o'r diweddaraf o bobol ifanc Llŷn i deithio i Dde America. Cafodd daith anhygoel ag iddi ddiwedd annisgwyl. Dyma'i hanes:**

**Hedfanodd** Deio Giatgoch a finnau o Lundain ar y 27ain o Ragfyr i Buenos Aires, prifddinas Yr Ariannin. Cawsom ddeuddydd difyr yno yn crwydro'r strydoedd a gwirioni ar yr adeiladau urddasol o'r 19eg ganrif a'r diwylliannau gwahanol yn dod yn un bwrlwm ynghanol y ddinas.

Dal bws dros nos i lawr i Puerto Madryn sydd yn ddinas hefo traeth mawr hir o'i blaen a thai bwyta yn leinio'r promenâd ond hefyd dyma'r lle y glaniodd y Mimosa ym 1865 a'r ddinas sydd wedi ei gefeillio hefo Nefyn. Roedd digonedd o hanes y Cymry yma a fflagiau a chofgolofnau i'w gweld ar hyd y promenâd. Ymlaen wedyn i Gaiman ar lan yr afon Camwy ac aros mewn lle gwely a brecwast, Plas y Coed, sydd yn cael ei gadw gan Anna, sy'n berffaith rugl yn y Gymraeg. Od iawn oedd ei bod hi yn 40 gradd celsius yna – ac eto cael sgwrsio yn Gymraeg hefo'r bobl leol. Yn y Gaiman roedd yna lwyth o amgueddfeydd bach difyr iawn a thŷ bwyta o'r enw Gwalia Lân, lle cefais y pryd bwyd a'r gwin gora yn Ne America i gyd, a hefyd tafarn Gymraeg o'r enw Y Mochyn-du oedd yn ddifyr iawn!



**Deio Giatgoch a fi wedi heirio beics am y diwrnod ym Mharc Cenedlaethol Los Glaciares ym Mhatagonia.**

Dal bws nos arall ar draws y paith a chyrraedd Trefelin, tref fach arall Gymreig lle y cafon ni de pnawn mor fawr nes ein bod yn cael trafferth codi ar ei ôl! Hefyd ymweld â *museo regional* Molino Andes, amgueddfa hynod o ddifyr am hanes y Cymry ym Mhatagonia gyda llawer o offer hanesyddol yn cael ei arddangos. Yno y taron ni ar Alun Jones oedd yn gweithio yn yr amgueddfa ac a oedd hefyd yn aelod o fragdy Cymreig y Wladfa, Cerveceria Jones & Jenkins, yn ogystal â gweithio hefo cwmni Teithiau Tango. Dyn hynod ddifyr hefo lot o wybodaeth am hanes a sefydlu Y Wladfa.

Ar ôl gwneud y mwyaf o'r diwylliant Cymreig ym Mhatagonia, mi aethom, eto hefo bws, i lawr gyda Mynyddoedd yr Andes i Barc Cenedlaethol y Los Glaciares i wneud dipyn o fynydda a gweithgareddau fel caiacio a beicio mynydd. Pythefnos yno cyn hedfan i brifddinas Chile, Santiago: dinas anferth arall ond ddim hanner mor ddiogel â Buenos Aires. Yma, roedd ymgyrchu a phrotestio a oedd yn troi yn derfysg yn ddyddiol, a hynny wedi bod yn digwydd ers misoedd. Deio a minnau yn anlwcus un diwrnod a chael ein dal yn ei chanol hi, rhwng yr heddlu llawdrwm a'r ymgyrchwyr a bu ond y dim i ni gael ein chwistrellu gan danc a chael ein *tear gasho*!

Roedd deuddydd yn hen ddigon yma, ac yn amser ffarwelio â Deio gan ei fod yn teithio mlaen gyda Siân, ei gariad, i lawr am y de o Santiago. Trefnu wedyn cyfarfod Gareth Roberts o Foduan a oedd eisoes yn teithio De America ers dros 4 mis. Hedfan ato i San Pedro de Attacama, tref fach ar lwyfandir uchel cras yng ngogledd-ddwyrain Chile. Yma roedd pob dim wedi'i wneud o bridd – y tai, y lonydd a hyd yn oed y palmentydd cul. Roedd digon i'w wneud yma, a thaith i weld geisers a nofio mewn ffynhonnau poeth wrth droed-fynyddoedd folcanic yn un o'r profiadau bythgofiadwy.

Y brif daith i'w gwneud o San Pedro oedd cael 4x4 i fynd â ni am dri diwrnod dros anialwch yr Andes i weld llynnoedd lliwgar llawn fflamingos gan orffen yn Bolivia ar y fflats halen anhygoel. Ar un adeg, roeddem 5,000 o fetrau yn uwch na lefel y môr ac roedd yn waith caled iawn anadlu er i ni fod yn eistedd ar ein penolau mewn cerbyd.

Cyrraedd Bolivia ar y 29ain o Ionawr heb ddim cynllun a dechrau dilyn ein trwynau a phenderfynu ar y diwrnod be' i'w wneud a lle i fynd nesa. Mynd mewn bws ar lonydd troellog mynyddig am oriau i gyrraedd un o ddinasoedd ucha'r byd, Potosi. Yma roedd chwarel metelau gwerthfawr anferth, a'r gweithwyr yn byw mewn slymiau ac yn chwarelu heb ddim math o offer iechyd a diogelwch; dim ond caib, rhaw a deinameit oedd ganddynt i dyllu. Dim peiriannau modern ar gyfyl y lle. 40 oed oedd oes y chwarelwyr ar gyfartaledd. Roedd yn agoriad llygad gwirioneddol gweld sut mae'r metelau gwerthfawr sydd o fewn ein ffonau clyfar, tabledi a'n cyfrifiaduron drud yn cael eu chwarelu, a gwerth bywyd y chwarelwyr yn ddim. Yn Potosi mae un o stadiymau pêl-droed ucha'r byd a difyr oedd gweld gêm yno. Y tîm oddi cartref yn chwarae'n dda ond yn gwastraffu eu hamser yn ceisio cael eu gwynt atynt a'r tîm cartref, oedd wedi hen arfer hefo'r uchder, yn medru dal ati er eu bod yn chwarae'n llawer gwaelach.

Ymlaen i Barc Cenedlaethol Toro Toro i gerdded ac yma gwelwyd olion clir traed deinosoriaid. Tirwedd yn llawn ogofâu a'r ceunentydd anferthol yn ddigon mawr a phellennig i'r deinosoriaid ddal i guddio ynddyn nhw. Ffarwelio yma gyda Gareth oedd yn mynd yn ei flaen i Rio yn Brazil i fynd i'r carnifal enwog ond ymlaen i Sucre a arferai fod yn brifddinas Bolivia yr es i, yr unig ddinas lân a thaclus a welais i yn y wlad. Dim un *skyscraper*, dim ond hen adeiladau traddodiadol a Sbaenaidd yr olwg gyda theils coch ar y toeau a waliau gwyn: lle delfrydol i ymlacio a phenderfynais aros yma am bythefnos i geisio dysgu Sbaeneg.

La-paz ydi'r brifddinas newydd, sydd mewn cwm enfawr a'r adeiladau dros ben ac ar draws ei gilydd yn ymestyn o amgylch y llethrau cyn belled ag yr oedd modd gweld. Gan fod cymaint o elltydd a lonydd sâl yn La-paz, roedd system drafnidiaeth car cêbl yn mynd o amgylch y ddinas. Cefais ddiwrnod difyr iawn yn gweld dinas gyfan o ongl wahanol i'r arfer.

Gadewais Bolivia ychydig dros fis ar ôl cyrraedd, drwy gael fferi dros ran o lyn ucha'r byd, Titi Kaka, a chyrraedd dinas Arequipa ym Mheriw. Cefais neges annisgwyl yno gan fy mrawd Dafydd yn dweud ei fod awydd dod ataf am y pythefnos olaf. Hedfan yn syth ato i Lima. Dinas fodern hefo bwytai anhygoel a threulio tridiau yno cyn mynd mlaen i Cusco. Lle llawn twristiaid o bob gwlad. Pawb yn gwneud yr orymdaith i weld hen ddinas goll yr Incas, Machu Picchu. Lle anhygoel ond ei bod hi braidd yn rhy brysur yno.



**Dafydd fy mrawd a finna yn Machu Picchu ar ddiwrnod eithriadol o braf ynghanol y tymor glawiog.**

Ar ôl cael tridau arall yn Cusco penderfynu mynd i orffen y daith mewn pentref bach ar lan y môr oedd 5 awr o hediad i ffwrdd o Cusco. Lle delfrydol gyda bariau a bwytai bwyd môr bendigedig a rhesymol iawn. Ond yn anffodus, ddau ddiwrnod cyn ein hediad yn ôl i Lima i ddal ein hediad adra, aeth y wlad ar locdown llwyr ar y 15fed o Fawrth heb ddim rhybudd oherwydd Covid-19! A buom yn gaeth yn yr hostel yno am 13 diwrnod ychwanegol! Dim sôn am ffordd adra, a dim ond yn cael gadael yr hostel i fynd i fanc neu siop fwyd. Roedd pob dim arall wedi cau gyda milwyr yn gwarchod rhag i neb fynd ar y traeth a heddlu yn gorfodi pawb i wisgo masgiau ar y stryd. Ond, diolch i bawb a ymgyrchodd i deithwyr oedd yn gaeth ym Mheriw gael dod adra, cawsom neges destun am bedwar o'r gloch y bore ar yr 28ain o Fawrth i fynd ar fws – a buom ynddi yn ddi-dor am 20 awr cyn cyrraedd Lima gyda'r heddlu yn ein hebrwng ar adegau. Yr oedd y maes awyr wedi cau, ond mewn parth milwrol ar gyrion y llain cawsom ein hel i mewn i awyren yn sydyn – a'n hedfan yn ôl yn syth i Lundain ar hediad siartredig gan Lywodraeth Prydain. Diwedd od iawn i drip anhygoel: gadael Cymru heb ddim sôn o gwbwl am Covid-19 a chyrraedd yn ôl i locdown a methu gweld teulu na ffrindiau!

**Ywain Peredur**

SAER COED
BOB PARC - 07875892329

# Drws Agored

**Maen nhw'n dweud nad oes byth ddrws yn cau heb fod un arall yn agor. Yn ddiweddar, â chymaint o bobol yn gorfod cau drws eu cartref ar y byd y tu allan, mi wnaeth Esyllt Maelor o Forfa Nefyn a Leusa Jones o Foduan agor drws newydd sydd wedi cynnig cysur i lawer ar adeg mor anodd. Fel 'newyddlen sydd bellach wedi datblygu'n fwy na newyddlen' y mae Esyllt yn disgrifio DRWS, a dyma hi i egluro ymhellach:**

**Rhyfeddol:** dyna'r gair, mae'n debyg, sy'n crynhoi'r ymateb y mae DRWS wedi'i gael ac, a dweud y gwir, wnaethon ni erioed feddwl y byddai wedi cael y ffasiwn ymateb o gwbwl! DRWS digon lleol ar gyfer pobol ardal Nefyn, Morfa, Edern a Cheidio oedd y bwriad gwreiddiol ond gan ei fod ar gael ar e-bost ac ar facebook Morfa ac Edern, mae wedi mynd ymhellach, ac erbyn hyn mae pobol yn cysylltu â ni o bob man.

Bellach, does dim rhaid i ni sgwennu fawr ddim ein hunain; mae'r cyfraniadau yn llifo i mewn a phobol yn cysylltu ac yn rhannu cymaint, ac yn y rhannu mae yna ymestyn allan cwbl arbennig wedi digwydd. Gweld oedden ni fod drysau capeli ac eglwysi wedi cau a bod angen cadw mewn cysylltiad. Fel y dywedwyd yn y rhifyn cynta o'r DRWS, os ydi drws yr adeiladau wedi cau, mae'r eglwys yn agored o hyd a'r gwir amdani ydi mai cymuned o bobol ydi eglwys, nid adeilad nac enwad. Tydi'r DRWS ddim yn cynrychioli unrhyw farn benodol – yr hyn sydd yn cael ei arddel yw ein bod yn parchu ein gilydd ac yn derbyn nad un ffordd sydd yna i gyrraedd copa'r mynydd.

Be ddaw o DRWS wedi i'r fadwch neu'r cyfnod hwn fynd heibio fedra i ddim dweud ond mae un peth yn sicr: fe welwyd cymaint y mae pobol am rannu ac estyn llaw ac mae gonestrwydd y dweud wedi cyffwrdd rhywun. A'r sylweddoliad fod pobol am rannu, am siarad a sgwennu am bethau roedden nhw efallai yn betrus o wneud cyn hyn i gyd. Mae Lusa a minnau am ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu i'r DRWS ac am roi y rwbath hwnnw na ellir ei ddiffinio'n iawn sydd yn ffeind ac yn ein nerthu ni i gyd i ddal ati ar adeg mor ddyrys.

**Esyllt Maelor**

**Os am gael copi o'r DRWS drwy e.bost, cysylltwch ag: esylltmaelor@hotmail.co.uk.**

## Nefyn

**Capel Soar** – Mae'n gyfnod anodd ond gyda'n gilydd a chysylltu efo'n gilydd bydddwn yn goresgyn hyn. Ni fu Soar ar agor ond diolch am wasanaethau sydd ar gael a geiriau i fyfyrio drostyn nhw. Braf yw cysylltu gyda'n gilydd dros y ffôn. Cofiwn hefyd am drigolion mewn cartrefi gofal gyda diolch i'r gweithwyr ac yn wir yr holl weithwyr sydd yn dal ati yn wyneb peryglon y coronafeirws. Ein cofion at bawb sydd wedi ynysu ac hefyd heb deimlo yn rhy dda, a chofion at Alun Jones sydd ar hyn o bryd yn treulio cyfnod ym Mhlas Hafan. Cadwch yn saff.

*(Cysylltydd: Seimon Jones, Menter Llŷn, Stryd Fawr, Nefyn)*

## Morfa Nefyn

**Gwerthfawrogol** - Rwyf yn falch o gael bod yn aelod o bentref sydd wedi dangos cymaint o gymwynasgarwch a charedigrwydd yn ystod y cyfnod dyrys hwn. O'r rheiny sydd yn dosbarthu bwyd ac anghenion eraill, i'r plant sy'n ein llonni wrth inni fynd am dro gyda'u enfysau lliwgar yn y ffenestri ac, wrth gwrs, holl weithwyr allweddol y pentref. Mawr yw ein diolch i chi i gyd.

**Colled** - Cydymdeimlwn â Karen a Dafydd Fitzpatrick, Broc Môr, a'r teulu, ar golli tad a thaid sef Richard Jones (Dic Chwaral), yn ddiweddar.

**Merched y Wawr** - Gawson ni ddathlu Gŵyl Dewi eleni? Oedd y Ganolfan yn llawn dop a ninnau'n mwynhau wrth ddathlu yng nghwmni Merched y Wawr Bryncroes, Nefyn a Phistyll? Gawson ni sgwrsys clên rownd y byrddau yn eu cwmni? Fuon ni'n gwledda ac yn mwynhau pob math o ddanteithion cartref? Yn quiches, yn golslo, yn baflofas a bara brith? Oedd John Glyn wedi dod yno yn ŵr gwadd a siarad am hanes ei yrfa yn ddifyr, ddifyr gan rannu lluniau oedd yn llawn atgofion a straeon oedd yn dal sylw pawb? Wnaeth Ann ac Esyllt wneud y diolchiadau a sgwn i aeth yna griw wedyn i glirio a rhannu'r cennin Pedr oedd wedi'u gosod yn ddel ar y byrddau rhwng pawb? A fuo 'na griw diwyd yn golchi llestri yn y gegin wedyn?

Wnaeth hyn i gyd ddigwydd go iawn? Breuddwyd oedd hi mae'n siŵr, ond breuddwyd oedd yn gwneud i chi deimlo'n gynnes braf. Breuddwyd oedd yn gwneud i chi feddwl ar ôl deffro y dylai rhywun werthfawrogi noson fel yna yn y modd mwyaf, yn enwedig y dyddiau yma.

*(Cysylltydd: Manon Llywelyn Williams Ffôn: 720632)*

## Ceidio

**Genedigaeth** - Llongyfarchiadau i Jôs a Meinir, Giatgoch ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd hogyn bach, Noa Llŷr, i Gareth a Swyn yng Ngharmel.

**Y Capel** - Pleser oedd cerdded heibio'r capel yn ddiweddar. Mae'r blodau mae Stan a Gwenno wedi eu plannu yn edrych mor dda a phob man mor daclus. Diolch iddynt am eu gwaith caled.

*(Cysylltydd )*


**Tŷ ar Osod**

Tai Charles Jones (Elusendai)
Llangybi

Eiddo ar osod i breswylwyr newydd am gyfraniad rhad. Yn cynnwys un ystafell wely, ystafell folchi, lolfa a chegin.

*Am fwy o fanylion, ffoniwch*
01766 819186 (ar ôl 6y.h)


## Llyfrgelloedd Gwynedd ar gael o hyd

**Y**dych chi'n gweld colled heb eich llyfrgell leol? Wel, diolch i'r dechnoleg mae modd lawrlwytho pob math o adnoddau gan Lyfrgelloedd Gwynedd ar-lein.

O ganlyniad i *Covid-19*, fe fu'n rhaid i lyfrgelloedd a mannau cyhoeddus gau. Ond, diolch i'r cynnig digidol sydd ar gael trwy Lyfrgelloedd Cymru, mae modd cael gafael ar bob math o adnoddau am ddim trwy unrhyw ddyfais sydd gennych wedi'i chysylltu â'r we - er enghraifft e-lyfrau, e-lyfrau llafar trwy Borrowbox, e-glychgronau ac e-gomics trwy RB digital a gwefan hel achau ancestry.



Gallwch weld popeth sydd ar gael trwy ymweld â: www.gwynedd.llyw.cymru/catalogllyfrgell ac yna dilynwch y cyfarwyddiadau perthnasol.

Cofiwch bod angen bod yn aelod o'ch llyfrgell yn gyntaf! Ond mae ymaelodi yn broses syml ar y wefan ac yna gallwch gael mynediad at yr holl adnoddau digidol.

**Datganiad i'r wasg**

## Llannor

**Barod i helpu** - Gobeithio bod pawb yn ymdopi yn ystod y cyfnod anodd yma. Dan ni yma i help ein gilydd, felly os oes 'na rhywun angen cymorth i nôl siopa, meddyginiaeth neu isio sgwrs, cysylltwch efo ni ar dudalen Llannor ar *Facebook*.

**Codi calon** - Diolch yn fawr i bwy bynnag sy wedi rhoi'r calonnau bach yma ar hyd y lonydd rhwng Llannor ac Efailnewydd. Mae 'na lot o bobl wedi cael mwynhad yn chwilio amdanyn nhw wrth fynd am dro. Wedi ffeindio 20 hyd yma, - oes rhywun wedi gweld mwy?




**I godi ein calonnau**

**Cofiwch** anfon unrhyw newyddion sgynnoch chi ar gyfer rhifyn mis nesa.

*(Cysylltydd: Eluned Croydon Ffôn: 612187; e-bost elunedcroydon@gmail.com )*

# Dysgwyr Dwyfor

**Croeso** i golofn gyntaf Dysgwyr Dwyfor yn y Llanw ar-lein! Mae'n braf medru rhannu be sy wedi bod yn digwydd ym myd dysgu Cymraeg ardal Dwyfor yma. Mae'n amser anodd i lawer o bobl wrth gwrs ond 'dan ni wedi trio dal ati efo'r dosbarthiadau a digwyddiadau eraill i bobl ddysgu cymaint â phosib ac er mwyn cadw rhyw fath o 'normalrwydd' yn ystod y cyfnod yma.

**Dosbarthiadau ar-lein**

Mae bron bob dosbarth yn yr ardal ar Skype erbyn hyn. Mae cysylltiadau drwg i'r we a dysgu sut i ddefnyddio rhaglenni newydd fel Skype wedi bod yn heriol i lawer ond mae 'na ganran dda o bob dosbarth yn ymuno â sesiynau ar-lein – diolch i bawb, y dysgwyr a'r tiwtoriaid am fod mor barod i wneud y newid yma.



**Cefnogi Dysgwyr**

Rhan bwysig o ddysgu Cymraeg ydy'r gefnogaeth sy ar gael y tu allan i'r dosbarth. Wrth gwrs, dydy pobl ddim yn gweld llawer o bobl eraill ar hyn o bryd, felly mae ymarfer be dach chi wedi'i ddysgu yn medru bod yn anodd. Mae ein grŵp Facebook wedi bod yn ffordd hawdd i gadw mewn cysylltiad a chael rhyw fath o 'sgwrs'. Hefyd 'dan ni wedi cael dau gwis ac wedi dechrau sesiwn 'Panad a Sgwrs' wythnosol er mwyn ymarfer siarad yn y ffordd orau 'dan ni'n medru ar hyn o bryd! Diolch i bawb sy wedi helpu yn y sesiynau yma.

**Awydd helpu?**

'Dan ni'n chwilio am siaradwyr Cymraeg i helpu yn ein sesiynau 'Panad a Sgwrs'. 'Dan ni'n cyfarfod am un o'r gloch dydd Iau am tua hanner awr, ac ar ôl dweud helô mewn grŵp mawr, mae pawb yn cael eu rhannu mewn grwpiau bach o 3 neu 4 i sgwrsio am weddill y sesiwn. Mi fydd 'na 'syniadau sgwrsio' bob tro ar gael os oes angen, ond yn ôl be sy wedi digwydd hyd yn hyn, does dim angen help o ran cadw pobl yn siarad! Os dach chi ar Skype a bod gynnoch chi ddiddordeb mewn cael sgwrs ddifyr am hanner awr bob hyn a hyn (does dim rhaid ymrwymo i bob sesiwn), mi faswn i'n ddiolchgar iawn am eich cefnogaeth. Anfonwch e-bost ata i (m.croydon@bangor.ac.uk) os gwelwch yn dda.

**Martyn Croydon**

**Geirfa:**

| | |
|---|---|
| Awydd | Desire |
| Canran | Percentage |
| Cysylltiadau | Contacts,connections |
| Gweddill | Remainder |
| Heriol | Challenging |
| Ymrwymo | To commit |

# Cwestiwn nesa!

**Owain Jones, Castellmarch, Abersoch fu'n ateb cwestiynau Llanw Llŷn y tro diwethaf, ac mae o wedi dewis Llio Mererid o Nefyn i'w hateb y mis hwn. Dyma i chi Llio i gyflwyno ei hun:**

Helo! Llio dw i, yn wreiddiol o Nefyn ond bellach ar fy mlwyddyn olaf yn astudio Ffrangeg a Sbaeneg yng Nghaerdydd. Yn ogystal â ieithoedd, dw i'n hoff o gerdded, trafeilio, sgwrsio, sgwennu a mygs mawr o de.



Llio

**1. Beth yw eich atgof cyntaf?**
Ogla coginio tŷ Nain Rock House a chael bwyta jam roli-poli Sali Mali yn ffres o'r popty.

**2. Pa dri lle sydd bwysicaf i chi?**
Mainc bellaf ar Ben-peryn Nefyn, Parc Biwt yng Nghaerdydd, Chambéry.

**3. I ble fyddwch chi'n mynd ar eich gwyliau?**
Alla i ddim dweud 'mod i wedi mynd yn rhy bell yn ddiweddar (!) ond y tro diwethaf i mi fynd i ffwrdd, mi wnes i gerdded 400km o'r Camino de Santiago – felly rhywbeth gweddol *active*!

**4. Beth sy'n gwneud i chi chwerthin?**
Llawer o bethau di-bwrpas ond tydi fideo King Curtis oddi ar Wife Swap erioed wedi peidio gwneud i mi chwerthin.

**5. Pryd oedd y tro diwethaf i chi grïo?**
Ddoe, ar ddiwedd DIY SOS.

**6. Pa fath o gerddoriaeth ydach chi'n ei hoffi, ac ydach chi'n berson cerddorol eich hun?**
Dw i wastad ar Spotify yn gwrando ar gerddoriaeth ond does gena i ddim tâst penodol: mi alla i fod yn gwrando ar Bwncath, Moana a Hall&Oates o fewn 10 munud i'w gilydd. Mi wnes i ddysgu sut i chwarae piano ers talwm ond nes i ffonio'r athrawes pan o'n i tua 9 oed i ddweud nad oeddwn i am ddod i'r gwersi ddim mwy gan nad oeddwn i'n ymarfer digon.

**7. Oes yna rywbeth sy'n codi arswyd arnoch chi?**
Dim felly ... ond mae'n hawdd iawn fy nychryn i os ydych chi'n cerdded rownd y gornel heb i mi wybod.

**8. Oes gennych chi uchelgais, neu oes yna rywbeth y byddech chi'n hoffi ei wneud yn y deng mlynedd nesaf?**
Mae meddwl gormod am y dyfodol yn gwneud i mi deimlo'n reit ansicr ond beth bynnag fydda i'n wneud dros y deng mlynedd nesaf, dw i'n gobeithio y bydda i'n hapus.

**9. Beth sydd wedi achosi'r embaras mwyaf i chi?**
Gollwng rhech a rhoi'r bai ar gadair a theimlo embaras pan doedd neb yn fy nghoelio fi.

**10. Maen nhw'n dweud fod pobol yn dewis anifeiliaid anwes sy'n debyg iddyn nhw. Oes gennych chi anifail anwes? Pa fath?**
Dim anifail anwes fy hun, ond dw i wrth fy modd yn sboilio, rhoi mwytha a mynd â Llew – ci fy chwaer – am dro. Yn sicr am gael ci fy hun o fewn y deng mlynedd nesaf.

**11. Pa un yw eich hoff raglen deledu?**
Ers locdown, dw i wedi bod yn gwylio lot mwy o deledu nag arfer ond yn mwynhau Brooklyn 99, The Good Place a wir wedi mwynhau The Stranger.

**12. Sut fyddwch chi'n treulio eich oriau hamdden?**
Yn y gegin, ar fy meic, gyrru *voice notes*, gwrando ar bodlediau neu ddarllen tudalennau Wikipedia.

**13. Mae Llywodraeth Cymru angen help i redeg y wlad. Pa gyngor fyddech chi'n ei roi i Mark Drakeford?**
*Keep calm and carry on.*

**14. Beth sy'n dân ar eich croen?**
*Worktops* budr.

**15. Beth fyddai eich swydd ddelfrydol?**
Ha! Cwestiwn da.

**16. Ydach chi'n siopa ar y we, ac os ydach chi, pa fath o bethau fyddech chi'n eu prynu ar y we?**
Dw i'm yn un i siopio a dweud y gwir, ond mae cael llyfrau oddi ar Amazon yn handi.

**17. Ydach chi wedi rhoi lliw yn eich gwallt erioed?**
Na.

**18. Oes gennych chi datŵ neu fyddech chi'n cael un? Os felly, tatŵ o beth?**
Na. Mae unrhyw berson sy'n fy adnabod i'n gwybod 'mod i'n cymryd hydoedd i benderfynu unrhyw beth, felly beryg iawn na cha i'r un byth.

**19. Pwy ydi'r person mwya diddorol ydach chi'n/wedi ei adnabod?**
Cwestiwn anodd... dw i wrth fy modd yn sgwrsio a chlywed hanes bywyd ffrind neu ddieithryn, felly dw i'n reit ffodus 'mod i wedi cyfarfod ac yn adnabod dipyn o bobl ddiddorol.

**20. Beth ydi'r peth gorau sydd wedi digwydd i chi erioed?**
Dw i'n reit lwcus bod yna lot o *mini-wins* wedi digwydd yn ystod fy mywyd hyd yn hyn ond roedd byw yn Chambéry a chael cyfle i fynydda, beicio a gwneud ffrindiau Erasmus yn gyfnod arbennig o hapus i mi.

**Mae Llio wedi dewis yr un i ateb cwestiynau Llanw Llŷn y mis nesa yn barod. Cewch wybod pwy yn rhifyn mis Mehefin.**

# Gwella eich Sgiliau o Gysur eich Cartref

**Yn** ystod yr amser digynsail hwn, mae cynhyrchu a dosbarthu digidol wedi dod yn ffordd o fyw i'r mwyafrif ohonom gyda bron pob cyfathrebiad cymdeithasol a phroffesiynol yn cael ei gynnal drwy sianeli digidol. Cyn argyfwng Coronafeirws, fe dderbyniodd prosiect Cynhyrchu Cyfryngau Uwch gyllid gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru i gefnogi busnesau a sefydliadau Cymru i aros ar flaen y gad o ran datblygiadau yn y diwydiant digidol a chyfryngau. Prif amcan y prosiect hwn yw cefnogi cwmnïau a sefydliadau Cymru drwy ddarparu hyfforddiant rhad ar dechnoleg a datblygiadau newydd yn y meysydd cynhyrchu digidol a chyfryngau. Ychydig a feddyliom y byddai'r fenter hyfforddi arbenigol hon yn dod yn hanfodol i helpu busnesau a sefydliadau i amddiffyn eu hunain rhag effaith argyfwng Coronafeirws.

Trwy gydweithio gyda Phrifysgol Aberystwyth, cyflwynir ein hyfforddiant mewn fformat hyblyg sy'n ymateb i'r diwydiant ac sy'n galluogi i fyfyrwyr weithio drwy ddysgu o bell â chymorth i ddiweddaru eu gwybodaeth dechnegol; i wreiddio diwylliant ymchwil yn y gweithle ac, os dymunant, i weithio tuag at gymwysterau ôl-raddedig wedi'u teilwra i anghenion eu diwydiant. Gan fod y cynllun wedi cael cefnogaeth Cronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru gallwn gynnig hyfforddiant ar lefel Meistr i fusnesau / gweithwyr ar gyfradd â chymhorthdal mawr o £165.00 y modiwl fesul gweithiwr: mae modiwlau o'r lefel academaidd ac arbenigedd hyn fel arfer yn costio hyd at £1,000.00, felly mae hwn yn arbediad sylweddol. Gellir cyflwyno'r modiwlau drwy gyfrwng y Gymraeg, y Saesneg neu'n ddwyieithog.

Dyluniwyd ein rhaglen, sydd ar-lein i raddau helaeth, i ganiatáu i fyfyrwyr astudio heb yr angen i gymryd amser o'r gwaith ac mae'n ddigon hyblyg i ffitio astudio o amgylch gwaith ac ymrwymiadau eraill. Un sefydliad sydd eisoes wedi cymryd mantais o'r cynnig hwn yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru, fel yr eglura Annwen Isaac, Rheolwr Adnoddau Dynol y Llyfrgell:

"Rydyn ni'n ymwybodol bod angen hyrwyddo ein gweithgareddau drwy amrywiaeth o sianeli digidol ac mae'n ddisgyblaeth sy'n esblygu'n barhaus. Mae'r cyfle hwn i hyfforddi yn rhoi gwell offer a sgiliau i'n staff er mwyn iddyn nhw allu hyrwyddo gwaith y Llyfrgell ar blatfformau digidol mewn ffordd fwy creadigol ac arloesol, ac mae hefyd yn cyfrannu at eu datblygiad personol parhaus".

Am ragor o wybodaeth am y rhaglen a'r meini prawf cymhwyso, cysylltwch â'r tîm Cynhyrchu Cyfryngau Uwch ar 07939 203938 neu ccu-amp@aber.ac.uk neu ewch i: amp.aber.ac.uk.

**Elin Mair Mabbutt**

## Abersoch

**Rhedwn** wrth glywed yr udo tawel,
I'n tai ac ymguddio;
Daw helgwn Annwn heno
O'r awyr i frathu'r fro.
(o 'Cyn y Storm' Arfon Williams)

Ond cofiwn hefyd:
Cariad
Mae hen haint, sef mam yr heintiau i gyd,
Sy'n gadael effeithiau
Hyll o'i hôl, ac i'w gwellhau
Cariad yw'r ffisig gorau.

Cyn yr aflwydd bu cryn ddathlu gŵyl ein nawddsant.

**Y Gymdeithas** - Cyfarfu yr aelodau yn Nhafarn yr Haul yn Llanengan ar Fawrth yr ail. Cafwyd pryd o fwyd ardderchog ymysg ffrindiau. Yna cyflwynodd Wyn, Llwyn, y wraig wadd, Gwenan Gibbard. Cafwyd noson ardderchog yn gwrando arni yn canu alawon gwerin ac yn chwarae'r delyn mor ddeheuig. Mwynhaodd pawb.

**Merched y Wawr** - Nos Fercher, Mawrth 4 bu'r aelodau yn dathlu Gŵyl Dewi yn y Neuadd. Cafwyd gwledd o gawl, cacen afal, bara brith a chacennau wedi eu paratoi a'u gweini gan Carol, Neigwl Plas a Lea. Cyflwynwyd y côr gwadd, Monswn, gan y llywydd Jean, Llwyn, a chafwyd noson ardderchog o wrando ar ganeuon Cymraeg a Chymreig. Roedd pawb wedi dotio, yn enwedig ar y cyfeilydd a'r arweinydd ardderchog.

Enillwyd y raffl a roddwyd gan Jean, Mair, Di Barratt, ac Anna gan Elin, Ty'n Morfa, Sarah o Bwllheli a dau berson arall.

Cyn y gorchymyn i hunan-ynysu aeth Jean, Llwyn a Joan, Creigir Goch, Iola ac Anna i chwarae gemau bwrdd i Neuadd Chwilog. Er mai colli wnaeth Iola ac Anna ar y Sgrabl a Jean a Joan ar chwarae cardiau, cafwyd pnawn difyr ymysg cyd-aelodau.

**Bore Panad** - Yn ein cyfarfod fis Mawrth i ddathlu Gŵyl Dewi cafwyd cyngerdd ardderchog gan blant Ysgol Abersoch a phawb wedi mwynhau.

Yn ystod y mis gyda grant gaeaf *Age Cymru* aethom gyda O Ddrws i Ddrws am Bontnwydd (Canolfan *Age Cymru*) a chael cinio bendigedig. Wedyn ymlaen â ni i'r Galeri, Caernarfon lle cawsom gyngerdd Tonic gyda chorws CCC.

Bu rhai hefyd yn ymweld â Neuadd Dwyfor i weld y ffilm Parasite a enillodd sawl Oscar. Oherwydd y feirws difrifol ni fu cyfarfodydd yn Ebrill. Cadwch yn saff ac os oes angen unrhyw neges, cofiwch gysylltu gyda siopau Abersoch. Mae'n nhw i gyd yn barod i roi cymorth trwy ddod â neges i ddrws eich tŷ. - H.Wyn Williams

**Gwellhad buan** i Eric, Cwmafon sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Daw eto haul ar fryn, Eric.

**Adref** - Croeso adref i Joan, Aberafon ar ôl cyfnod hir yn yr ysbyty. Da dy weld adref, er na chawn ymweld eto.

**Tristwch** – Collodd 'Rabar un o'i hanwylaf ar Ebrill 9. Bu farw John Eifion Griffith yn Ysbyty Gwynedd. John Eifion, John Star, John Court, John Craigafon, John Tŷ Capel – dyn â sawl enw, ond gŵr i Gwenda, tad i Jonathan a Linda, a thaid a hen-daid. Roedd John yn cefnogi bob dim yn ei fro, o gymdeithas i gyngerdd, o fowlio i golff. Bydd chwithdod mawr yng Nghapel y Graig ar ôl ei lais tenor tlws, am y storïau doniol a'r ddawns yn ei lygaid. Daeth y gnoc yma i'r teulu ychydig wythnosau ar ôl colli Rhun, ei ŵyr.

**Cau bob man** - Ers y rhybudd am gadw pellter mae'r Rabar yn wag. Mi welaf bob dim a phawb o ffenest y gegin. Hawdd iawn oedd adnabod dieithriaid - trowsus cwta, sbectol haul, hufen iâ, ceir mawr crand a dau neu dri o gŵn. Diolch byth fod y meysydd carafanau ar gau a chwarae teg i'r perchnogion am fod mor ystyriol. Dim peth hawdd yw troi cefn ar incwm, mae'n siwr. Diolch yn fawr i'r holl gymdogion sydd mor barod i helpu.

Yn bersonol, rhaid i mi ddiolch i Siop Talafon am ddod â neges i mi. Ond dyna fo, fanno bydda'i yn gwneud fy neges drwy'r flwyddyn.

Mae hi yn wanwyn ac ella caiff yr hen Ddaear yma amser i ddod ati'i hun yn lle ein bod ni yn ei hambygio'n feunyddiol.

*(Cysylltydd: Anna Jones, Y Daflod, Abersoch Ffôn- 712243)*




**Ar y ffordd o Bwllheli am Abererch – 'Daw haul ar fryn eto'.**

TEITHIAU
WONDERLING
TRAVEL
12 Y Maes : Pwllheli
Gwynedd LL53 5HD
01758 703 194
sales@wonderlingtravel.co.uk
www.wonderlingtravel.co.uk

**Siop & Garej Morfa** - ***eich siop un stop***
CIG OER • CIG FFRES • PASTAI • CACENNAU • FFRWYTHAU A LLYSIAU • PAPURAU NEWYDD A CHYLCHGRONAU
SIOP DRWYDDEDIG • PEIRIANT ARIAN • E-LENWI FFÔN • LOTERI IECHYD
DIESEL • PETROL • NWY • GLO • COED TÂN • GOLOSG BBQ
COFFI RIJO • CAFFI PITSIOP • COWNTER PITSA
**01758 720219 • Agored 7yb - 9yh • parcio am ddim**
Lôn Terfyn, Morfa Nefyn LL53 6AP siopagarejmorfa@gmail.com www.facebook.com/siopagarejmorfa

## Llangian

**Mae** gan Meinir Gwilym gân yn cynnwys y llinell 'be ti di neud, lle ti di bod – dim byd a nunlle' a felly mae hi'n teimlo wrth drio cofnodi 'newyddion' Llangian yn ystod y cyfnod dyrys yma.

**Ond** er nad oes cymdeithasu torfol wedi digwydd dros yr wythnosau dwytha, fel mewn llawer man arall, mae yna ddigon o gysylltu wedi bod rhwng pobl. Mae'r siop, fel erioed, yn ganolbwynt yr ardal gyda Luned a Rhys yn gweithio'n galed i sicrhau fod ganddo' ni bob dim ryden ni ei angen ac mae ein diolch iddyn nhw, ac i'w cyflenwyr, yn aruthrol. Mae yna lawer o sgyrsiau 'o bell' wedi digwydd rhwng pobl sy'n cerdded neu feicio ar hyd ffyrdd tawel yr ardal a phawb yn cytuno ein bod yn ffodus i fyw mewn lle mor braf. Mae gerddi'r pentre yn ffynnu yn y tywydd braf, a'r coed ceirios wrth yr eglwys yn werth eu gweld fel arfer.

Ond er ein bod yn gwerthfawrogi tawelwch a harddwch yr ardal a'r tywydd, mae realiti'r sefyllfa yn fyw iawn i ni hefyd; mae pawb naill ai yn adnabod rhywun sydd wedi ei effeithio gan y salwch, neu yn poeni am rhywun o fewn eu cylch teulu, ffrindiau a chydnabod, ac ychydig filltiroedd oddi yma yn Abersoch mae 'na alar am un annwyl sydd wedi ein gadel yn rhy fuan.

Rhyw ddeuoliaeth ryfedd felly sydd yna i ni gyd gyda phawb yn gobeithio y bydd y sefyllfa yn cael ei datrys yn fuan heb fwy o golledion.

**Rydym** yn anfon ein cofion at Siân, Bryn Llywelyn a Gwyneth (Tŷ'r Gof, gynt) yn dilyn marwolaeth eu mam, Catherine Naden, ar ôl cyfnod hir o salwch.

Ond wrth gymdymdeimlo â nhw a'r teulu ehangach, mae yna hefyd newyddion da i'r teulu gyda genedigaeth mab bach i Dafydd Gwyn (ŵyr Mrs Naden) a Tesni, Ty'n Mur. Croeso mawr i'r bychan, a diolch am gael gorffen ar nodyn mor hapus.

*(Cysylltydd:Gwenan Gruffydd, Hen Dŷ 713534)*

## Llanengan

**Carreg filltir** - Dathlu ei ben-blwydd yn 40 wnaeth Robin, Ty'n Llwyn. Mawr obeithio y cei ddathliad go iawn ar ôl i'r argyfwng basio.

**Brysiwch wella** - Mae rhai yn ein mysg wedi bod yn cwyno'n ddiweddar, felly dymunwn wellhad llwyr a buan i chi gyd.

**Gwerthfawrogiad** - Mae sawl un ohonoch yma yn weithiwr allweddol a hoffem ninnau fel cyd-bentrefwyr ddiolch i chi gyd am eich gwasanaeth.

**Os** ydych yn dilyn CÔR ONA ar y wefan gymdeithasol fe fyddwch wedi gweld Dewi, Cesail y Coed, yn canu ac wrth wneud hynny yn codi ychydig ar ein hysbryd ni ar adeg mor anodd.

**Cofiwch** gadw at reolau'r llywodraeth, - dim trafaelio diangen, cadw pellter rhyngddom, a chofiwch olchi eich dwylo, ac yn bennaf oll cadwch yn saff.

*(Cysylltydd: Helen Evans, Dwylan. Ffôn: 712149 e-bost evans.dwylan1@hotmail.com)*

## Llanbedrog

**Genedigaeth** - Llongyfarchiadau i Gwyneth Jones, Awelfryn ar ddod yn nain, a Mared yn fodryb; ganed mab, Nedw, i Dafydd a Tesni ar Ebrill 29.

**Colledion** - Trist oedd clywed am farwolaeth Catherine Naden. Pob cydymdeimlad i Sian, Yvonne, Gwyneth, Anna a'r holl deulu.

Ar Ebrill 24 bu farw Mr Bill Parry, Trem Eryri. Ein cydymdeimlad â'i wraig Jean a'r holl deulu yn eu profedigaeth.

**Gwerthfawrogol** - Braf iawn yw gweld cymaint o drigolion y pentref yn dod allan i roi cymeradwyaeth i weithwyr y Gwasanaeth Iechyd bob nos Iau yn ddiweddar er mwyn diolch iddynt am eu gwaith caled. Diolch i Carwyn, Bryn Bela am chwarae'r corn.

**Arwyddion o'r amserau** - Diolch i'r hybarch Andrew Jones am roi'r gerdd '*And People Stayed Home'* gan Kitty Meara ar y bwrdd ger porth yr eglwys er mwyn i bobl ei darllen wrth fynd heibio am eu tro dyddiol. Braf hefyd yw gweld cerrig wedi eu peintio yn lliwgar yn cael eu gosod o amgylch y pentref yn ddiweddar, - ffordd wych o godi calon yn ystod y cyfnod dyrys yma.



**Dathlodd Emma Jones, Llanbedrog ei phen-blwydd yn gant ar Fawrth 14 yng nghwmni teulu a ffrindiau yn nhafarn Glyn y Weddw ac ar y Sul canlynol cafwyd gwasanaeth arbennig yn eglwys Sant Pedrog ble mae Mrs. Jones wedi bod yn aelod ffyddlon ar hyd y blynyddoedd. Magwyd hi yn y pentref ar ôl i'w theulu symud yma o Cumbria pan oedd yn wyth oed. Cafodd ei haddysg yma, bu'n gweithio yn yr ardal a phriododd â Gerald Madoc Jones gan fagu pedwar o blant yma, Tom, Jim, Mary a Geraldine. Erbyn hyn mae'n nain i naw a hen-nain i ddau ar bymtheg.**

Llun: Dewi Wyn

**Cymorth** - Mae aelodau Cyngor Cymuned Llanbedrog ar gael i'ch helpu yn ystod y cyfnod anodd yma. Gallwch gysylltu gyda:
Iwan Hughes: 07899 954 031
Greta Hughes: 01758 740 009
Claire Russell: 07917 680 038
John B Jones: 07775 577 869
Barbara Warren: 01758 740 947
Andrew Parry: 07821 184 894
Evan Glyn Thomas: 07973 661 943
Os nad ydych yn siŵr â phwy i gysylltu am unrhyw wasanaeth, yna cysylltwch â'r Clerc, Rhian Parry: 07748 906 651

**Gobeithio** fod pawb yn cadw'n ddiogel.

(*Cysylltydd: Elen Hughes, Derlwyn. Ffôn: 740196* )


Oriel PLAS GLYN-Y-WEDDW Llanbedrog



Ar hyn o bryd mae'r Plas ar gau oherwydd Covid-19. Mae'r arddangosfa i'w gweld ar ein gwefan www.oriel.org.uk a mae'n bosib prynu gwaith celf ar ein siop arlein. Os y bydd unrhyw newid yn y sefyllfa fe fyddwn yn hysbysu ar y wefan a'r cyfryngau cymdeithasol. Cofion atoch oll gan bawb yn y Plas.

**Delweddau uchod:**
'Tryfan' - Aled Prichard-Jones
'Yr Eifl' - Josie Russell

Ar gau ar ddydd Mawrth tu allan i wyliau ysgol

www.oriel.org.uk enquiry@oriel.org.uk
01758 740763


## Holiadur Iaith - cyfle i ddweud eich dweud

**T**ra bod cyfnod anodd ac ansicr o'n blaenau oherwydd argyfwng Coronafeirws, mae Menter Iaith Gwynedd yn edrych ymlaen i'r dyfodol ac eisiau barn y cyhoedd wrth gynllunio ei rhaglen waith. Wrth weithio i gynyddu'r defnydd o'r iaith yng nghymunedau Gwynedd, mae Hunaniaith - Menter Iaith Gwynedd - yn cynnal arolwg er mwyn cael barn y cyhoedd am yr hyn y dylid ei wneud er mwyn hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir.

Fel y sir sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg, mae gan Wynedd rôl allweddol i'w chwarae yn ffyniant a dyfodol yr iaith.

Pwrpas Hunaniaith ydi hyrwyddo a chynyddu defnydd o'r Gymraeg o fewn teuluoedd, plant a phobl ifanc ac mewn cymunedau ar draws y sir drwy gynnal prosiectau, gweithgareddau a chydweithio gyda grwpiau, sefydliadau ac ysgolion.

Mae'r fenter iaith yn awyddus i gasglu syniadau newydd am yr hyn yr hoffent ei weld yn ystod cyfnod anodd y Coronafeirws yn ogystal â'r dyfodol ac am gyflwr a defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Gwynedd.

I gymryd rhan yn yr arolwg, ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/ymgynghori - bydd yr holiadur ar agor tan Mehefin 26, 2020.

**Datganiad i'r wasg**

## Llaniestyn

**Merched y Wawr** – I ddathlu Gŵyl Ddewi eleni daeth criw bychan o genod ifanc Alawon Llŷn atom. Diolch i Nerys a Doris am drefnu'r noson ac i'r holl aelodau am y bwyd bendigedig.

**Cydymdeimlwn** â theulu Tanrallt, Selwyn a Rosie a theulu Tai Cyngor yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen-nain annwyl iawn, Wenna, Mellteyrn, Sarn.

Ein cydymdeimlad hefyd â theulu Rhosgoch yn eu profedigaeth o golli chwaer annwyl iawn, Eifiona, Llanfaglan.

**Gwellhad buan** i Betty, Rhos Palmant a Catrin, Preswylfa ar ôl llawdriniaethau yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau** i Rhys a Haf, Cefngaer ar enedigaeth John Wyn, brawd bach i Morys.

**Newyddion lleol** – Os oes gennych unrhyw newyddion i'w roi yn y Llanw yna cofiwch adael i mi wybod.

*(Cysylltydd: Mair Jones, Gwelfor Ffôn: 730451)*

## Rhoshirwaun

**Clwb misol y Neuadd** – Enillwyr Chwefror oedd Sioned Thomas, Y Rhiw; Wendon Jones, Hari Jones, Rhoshirwaun, y ddau; Mari Davies, Sarn; R.J. Williams, Rhoshirwaun.

A dyma enillwyr Mawrth: Iain Roberts, Aberdaron; Arwel Evans, Tegid Roberts, Rhoshirwaun, y ddau; Medwyn Williams, Aberdaron; Gareth Jones, Rhoshirwaun.

*(Cysylltydd: Rhian Roberts, Rhianfa, Rhoshirwaun 760271)*



**Rhoshirwaun – Pedwar cais syml: 'Bydd yn ddewr, hapus, garedig, bodlon'**

Llun: Dafydd Iocws


ADEILADWR

CW

Cian Williams

01758 760454 / 07854 172096



HUWS GLASS

Lon Dywod, Pwllheli LL53 5HP

Torri gwydr - Gwydr cryf - Torri drychau - Adnewyddu unedau ffenestri gwydr dwbl - Gwydr balconi - Gwydr tŷ gwydr

01758 613033

07790 437455

huwsglass@gmail.com


## Garnfadryn

**Cydymdeimlwn** â theulu Tir Tlodion yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen-nain annwyl iawn, Wenna, Mellteyrn, Sarn, ac â Doris, Cefndu a Gwyneth, Tanffordd ar golli chwaer-yng-nghyfraith.

**Gwellhad buan** i Teresa, Cae Berllan ar ôl ei llawdriniaeth.

**Llongyfarchiadau** i Gwyneth, Tanffordd ar ddod yn hen-nain. Ganwyd Leusa Ifan yn Llanbedr Pont Steffan.

*(Cysylltydd: Mair Jones, Gwelfor, Llaniestyn Ffôn: 730451)*


Bwyty a Bar

Clwb Golff Nefyn

- Brecwast
- Prydau amser cinio
- Tê Prynhawn
- Cinio Nôs
- Cinio Sul

Croeso cynnes i bawb

- Partîon Preifat
- Cinio Nadolig
- Lleoliad Priodas ynghyd â thrwydded

Clwb Golff Nefyn

01758 720966



Cynnig GOFAL PLANT CYMRU

Addysg Gynnar a Gofal

30 awr yr wythnos o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y Llywodraeth i rieni cymwys sy'n gweithio ac sydd â phlant tair a phedair oed, a hynny am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.

Ar gael yn

Gwynedd a Môn

01248 352436

gofalplant30awr@gwynedd.llyw.cymru



Ffotograffydd

Eryl Jones

Priodasau, portreadau ac ati

Cysylltwch am fanylion ac esiamplau

01766 810683

eryljones@outlook.com

Gwalia, Chwilog

Gweplyfr:- Eryl Jones Ffotograffydd




**Bydd pawb yn cofio blodau eithin y gwanwyn rhyfedd hwn.**

Llun: Elin Gruffydd


Eiddo susan jones

Os am

WERTHU neu BRYNU

Tŷ, Busnes neu Dir Amaethyddol.

Gwasanaeth 7 diwrnod yr wythnos.

Y dull "NEWYDD" o werthu

www.SusanJones.Cymru

Susan@SusanJones.Cymru

01758 614511/07787124587



Dyluniadau Georgia Faye

Studio 5 Aberuchaf, Abersoch

Atgelion Cartref

Llenni a bleindiau

Polion a traciau

Clustogwaith

Dodrefn

Ffôn 07521816968



llechen llŷn cyf

Yr Iard Lechi

Cefn Traeth

Pwllheli LL535ES

*Am bob math o waith llechi a cerrig*

Cofebau: Newydd, Ail dorri, Peintio a Glanhau Crefft Llechi, Tlysau, Enwau Tai, Placiau Silffoedd Ffenestri, Arwyddion Faniau Llefydd Tân, Aelwydydd

*ffoniwch Meic Tanner*

01758 701801 / 07890 853938

ebost miketanner1@btinternet.com

*Amcanbris am ddim - dim TAW*



TELYN DRADDODIADOL GYMREIG

yn cynnwys

Telyn Deires

Gwersi * Priodasau

a.y.y.b.

ANNA GEORGINA

01758 770 454

Cae 'Refail Llangwnadl

# Ddudish i ’Do

**Ryw** bythefnos yn ôl ces f’atgoffa gan ffrind ’mod i wedi deud mewn sgwrs rhoi’r- byd-yn-ei-le rywbryd yn y gorffennol fod rhaid i rwbath ddigwydd yn y byd ’ma i gael trefn unwaith eto. Yr hyn oedd gen i dan sylw oedd mod i’n gweld pawb yn mynd fel cath i gythral a dim amser am sgwrs na sylwi ar ddim. Mynd o un gorchwyl i’r llall ddydd ar ôl dydd a grwgnach nad oes amser i neud hyn ac arall – ac ar ben bob dim, yn cwyno eu bod wedi blino!




Wel, daeth y cyfnod yna i ben (am y tro beth bynnag) ac erbyn hyn mae’r mwyafrif o bobol yn treulio eu hamser adra efo’u teuluoedd yn sgîl y Corona. Tra’n sgwrsio ar y ffôn efo ffrindiau a theulu dw i ’di dŵad i’r casgliad mai’r un math o betha ydan ni i gyd yn eu gneud. Mae gen i ddigonadd o orchwylion nad ydw i’n hoff o’u gneud yn y tŷ, ond diolch byth, mae hi ’di bod yn rhy braf i’w gneud – esgus da felly i weithio tu allan. Clirio’r ardd, paentio dodrefn, giatiau, decing a reilings dw i ’di bod yn ’i neud tra roedd Robin yn gneud mynedfa i ardd fach newydd fydd yn cael ei defnyddio maes o law gan ymwelwyr Airbnb. Disgwl cyflenwad o blanhigion a ballu rŵan i lenwi’r potia o’n i wedi’u gwagio. Handi ’di’r wê ’ma.

Tra ’mod i’n cael pleser o gyflawni’r gorchwylion yma, y petha sy’ wedi rhoi’r mwynhad mwya i mi ydi mynd ar ein beics hyd lonydd tawel yr ardal; y ffefryn ydi mynd lawr heibio i gapal Hebron, troi i’r chwith, yna i’r dde i lawr Lôn Cil Llidiart at Gyfelan Fawr, ymlaen wedyn at Methlam a throi am Roshirwaun a Phenygroeslon ac i lawr am adra. Fyddwn ni’n gweld fawr neb ar ein taith, heblaw am ffermwyr wrth eu gwaith a bloda gwyllt. Bois bach, dw i rioed wedi gweld cymaint o floda i gyd efo’i gilydd yn fy mywyd, yn garnifal o liwia i harddu’n byd, trist ar hyn o bryd. Mae’r petha rhyfedda’n mynd ymlaen drwy ben rhywun ar adag fel hyn yn tydyn – ei chael hi’n anodd credu dw i sut mae byd natur yn dal i fynd ymlaen, a chymaint o bobol a theuluoedd o dan ffasiwn straen. Ydi’r blodau’n fwy lliwgar a chân yr adar yn gliriach ’leni er mwyn rhoi gobaith i ni? Neu oeddan nhw yno yn y cefndir o’r blaen ond nad oeddem yn sylwi?

Ydi’r haul wedi dangos ei belydrau a’i wres er mwyn ein helpu yn y dyddiau tywyll ’ma? Ai cyd-ddigwyddiad ydi hyn, neu wedi dod i bwrpas fel rhan o’r ‘cynllun’? Dywedir fod diffyg fitamin-D yn cyfrannu at yr afiechyd ’ma: ai dyma pam fod yr haul mor hael yn Ebrill eleni?

Unwaith eto, dw i’n teimlo’n hynod freintiedig o gael byw mewn ardal mor hardd, lle mae encilio mor hawdd. Mae gen i ffrind sy’n byw yn Japan, mewn fflat sy’n llai medda hi na’r rhan fydd hi’n aros ynddo yn ein tŷ ni. Mae’r fflat ynghanol Yokohama, yn floc enfawr, ac mae hi a’i gŵr ar yr wythfed llawr! Fedra i wir ddim hyd yn oed amgyffred ymweld â hi heb sôn am ddychmygu byw yno. Mi ddudodd hi wrtha i unwaith na fyddwn i’n para diwrnod yno oherwydd y bobol a’r sŵn a dim gwyrddni. Mae hi wedi fy nabod yn reit dda. Mi fyddai hi yn rhoi’r byd am gael bod yn Llŷn rŵan.

Mae’r wythnosa dwytha ’ma wedi bod yn gyfnod o atgofion i amryw. Atgofion o fel oedd hi ’stalwm – cerdded ganol lôn heb yr un car, cael sgwrs (o bellter) efo cymdogion, siopau lleol yn danfon bwyd a theimlad o gymdogaeth dda.

Ddudish i ’do fasa rhaid i rwbath ddigwydd i ddŵad â phobol at eu coed a dechra byw yn rhesymol eto. Ond wedi i hyn i gyd basio fyddwn ni’n dychwelyd at ein ‘hen ffordd o fyw’ brysur, neu fyddwn ni’n dal ein gafael yn y gwerthoedd a ddysgwyd yn ei sgil?

Mae gen i deimlad y bydda i’n ei chael yn anodd mynd yn ôl i’r byd mawr gwallgo tu allan i Langwnnadl wedi profi symylrwydd a gwerthoedd mae un wedi anghofio amdanynt. Dychmygaf y bydd yn ymdebygu i’r teimlad o ddŵad adra o Enlli a methu’n glir â dygymod â’r sefyllfa. Ond, dw i’n edrych ymlaen yn fawr iawn i gael cwmni fy nheulu unwaith eto. Dyma anfantais fwyaf yr encilio.

Cyfreithwyr Breese Gwyndaf

Mewn strach? Mawr neu fach? Cysylltwch â ni

· Trawsgludo Tai a Busnesau · Ewyllysiau · Profiant · Hawliad Iawndal · Niwed Personol · Materion Sifil · Ysgariad a Theulu · Cyfraith Amaethyddol · Troseddau di-annod ·

Apwyntiadau ar gael yn eich cartref, gyda’r hwyr neu ar y penwythnos drwy drefniant.

| PORTHMADOG | PWLLHELI | ABERMAW |
|---|---|---|
| 01766 512214/512253 | 01758 612362 | 01341 280317 |
| 60 Stryd Fawr, Porthmadog | Adeiladau Madoc, Pwllheli | Stryd Fawr, Abermaw |

Safon Trawsgludo · Cyfraith Teulu · office@bg-law.co.uk · Lexcel

*Yn Gweithredu Ar Ran Y Gymuned Ers Tros 150 o Flynyddoedd*

## Clwb Ffermwyr Ifanc Godre’r Eifl

**Helo** bawb!

Hoffai’r Clwb ddymuno’n dda i chi gyd yn ystod y cyfnod problemus yma! Mae’r aelodau i gyd yn eiddgar i fod o gymorth i unrhyw un sydd ei angen o fewn y gymuned. Cofiwch gysylltu os oes unrhyw beth allwn ni ei wneud.

Chawson ni’r un cyfarfod yn Ebrill wrth reswm, a dim ond tri ym Mawrth cyn i’r gwaharddiadau ddod, un yn ymweliad gan Beca Glyn, Cadeirydd y Sir, a ddaeth draw i drafod ei swydd o fewn y Mudiad. Mae Beca wedi bod yn ymgyrchu llawer dros iechyd a diogelwch o fewn y byd amaethyddol, ac fe drafododd bwysigrwydd lledaenu’r neges yma o fewn y Mudiad.

Mae holl ddigwyddiadau’r Sir hefyd wedi’u gohirio. Cadwch yn saff.

**Ffion Bryn** a **William Huw**

GWASANAETHAU FFITRWYDD

DM

Dave Martin

Hyfforddwr personol a Thylinwr Chwaraeon Profiadol

Dros ugain mlynedd o brofiad ym maes chwaraeon. Darparu gwasanaethau ffitrwydd a iechyd i bobl o unrhyw oed a lefel ffitrwydd.

Wedi ei leoli ym Mhwllheli ac yn gwasanaethu’r Gogledd Orllewin i gyd.

Hyfforddian Personol Cynhwysfawr

Tylino Chwaraeon

Cyngor Bwyd a Maeth

Ysgolion Rygbi

Bŵtcamps

07833536301

/davemartin.pt

## Cyngor Tref Pwllheli

**Gwahoddir tendrau** at wneud gwaith cynnal a chadw amrywiol yn y dref. Bydd y tendr yn parhau am 2 flynedd. Ar gyfartaledd, bydd deg awr yr wythnos o waith. Disgwylir i’r tendrau amlinellu profiad.

Bydd y Cyngor yn gwahodd rhestr fer i gyfweliad. Ceisiadau i law erbyn 5 y prynhawn Mai 31, 2020, mewn amlen wedi’i selio, ac wedi ei farcio’n glir ‘Tendrau Cynnal a Chadw’.

Bydd angen i’r tendrwr llwyddiannus roi copi o yswyriant priodol i’r Cyngor Tref. Am fanylion a rhestr o’r gwaith cysylltwch â’r Clerc, Eric Price ar 01758 701454.

clerccyngortrefpwllheli@gmail.com

# Diolchiadau

50 o eiriau neu lai……£4.00
50 – 100 o eiriau ……£6.00

Dylid anfon diolchiadau â siec (yn daladwy i Llanw Llŷn) at Meryl Davies, Nyffryn, Dinas, LL53 8ST
01758 770691 meryl_davies@hotmail.co.uk

**erbyn y dyddiad cau** (gweler tud. 2)

**Dymuna** Dewi, Gareth, Bethan a Buddug, Bryn Môr, Llithfaen ddiolch yn fawr iawn am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Iola, gwraig, mam, nain a hen-nain annwyl iawn. Diolch i Ifan a Nia, Garej Ceiri am eu trefniadau trylwyr, ac i bawb a gyfrannodd at Ambiwlans Awyr Gogledd Cymru er côf am Iola.

**Dymuna** teulu'r diweddar Ellis Jones, Elgwyn, Lôn Glen Elen, Abererch (Bwlch Gwyn, Rhydyclafdy gynt), ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o'i golli. Diolch i'r Parchedig R.E. Hughes am ei wasanaeth ddydd yr angladd, i Mr M. Sol Owen am fod wrth yr organ, ac i G.W. Parry, Gallt Beren, Rhydyclafdy am ei drefniadau trylwyr. Diolch yn fawr iawn hefyd am y rhoddion er cof am Ellis tuag at Ambiwlans Awyr Cymru.

**Dymuna** Catherine Mary, Hen Aelwyd, Rhoshirwaun ddiolch o galon i berthnasau, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd, cymorth a chefnogaeth yn ystod gwaeledd Donald. Diolch am bob gofal a gafodd. Diolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd yn ei phrofedigaeth o golli Donald. Gwerthfawrogwyd y cyfan. Diolch i bawb gymerodd ran mewn unrhyw ffordd ddiwrnod yr angladd, ac i gymaint am fod yn bresennol. Diolch i R.O. Jones, Talafon am ei ymarweddiad parchus a'i drefniadau trylwyr.

**Dymuna** Roger a Megan, Wernol, Edern, ddiolch o galon i'n teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, galwadau ffôn ac anrhegion a gawsom ar achlysur ein penblwydd Priodas Ddiemwnt. Diolch yn arbennig i'r ddwy ferch, Glenda a Lynwen a'u teuluoedd am drefnu lluniaeth ardderchog i ni yn Efailnewydd, ac yma yn ein cartref. Diolch yn fawr iawn i bawb am fod mor garedig.

**Hoffem** fel teulu ymestyn diolch o waelod calon i bawb a fu mor garedig gyda ni ar golled Annwen Rees Hughes, Tudweiliog, - merch, gwraig, mam, nain a modryb annwyl. Yn ffrind i lawer,'roedd yn hoff iawn o hwyl, coffi, garddio a bywyd gwyllt. Os yr hoffech wneud rhywbeth er côf amdani, byddai wedi mwynhau eich gweld yn hau llecyn o flodau gwyllt, neu gyfrannu at elusennau sydd yn diogelu eliffantod gwyllt, neu hybu cadwraeth adar cynhenid fel y gylfinhir yma yng Nghymru. Diolch yn fawr i chi.

**Ein** dymuniad ni, teulu y diweddar Bethan Davies Jones, 90 Bro Ednyfed, Llangefni (gynt Bethan Francis, Nefyn), yw diolch i bawb a fu yn gysylltiedig ac mor garedig a thyner wrth Bethan yn ystod ei gwaeledd, - yn feddygon, nyrsus, a gofalwyr yn ei chartref yn Llangefni, ac yna yn Hospis Dewi Sant, Llandudno. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, ac ymwelwyr, pob un gyda'u geiriau caredig. Diolch i'w ffrindiau am fod mor driw iddi wrth geisio ei diddori a'i chysuro yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Diolch i'r Parchedig Christopher Prew a'r Parchedig R.E. Hughes, a'r organyddes Mrs L.W. Roberts am eu gwasanaeth ar ddydd yr angladd. Diolch i'r ymgymerwr Ifan Hughes, Llanaelhaearn am ei ofal trylwyr, ac i Westy'r Ship, Llanbedrog am y lluniaeth. Derbyniwyd £2,486 i'w rannu rhwng Ymchwil Motor Neurone a Hospis Dewi Sant Llandudno. Ie, diolch yn fawr iawn i bawb.

# O Benarfynydd



Llun: Elin Gruffydd

# Agor Cist Gwynedd 2020/21

**M**ae grwpiau gwirfoddol a chymunedol Gwynedd yn cael eu hannog i ystyried gwneud cais am grantiau refeniw a chyfalaf fydd yn cefnogi amrywiol brosiectau fydd yn arwain at wella safon bywyd trigolion a chymunedau'r sir.

Mae Cronfa Cefnogi Cymunedau, Cist Gwynedd, yn cynnig grantiau o hyd at £10,000 i annog cymunedau i wireddu'r amcanion hyn drwy gymryd rôl mwy rhagweithiol yn eu cymunedau. Yn ogystal, mae Cronfa'r Degwm yn cynnig grantiau hyd at £3,000 i elusennau cofrestredig. Mae canran o'r Gronfa yn cael ei dosbarthu i eisteddfodau lleol yng Ngwynedd, sef swm o £300, a dylid ymgeisio drwy anfon e-bost i dîm Cist Gwynedd: CistGwynedd@gwynedd.llyw.cymru

Mae pecynnau ymgeisio ar gyfer y cronfeydd yma ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd: Cronfa Cefnogi Cymunedau - www.gwynedd.llyw.cymru/cronfacefnogicymunedau. Cronfa'r Degwm - www.gwynedd.llyw.cymru/cronfardegwm.

Mae Cist Gwynedd hefyd yn gweinyddu cronfa'r Gist Gymunedol (oedd yn arfer cael ei galw yn Sportlot) yng Ngwynedd, ar ran Chwaraeon Cymru. Mae'r gronfa yma yn cynnig grantiau o hyd at £1,500 i grwpiau chwaraeon, cymunedol a ffitrwydd, ar gyfer prosiectau sy'n arwain at fwy o bobl yn cymryd rhan, a chreu cyfleoedd newydd ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol. Mae'r ffurflen gais a chanllawiau ar gael ar-lein ar wefan Chwaraeon Cymru: www.chwaraeon.cymru/cynnwys/y-gist-gymunedol/

Oherwydd effaith *Covid-19*, mae'r dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Cronfa Cefnogi Cymunedau wedi ei symud ymlaen i Medi 30, 2020. Mae'r Gronfa ar agor i dderbyn ceisiadau o dan £1,000 drwy e-bost yn unig. Mae ffurflen gais ar gael ar ein gwefan neu cysylltwch gyda ni (manylion isod). Mae croeso i chi e-bostio i amlinellu, mewn ychydig frawddegau, sut ydych yn ymateb i'r sefyllfa bresennol a sut mae yn effeithio arnoch fel mudiadau a grwpiau. Mi wnawn drio helpu mewn unrhyw ffordd bosib. Arhoswch yn saff.

Y dyddiadau cau ar gyfer Cronfa y Gist Gymunedol ydi: Mehefin 8; Medi 7; Tachwedd 5, 2020; Ionawr 13, 2021.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch gyda swyddfa Cist Gwynedd ar e-bost CistGwynedd@gwynedd.llyw.cymru neu ffonio 01286 679153.

**Datganiad i'r wasg**

GWEITHDY
KAMPALA
Gwaith Coed ac Adeiladu
Gwaith Tamp - Cyflenwi a Gosod
Ffenestri a Drysau UPVC
01758 614447
07786095570 / 07748280545
gweithdykampala@yahoo.co.uk
10 Stryd Moch, Pwllheli LL53 5RG

# Llanw Llŷn chwaraeon Llanw Llŷn

## Clwb Pêl-Droed Pwllheli



**Er** gwaetha tywydd ciami, gohiriadau a chwaraewyr yn anafu, teg dweud bod yna fymryn o bositifrwydd o gwmpas Clwb Pêl-droed Pwllheli ers troad y flwyddyn.

Gyda thîm y merched yn cryfhau wedi cyfnod rhwystredig, ac ail dîm y dynion yn cynnig llwybr at y tîm cyntaf i'r llanciau lleol, roedd y tîm cyntaf, dan arweiniad John Glyn a Dylan Gilfach, wedi cyrraedd ffeinal am y tro cynta mewn degawd. Roedd yna gryn edrych ymlaen at herio Aberffraw am Gwpan Her Take Stock Van Hire ar gae Nantlle Fêl.

I goroni popeth, roedd y gwaith adeiladu ystafelloedd newid a chawodydd newydd yn mynd yn ei flaen yn gampus. Doedd neb yn poeni am gyflawni gofynion trwyddedu'r FAW yng Nghaerdydd bell cyn y dyddiad cau ar ddiwedd Ebrill.

Tan i Covid-19 gyrraedd a chwalu popeth! Ar y cae roedd yna siom segurdod i'n holl dimau gan amddifadu'r rheiny sy'n byw am gael cicio pêl, ac ambell wrthwynebydd, o'u ffics ffwtbol am gyfnod amhenodol.

Oddi ar y cae, roedd hi'n waeth fyth! Mae'r gwaith adeiladu yn dal heb ei orffen, ond gyda Huws Gray wedi cau roedd ganddon ni broblem. Sawl problem a deud y gwir gan fod coffrau'r Clwb yn gwbl wag! Roedd pethau yn edrych mor addawol ddechrau Mawrth. Roedd Ryan Giggs wedi cytuno i areithio (yn dawel) yn Neuadd Dwyfor. Gwerthwyd pob tocyn o fewn dwyawr, ond Covid-19 gafodd y gair olaf, a gohiriwyd y noson.

**Dyna oedd hanes diwrnod golff ar ddydd Sul y Pasg, a chystadleuaeth ieuenctid ym mis Mai. Roedd disgwyl codi rhai miloedd i'r coffrau, ond trechwyd y trefnu a'r coffrau gan yr aflwydd.

Ergyd arall oedd colli arian y ffeinal. Gyda mil o bunnau i'r enillwyr a phum cant i'r tîm aflwyddiannus, roedd hon yn gêm *win-win* wirioneddol. Halen yn y briwiau oedd colli arian giât John Penrhos ac Emyr Tŷ Capel, heb sôn am arian y cwt te ar gyfer y gemau gohiriedig.

Dan ni wedi colli dros £5000 o ran incwm ers canol mis Mawrth. Dipyn o dolc i glwb bach gwirfoddol. Cawn weld a gaiff y tymor ei gwblhau, ond does neb yn ffyddiog. Falle gawn ni arian y giât a'r cwt te yn ôl a falle y cawn ni gyfle i fynd am fedalau'r ffeinal. Pwy a ŵyr?

Un clwb, un gymuned yw ethos ein Clwb, a gwelwyd hynny ar ei orau yn ddiweddar wrth i ni ddod at ein gilydd, yn ysbrydol o leia, i godi arian i brynu hamperi bwyd i ddiolch i staff Meddygfa Treflan, y Gwasanaeth Ambiwlans, Ysbyty Bryn Beryl a Chartref Plas y Don am eu gwasanaeth rhyfeddol, yn ogystal â chyflwyno wyau pasg i breswylwyr Cartref Tan y Marian. Un clwb, un gymuned.

Mae cymaint o ansicrwydd o'n cwmpas bellach a does gan neb syniad be fydd y normalrwydd newydd, ond teg dweud bod yna griw o wirfoddolwyr a channoedd o chwaraewyr yn benderfynol o godi Clwb Pêl-droed Pwllheli a'r Rec yn ôl i entrychion y dyddiau da.

Os oes ganddoch chi awydd dod draw i gefnogi ar ddiwrnod gêm, i noddi neu gyfrannu yn ariannol, neu os ydych ffansi gwirfoddoli efo ni, mae croeso i chi alw draw i weld y cae a'r stafelloedd newid ar eu newydd wedd, ond dim ond pan fydd hi'n ddiogel i ni ailymgynnull wrth gwrs! Yn y cyfamser gallwch gysylltu gyda ni ar cpdpwllhelifc@gmail.com.

Amser a ddengys be fydd ein ffawd o ran y ffeinal a'r drwydded i gael esgyn i drydedd haenen pêl-droed Cymru. Fe ddaw eto haul ar fryn o ran y ffwtbol hefyd. Gobeithio.






## Clwb Hoci Pwllheli

**Mae** tymor 2019-20 i Glwb Hoci Pwllheli wedi bod yn un unigryw, heriol a chynhyrfus a dweud y lleiaf.

Cychwynnodd y tymor fel pob un arall wrth i ni groesawu aelodau newydd ifanc a thalentog i'r tîm cyntaf ond ffarwelio ag aelodau eraill gan eu bod yn gadael am y prifysgolion. Nid oedd canlyniadau'r gemau cyntaf y rhai gorau. Roeddem yn dod i arfer chwarae gyda'n gilydd. Yn ystod tymor y gaeaf, roedd ymarferion y tîm cyntaf yn ogystal ag ymarferion yr adran iau yn cael eu gohirio yn wythnosol. Oherwydd ein hamgylchiadau ymarfer, nid oeddem yn gallu cynnal ymarferion yn gyson. Yn anffodus, roedd cyflwr difrifol y cae pob tywydd yn rhy beryglus i ni allu ymarfer arno.

Roedd pwysau aruthrol ar ysgwyddau aelodau'r pwyllgor i drefnu digwyddiadau codi arian er mwyn sicrhau grant i ail-adnewyddu'r cae pob tywydd. Roedd risg o golli arian y grant gan Chwaraeon Cymru os nad oeddem yn casglu swm sylweddol cyn diwedd y flwyddyn. Roedd difrifoldeb y sefyllfa wedi taro nifer yn y gymdeithas.

Yn sgîl hyn, trefnwyd nifer o ddigwyddiadau codi arian at achos ein cae ac roedd yr Ocsiwn yn ddigwyddiad hynod o lwyddiannus. Mi wnaeth llawer o bobl leol fynychu'r ocsiwn a'n cefnogi. Mae Clwb Hoci Pwllheli yn ddiolchgar ofnadwy i'r unigolion a wnaeth gyfrannu at yr ocsiwn a'r rheini wnaeth wario yno, ar y noson ac ar-lein.

Roeddem dan bwysau yn ystod cyfnod y Nadolig i sicrhau swm sylweddol o arian er mwyn diogelu ein grant gan Chwaraeon Cymru. Profodd yr adeg hyn pa mor arbennig yw busnesau, aelodau a thrigolion ein hardal leol wrth iddynt ein cefnogi ni a'n hymgyrch i achub ein cae. Mae'r clwb yn hynod ddiolchgar i bob unigolyn a wnaeth ein cefnogi dros y cyfnod hwn; nid oes geiriau i ddisgrifio ein diolchgarwch tuag atoch. Yn sgîl y cyfnod ansicr hwn, daeth aelodau presennol o bob oedran a chyn-aelodau'n agosach gan gydweithio'n effeithiol ac anelu at yr un nod, sef achub y cae. Roedd brwdfrydedd ac angerdd yn amlwg gan bawb.

Roedd y frwydr i achub ein cae yn ein hysbrydoli mewn gemau hoci, hefyd. Gorffennwyd rhan gyntaf y tymor gyda buddugoliaeth. Curwyd Bangor 4-2 mewn gêm gwpan. Roedd hyn yn ffordd dda o orffen y flwyddyn 2019, ac i edrych ymlaen at y flwyddyn newydd. Roeddem hefyd ar bigau'r drain i glywed gan Chwaraeon Cymru ynglŷn â'n hymdrechion i gasglu'r arian tuag at ein cae...

Cychwynnodd y flwyddyn 2020 yn gryf iawn gan guro Trallwng, Bangor a Rhuthun. Yn bwysicach fyth, cafwyd cadarnhad gan Chwaraeon Cymru ein bod wedi llwyddo i godi'r arian i dderbyn y grant ac i gychwyn ein siwrne â'r cae newydd!

*(parhad ar y dudalen ôl)*

Llanw Llŷn **chwaraeon** Llanw Llŷn

# Clwb Hoci Pwllheli

*(Parhad o dudalen 31)*

Roedd y gemau'n llifo, roedd pasiau a sgiliau'r genod yn werth eu gweld. Roedd nifer o'r genod ifanc yn sgorio eu goliau cyntaf i'r clwb ac roedd yr hen bennau, hefyd, yn cadw strwythur cryf drwy gydol y gemau gan sicrhau fod llif y gêm yn rhedeg yn effeithiol.

Roedd hwyliau da ar bawb ac roedd cyffro mawr gyda'r gwaith ail-adnewyddu'r cae newydd wedi cychwyn. Roedd yn gyfnod cyffrous a newydd i'r clwb…

Ond, gydag un gêm ar ôl i'w chwarae, a'r cae newydd yn ei le, daeth popeth i stop. Aeth y wlad i stop! Roedd cynghreiriau lleol wedi'u gohirio. Oherwydd cyfyngiadau symud a rheolau ymbellhau cymdeithasol y llywodraeth, bydd rhaid aros cyn i ni allu troedio'r cae newydd sbon.



Yn ystod y cyfnod hwn, bu i aelodau'r tîm cyntaf ymuno â'r sialensiau hwylus sydd i'w gweld ar hyd y cyfryngau cymdeithasol a bu iddynt gymryd rhan yn y sialens rôl toiled. Cerwch i'n tudalen 'facebook', 'instagram' a thrydar i weld y fidio a'n sgiliau rôl toiled! Byddwn hefyd yn uwchlwytho mwy o sialensiau hwylus ar y llwyfannau hyn, felly cofiwch ein dilyn. Rydym hefyd wedi creu grŵp rhedeg ar 'Strava' er mwyn hybu pwysigrwydd cadw'n actif yn ystod y cyfnod hwn. Mae croeso i gyn-aelodau ac aelodau newydd ymuno â'r grŵp. Chwiliwch am 'Clwb Hoci Pwllheli' ar yr ap.

Eleni yw'r flwyddyn gyntaf, ers dros 10 mlynedd, i ni beidio cynnal y Gynghrair Hoci Haf. Bydd yn chwith peidio gweld y timau a'u haelodau sy'n cefnogi'r gynghrair bob blwyddyn. Edrychwn ymlaen at eich gweld a'ch croesawu i'n cae newydd yn fuan!

Gobeithiwn gynnal agoriad ffurfiol i'n cae a chael cyfle i ddiolch i bob un sydd wedi ein cefnogi a chyfrannu at yr ymgyrch yma. Rydym eisiau dathlu ein llwyddiant gyda phawb sydd wedi ei wneud yn bosib. Rydym, gyda'n gilydd, wedi gallu sicrhau ein bod â chae pob tywydd maint llawn yn Efailnewydd. Bydd y cae'n fuddiol iawn i ddyfodol Clwb Hoci Pwllheli yn ogystal â datblygiad chwaraeon yma ym Mhen Llŷn.

# Clwb Rygbi Pwllheli

**Gweler isod fraslun o'n tymor, y sefyllfa bresennol a'n gobeithion am y dyfodol.**

**Fel** y gwyddoch, fe ddaeth y tymor i ben dan amgylchiadau anodd iawn yn dilyn y pla Covid 19. Fel clybiau eraill ledled Cymru wnaeth yr un o'n 16 tîm orffen eu rhaglen gemau. Mae disgwyl i'r Undeb Rygbi gyhoeddi yn fuan sut fydd hyn yn effeithio ar ein grantiau y tymor nesaf.

Cafwyd tymor reit ansefydlog gan y Tîm Cyntaf hefo newidiadau chwaraewyr a hyfforddwyr. Diolch i Mark Roberts am gamu i mewn i wneud ei orau i gynnal y sefyllfa. Hefo cefnogaeth capten John Pugh, hen ben Geraint Parry a hogiau Pwyllgor fel Bryn Martin a Ken Davies fe wnaeth y chwaraewyr dynnu at ei gilydd i orffen yn bedwerydd yn Adran 1 Y Gogledd. Cafodd yr ail dîm dymor anodd hefyd ond hefo gwaith caled Owain Thomas ac Edwin Jones fe wnaethont gyflawni eu dyletswyddau a chadarnhau eu lle yn Adran 3 Y Gogledd y tymor nesa. Balch ydym o gael dweud bod datblygiad ein Tîm Ieuenctid yn galonogol iawn. Hefo Dafydd Brychyni wrth y llyw, gyda chefnogaeth Robat Williams, Wayne Hughes, Rhys Evans a Meic Straen, gwelwyd arwyddion positif iawn i'r dyfodol. Fe wnaeth y tîm dynnu at ei gilydd ar y cae ac oddi arno a gorffen y tymor gyda gobeithion uchel yn y Gynghrair a'r Gwpan. Da iawn hogia.

Rhaid dweud bod mwy o drefn yn yr Adran Ieuenctid na neb arall yn y Clwb. Mae eu strwythur taliadau aelodaeth, er enghraifft, yn rhoi esiampl dda i bawb yn y Clwb, yn cynnwys hoci a chriced, hefo mewnbwn dwys gan Gareth Hodgson a gwaith trefnus cyson gan Jacqueline Adams. Mae eu cyfraniad at ddyfodol y Clwb yn hollbwysig.

Mae'r gwaith yn parhau hefo Adran Celtiaid y Clwb ac yr ydym yn hyderus bod dyfodol cadarn i rygbi merched i'r dyfodol. Diolch i David Martin, Gwenan Griffith, Eleri Cowt ac eraill am eu mewnbwn.

Yr ydym mewn cyswllt cyson hefo Undeb Rygbi Cymru a rhaid dweud bod cefnogaeth agored a chyson ar gael. Maent yn ddigon gonest i ddweud na fedrant roi amseriad i ail gychwyn rygbi yma yng Ngymru ond y gallwn fod yn ffyddiog y bydd hyn yn digwydd cyn gynted ag y bydd o'n saff i wneud.

Fel y gwyddoch, mae ganddom gynlluniau ar y gweill i adeiladu Clwb newydd ym Modegroes. Bydd hwn ar yr un sylfaen â'r Clwb presennol, ond ar ddau lawr. O'r diwedd fe fydd digon o ystafelloedd newid, dwy ystafell i ddyfarnwyr, ac am y tro cyntaf ystafell Cymorth Cyntaf. Yn dilyn Covid 19 mae'r amserlen wedi newid a bellach does dim sicrwydd am amser cychwyn y fenter anferth yma.

Dros y cyfnod anodd yma mae gwaith yn parhau yn y Clwb ac ar ein caeau chwarae. Am unwaith dydy'r tywydd braf ddim o gymorth mawr i waith ar y caeau, ond fe ddaw. Yn anffodus mae oedi hefo'n cais am gefnogaeth ariannol i wella'r llifoleuadau ar gae'r ail dîm ond yr ydym yn hyderus y bydd hyn yn digwydd.

Yr ydym ar gael i gefnogi ein gweithywr iechyd a wedi cael Gwaed Cymru acw yn ddiweddar am sesiwn cynhyrchiol. Os medran wneud mwy peidiiwch ac oedi i gysylltu.

Er nad yw'r Pwyllgor yn cyfarfod wyneb i wyneb yr ydym mewn cyswllt rheolaidd. Felly os oes unrhyw cwestiwn cysylltwch a fe wnawn drefnu ymateb i chi. Yn anffodus mae sawl cynllun oedd ganddom am tymor nesa dim yn medru symud ymlaen ar hyn o bryd ond maent yn parhau ar yr agenda.

Yr ydym yn gwerthfawrogi cefnogaeth y cymuned leol ac eto os fedran gyfrannu mewn unrhyw ffordd gadewch i ni wybod.
Biti mawr hefyd oedd clywed am ohirio'r Eisteddfod ym Modfal,ond dyma'r unig benderfynniad o dan yr amgylchiadau,a gobeithio fydd y clwb yn ganolfan pan y daw yn 2022.



Fel y disgwyl mae effaith Covid 19 yn sylweddol ar bod agwedd o'r Clwb. Does dim arian yn dod i mewn ond costau yn parhau.Yr ydym yn yr un sefyllfa a llwyth o fusnesi lleol oll fedrai addo ydi y byddem yn gwenud ein gorau i sicrhau dyfodol Clwb Rygbi Pwllheli. Unwaith eto rhaid datgan fod heb cefnogaeth busnesi lleol, y rhai sy'n hysbysebu yn y Clwb a'n Is Llywyddion ffyddlon bysa'r dyfodol llawer mwy ansicr. Diolch yn fawr.

Ar rhan pawn o'r Clwb yr ydym yn gobeithio am y gorau i chwi i gyd. Cadwch yn saff. Mae pethau yn siwr o wella.
Cymerwch ofal,
**Wil Martin.**

THERAPI

Tylino Aromatherapi Proffesiynol

i Ferched

Canolfan Fenter Congl Meinciau, Botwnnog

Am fwy o fanylion ffoniwch
01758 770 002 neu 07811 355 766